

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Dylan Foster Evans, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

*Golygyddion Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

*Swyddog Golygyddol*

Glenys Howells, MA, ALA

GWAITH  
LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN

golygwyd gan  
DAFYDD JOHNSTON



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
1998

© Prifysgol Cymru ©, 1998.  
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 15 7

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Dull y golygu*

Llyfr Coch Hergest yw prif ffynhonnell cerddi 2–7 isod, a dyma ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi hyn, ac felly ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn y llawysgrif honno, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun. Y mae testunau'r cerddi eraill i gyd (sy'n gywyddau, ac eithrio cerdd 1) mewn nifer o lawysgrifau o ddiwedd y bymthegfed ganrif ymlaen, a chan na ellir canfod 'prif destun', lluniwyd testun cyfansawdd, gan ddangos y darlleniadau amrywiol pwysig yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith y bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod.

## *Diolchiadau*

Carwn gydnabod yn ddiolchgar y cymorth a gefais wrth baratoi'r gyfrol hon gan Adran y Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Mr Gareth Bevan, Mr Daniel Huws ac aelodau Bwrdd Golygyddol y gyfres hon. Y mae arnaf ddyled arbennig i'r Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams a'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd am eu sylwadau gwerthfawr, ac i Olygydd cymwynasgar y gyfres, Dr Ann Parry Owen.

# Cynnwys

*Tud.*

DULL Y GOLYGU .....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol .....	ix
Termau a geiriau .....	xiv

## GWAITH LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN

RHAGYMATRODD .....	1
--------------------	---

### TESTUN AC ARALLEIRIAD

1. Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref .....	13
2. I ddiolch i Dduw am arbed bywyd Llywelyn Fychan ap Llywelyn, Abad Ystrad-fflur.....	18
3. Moliant Rhys ap Rhys ap Gruffudd o Abermarlais.....	20
4. Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron a Llywelyn Fychan o Anhuniog.....	25
5. Marwnad Goronwy ap Tudur o Benmynydd.....	30
6. Moliant Hopcyn ap Tomas o Ynysforfan .....	36
7. Awdl gyffes .....	40
8. Moliant Hywel a Meurig Llwyd o Nannau .....	44
9. Y penlöyn .....	51
10. Y farf .....	56
11. Dewiniaeth .....	60
12. Marwnad Lleucu Llwyd .....	63

### ATODIAD

I Hywel Sele ap Meurig Llwyd o Nannau.....	76
NODIADAU .....	81
MYNEGAI .....	99
Enwau personol.....	108
Enwau lleoedd.....	109

LLAWYSGRIFAU .....	111
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....	119
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU .....	121



# Byrfoddau

## *Llyfryddol*

- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P<sup>2</sup> *Armes Prydein ... from the Book of Taliesin*, edited and annotated by Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–94
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BL Add *Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*
- Bl B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybie, 1989)
- BrM *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card *Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd*

- CLC *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 1949–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. H. Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914)
- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)

- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277-1536* (Cardiff, 1972)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap*

*Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)

- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– )
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LII *Llyfr Iorwerth*, ed. Aled Rhys William (Cardiff, 1960)
- J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MA<sup>2</sup> *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBVV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1976)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RC *Revue celtique*, 1870–1934
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP<sup>2</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WLW *The Welsh Law of Women*, ed. Dafydd Jenkins and Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	gn.	geiryn
a.	<i>ante</i>	gol.	golygydd, golygwyd
adf.	adferf		gan
amhff.	amherffaith	grb.	gorberffaith
amhrs.	amheronol	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
ba.	berf anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c.	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
Clt.	Celteg, Celtaidd	llsgrau.	llawysgrifau
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	n.	nodyn
dib.	dibynnol	neg.	negydd, -ol
dyf.	dyfodol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
e.	enw	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
eb.	enw benywaidd	pres.	presennol
e.c.	enw cyffredin	prff.	perffaith
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.	person, -ol
e.e.	er enghraifft	pth.	perthynol
eg.	enw gwrywaidd	r	<i>recto</i>
e.p.	enw priod	rh.	rhagenw, -ol
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	S.	Saesneg
f.	ffolio	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
ff.	ffolios	td.	tudalen
Ffr.	Ffrangeg	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	<i>volumes</i>

## Rhagymadrodd

### Y bardd

Perthynai Llywelyn Goch i deulu uchelwrol a gysylltir â phlas Nannau ym mhlwyf Llanfachreth, sir Feirionnydd.<sup>1</sup> Mab ydoedd i Feurig Hen ab Ynyr ap Meurig ap Madog ap Cadwgon ap Madog ap Cadwgon ap Bleddyn ap Cynfyn.<sup>2</sup> Ynyr Fychan, brawd Meurig Hen, a drigai yn Nannau ei hun, ac ymwelydd oedd y bardd yno pan dderbyniodd nawdd wyrion Ynyr Fychan.<sup>3</sup> Ni wyddys ble'n union yr oedd cartref y bardd, ond gwelir yng ngherdd 6 iddo gychwyn ei daith i'r de uwch Afon Dyfi.

Enwir gwraig a phlant y bardd hefyd yn yr achau. Tangwystl ferch Adda ap Llowdden oedd enw ei wraig, yn ôl llyfr achau Edward ap Roger.<sup>4</sup> Diddorol yw nodi bod y ferch ddienw a gyferchir yng ngherdd 11 yn perthyn i *Hil Addaf hael o Lawdden* (11.4). Os derbynnir tystiolaeth llyfr Edward ap Roger, yna fe ymddengys i'r bardd wireddu'r honiad a wnaeth yn ei gerdd, *Dy gael, ferch, diogel fydd* (11.8). Ond rhaid ystyried y posibilrwydd mai'r gerdd oedd ffynhonnell yr wybodaeth yn y llyfr achau.<sup>5</sup> Nid oes tystiolaeth annibynnol i fodolaeth Adda ap Llowdden.<sup>6</sup> Y tebyg yw fod *o Lawdden* yn y gerdd yn golygu o lwyth Llawdden, yn hytrach na bod Adda yn fab i Lawdden. Eto i gyd, hyd yn oed os yw'r manylion achyddol am wraig y bardd yn annilys, y mae'n berffaith bosibl fod yr enw Tangwystl yn ddilys, ac y mae'n werth nodi bod yr enw hwnnw'n gyffredin yn llwyth Llawdden, bod dwy o wyresau'r bardd yn dwyn yr enw Tangwystl, a bod un o'i feibion ac un o'i wyresau wedi cael cymar o lwyth Llawdden. Fe ddichon, felly, fod rhywfaint o leiaf o'r wybodaeth am y bardd yn llyfr Edward ap Roger yn ddilys, ond bod ymdrech wedi ei gwneud i'w chysoni â'r manylion a geir

<sup>1</sup> Ar hanes y teulu gw. Bryn R. Parry, 'Hugh Nanney Hên (c. 1546–1623), Squire of Nannau', *Cylchg CHSFeir v* (1965–8), 185–206, ac A. Lloyd Hughes, 'Rhai o Noddwyr y Beirdd yn Sir Feirionnydd', *LICy x* (1968–9), 157–66.

<sup>2</sup> Camleolwyd Meurig Hen yn P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 50 trwy ei wneud yn fab i Feurig Fychan ab Ynyr Fychan. Pe bai hynny'n gywir, byddai Llywelyn yn nai i'w noddwyr Hywel a Meurig Llwyd, yn hytrach nag yn ewythr iddynt fel y dywed yng ngherdd 8. Nid yw'n syndod, felly, fod Bartrum yn cwestiynu'r floruit 1360–90. Gwyddys bod Meurig Hen yn frawd i Ynyr Fychan (*ib.* 'Bleddyn ap Cynfyn' 47 a 52), fel y nododd Robert Vaughan (gw. Arch Camb, trydedd gyfres, ix (1863), 130), ac fe ymddengys fod yr epithet 'Hen' i wahaniaethu rhyngddo ef a'i nai.

<sup>3</sup> Gw. cerdd 8.

<sup>4</sup> Pen 128, 717.

<sup>5</sup> Sylwr bod lle gwag wedi ei adael ar gyfer ei henw ar d. 117 yn y llawysgrif, a hwnnw heb ei lenwi. Cofier bod llawiau o leiaf dri bardd i'w gweld yn y llyfr, sef Wiliam Llŷn, Wiliam Cynwal a Simwnt Fychan, gw. RWM i, 785.

<sup>6</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Llowdden' 7.

yng ngherdd 11. Yn sicr, ni ddylid diystyru'r wybodaeth am ei blant, sef Meurig, Hywel Goch, a merch ddiennw, ac y mae'n werth nodi ymhellach fod disgynyddion ei fab Meurig wedi ymsefydlu ym mhlwyf Darowen.<sup>7</sup>

Fe ddichon fod a wnelo cefndir uchelwrol Llywelyn Goch â natur ei waith. Gyda'i dreiddgarwch arferol, y mae Saunders Lewis wedi rhoi inni ddarlun o gymeriad y bardd yn ei ysgrif bwysig, 'Y Cywyddwyr Cyntaf': 'Cymeriad hynod oedd Llywelyn Goch, uchelwr annibynnol diofn, beiddgar ac ynddo ysbryd arloeswr a balchder bonedd'.<sup>8</sup> Yn sicr, y mae hyder a balchder Llywelyn i'w teimlo yn ei gerddi, ac arferai gyfarch ei noddwyr yn eofn iawn, efallai am fod ganddo'r un statws cymdeithasol â hwy. Awgryma'i gerddi mawl, a'r cyfeiriadau niferus at deithio yn ei waith, mai bardd proffesiynol ydoedd yn dibynnu ar glera am ei fywoliaeth. Ac eto, yn achos o leiaf rai o'i noddwyr, megis Rhydderch a Llywelyn, Hopcyn ap Tomas, a'i neiaint yn Nannau, fe ymddengys ei fod yn rhannu'r un diddordebau diwylliannol â hwy, ac felly fe ddichon ei fod yn ymweld â hwy o ran cyfeillgarwch lawn cymaint ag er mwyn elw, ac mai confensiwn mawl oedd y cyfeiriadau at dâl. Fel yn achos Dafydd ab Edmwnd yn y bymthegfed ganrif, efallai nad oedd y ffin rhwng y bardd proffesiynol a'r amatur mor bendant yn yr Oesoedd Canol ag y tybir weithiau.

Ar y llaw arall, gwyddys bod Llywelyn yn gyfaill agos i glerwr o'r iawn ryw, sef Iolo Goch o Ddyffryn Clwyd, fel y dengys y farwnad deimladwy a ganodd Iolo iddo.<sup>9</sup> Yn ogystal â'r ganmoliaeth ddisgwyliedig i safonau uchel crefft Llywelyn, ceir tystiolaeth bwysig yn y farwnad honno am ei yrfa gynnar:

Nid oedd neb, cyfundeb cu,  
Yng Ngwynedd yn ynganu  
Dieithr a wnaem ein deuoedd,  
Mi ac ef, ail Amig oedd,  
Amlyn wyf; nid aml iawn neb  
O rai hen ar ei hwyneb.<sup>10</sup>

Dadleuodd Saunders Lewis ar sail y llinellau hyn a rhai darnau yn y Gramadegau (gw. isod) mai Iolo Goch a Llywelyn Goch oedd arloeswyr y cywydd, a'u bod felly yn gynharach na Dafydd ap Gwilym hyd yn oed.<sup>11</sup> Diogelach, efallai, fyddai pwyso ar y cyfeiriad penodol at Wynedd yn y darn, a chymryd mai Iolo a Llywelyn a oedd yn gyfrifol am arloesi ar fesur newydd y cywydd yn y Gogledd, yn dilyn arweiniad Dafydd ap Gwilym, a

<sup>7</sup> Pen 128, 117, 718, 726, a gw. P.C. Bartrum: WG2 'Bleddyn ap Cynfyn' 50A.

<sup>8</sup> Saunders Lewis, 'Y Cywyddwyr Cyntaf', LICy viii (1964-5), 193; sylwer hefyd ar ddisgrifiad arall tebyg yn yr un ysgrif, td. 194, 'Gŵr i dorri llwybr newydd, gŵr meistrolgar a nwyfus, mor ddiwasaid ei gymeriad â'i gerdd, oedd Llywelyn Goch'.

<sup>9</sup> GIG 93-7 (cerdd XXII).

<sup>10</sup> *Ib.* 94 (XXII. 57-62).

<sup>11</sup> Saunders Lewis, *art.cit.* 196.



hynny ar adeg pan nad oedd llawer o lewyrch ar y gyfundrefn farddol yn y dalaith.

Yr unig gyfeiriad arall at Lywelyn Goch yng ngwaith ei gyfoeswyr yw un gan Ruffudd Llwyd yng Nghywydd y Cwest, lle y ceir ei enw ymhlith y deuddeg o feirdd a oedd yn barod i ffurfio rheithgor yn y cwest ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn:

Llywelyn roddlyn ruddloyw  
Berchen gwych awen, Goch hoyw.<sup>12</sup>

Fel y gwelir, y mae'r cyfeiriad hwn yn rhywfaint o gymorth i bennu dyddiadau ei yrfa.

### *Ei ddyddiadau*

Prin iawn, ar y cyfan, yw'r cyfeiriadau at feirdd yr Oesoedd Canol y tu allan i'r farddoniaeth ei hun, ond fe ddaeth un darn o dystiolaeth hynod werthfawr am Lywelyn Goch i'r golwg yn ddiweddar, sef cofnod am achos llys a ddygwyd yn ei erbyn yn 1346.<sup>13</sup> Gerbron llys sirol Meirionnydd ar 22 Awst 1346, cyhuddwyd Llywelyn Goch ap Meurig Hen ac Owain de la Pole ap Gruffydd Gethin o ymosod ar Gwyn ab Iorwerth Llwyd o Benaran ym Mhenllyn a'i anafu tra oedd gyda'r fyddin yn Lloegr ac ar fin mynd draw i Ffrainc. Bu farw Gwyn o'i glwyfau ar ôl iddo gyrraedd adref, a thystiodd ei chwaer Gwenhwyfar mai ar 3 Mehefin y bu'r ymosodiad. Enwyd brawd Llywelyn, Hywel Tew (nas nodir yn yr achau) fel cefnogwr, a nodwyd bod y tri wedi ffoi. Yr oedd Llywelyn yn bresennol pan ddaeth yr achos gerbron y llys ar 13 Tachwedd 1346, ac yr oedd wedi bod yn y carchar yng Nghastell Harlech. Gwaetha'r modd, collwyd gweddill cofnodion yr achos, ac felly ni wyddys a ddyfarnwyd Llywelyn yn euog ai peidio. Heb fwy o wybodaeth, annheg fyddai casglu bod Llywelyn yn llofrudd. Ond dengys yr achos hwn un peth pwysig iawn, sef fod y bardd yn ddigon hen i wasanaethu yn y fyddin yn 1346. Wrth gwrs, byddai llanciau'n mynd yn filwyr yn ifanc iawn yr adeg honno, ac felly nid oes raid gosod dyddiad ei eni lawer yn gynharach na 1330.

Byddai dyddiad geni tua diwedd ugeiniau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn cyd-fynd yn dda â thystiolaeth ei gerddi mawl. Y mae'n debyg mai'r gynharaf o'r rheini yw ei awdl i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelltref, cerdd 1, a ganwyd tua 1350. Ni allaf dderbyn dadl Saunders Lewis fod yr englyn i ryw Leucu Llwyd a geir fel esiampl o englyn lleddfbroest cadwynog yn fersiwn Peniarth 20 o Ramadegau'r Penceirddiaid yn ein gorfodi i ddyddio dechrau gyrfa Llywelyn Goch mor gynnar â 1330–40, gan nad oes sicrwydd mai

<sup>12</sup> IGE<sup>2</sup> 117 (llau. 7–8).

<sup>13</sup> Gw. A.D. Carr, 'The Coroner in Fourteenth-century Merioneth', Cylchg CHSFeir xi (1993), 250–1.

Llywelyn oedd awdur yr englyn, nac ychwaith mai'r un ferch oedd hon â gwrthrych ei farwnad enwog.<sup>14</sup>

Ni ellir dyddio'r un o'r cerddi mawl eraill mor gynnar â chanol y ganrif, ond y mae dwy a allai fod yn waith cymharol gynnar, sef yr awdl yn diolch i Dduw am arbed bywyd yr Abad Llywelyn, cerdd 2, sydd i'w dyddio unrhyw adeg yn ystod cyfnod Llywelyn fel abad, sef 1362–81, a'r awdl foliant i Syr Rhys Ieuanc, cerdd 3, y gellid ei dyddio unrhyw bryd rhwng 1356 a 1381. Yr unig gerdd y gellir ei dyddio'n bendant yw'r farwnad i Oronwy ap Tudur, cerdd 5, a bwrw ei bod wedi ei chanu'n fuan ar ôl ei farwolaeth yn 1382. Y mae'n debyg fod yr awdlau i Rydderch a Llywelyn ac i Hopcyn ap Tomas, cerddi 4 a 6, yn perthyn i'r un cyfnod yn fras, a bod y cywydd i neiaint y bardd, cerdd 8, ymhlith ei weithiau olaf yn yr wythdegau. Y cywydd hwnnw yw'r unig gerdd ganddo lle y mae'n sôn amdano'i hun fel hen ŵr.

Canwyd Cywydd y Cwest rywbyrd rhwng 1383 a 1387;<sup>15</sup> felly dengys y cyfeiriad at Lywelyn yn hwnnw ei fod yn dal ar dir y byw yn yr wythdegau. Yr oedd Iolo Goch yn hen ŵr pan ganodd ei farwnad, a'r tebyg yw fod hynny tua diwedd y degawd. Fe ymddengys, felly, fod gyrfa farddol Llywelyn Goch wedi ymestyn dros gyfnod o ryw ddeugain mlynedd, rhwng tua 1350 a thua 1390. Ni wyddys ym mh'le y'i claddwyd. Yn ei restr o fannau claddu'r beirdd yn BL Add 31055, disgrifiwyd Llywelyn Goch ap Meurig Hen gan Thomas Wiliems fel un *a vu varw ar y phordh*.<sup>16</sup>

### *Ei waith*

Deuddeg cerdd o waith Llywelyn Goch sydd wedi goroesi, ond y mae hynny'n siŵr o fod yn gyfran fechan iawn o'i holl waith. O'r rheini, y mae saith yn awdlau a phump yn gywyddau. O ran ei fesurau, felly, fe ymddengys fod Llywelyn Goch yn perthyn i ddwy garfan o feirdd, sef y Gogynfeirdd diweddar a ddefnyddiai'r awdl draddodiadol, a hefyd y Cywyddwyr newydd. Ond o gofio bod Cywyddwyr eraill fel Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch yn defnyddio'r awdl hefyd, hwyrach fod y fath raniad yn ddi-sail mewn gwirionedd. Ac fel y sylwodd Eurys Rowlands,<sup>17</sup> y mae arddull gymharol syml a llyfn awdlau Llywelyn Goch yn bur wahanol i arddull astrus awdlau bardd ceidwadol fel Gruffudd ap Maredudd, a'r tebyg yw mai dulliau newydd y cywydd a ddylanwadodd ar awdlau Llywelyn Goch.

<sup>14</sup> Saunders Lewis, *art.cit.* 193. Dyfynnir yr englyn yn y nodiadau i gerdd 12. Cofier hefyd am y pennill yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd sy'n cynnwys llythrennau'r enw Lleucu Llwyd, gw. Cylchg LIGC xxii (1981), 17–18, 26 a GLIBH cerdd 15. Fel y dywed Daniel Huws, nid oes raid honni mai gwaith Llywelyn Goch ydyw, ond y mae'n dra phosibl mai'r un Lleucu Llwyd oedd hon â gwrthrych yr englyn yn y Gramadeg. Gw. hefyd GEO 52–3.

<sup>15</sup> Gw. IGE<sup>2</sup> xiii.

<sup>16</sup> BL Add 31055, 47<sup>v</sup>.

<sup>17</sup> 'Arddull Canu Moliant y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', YB x (1977), 144–56.

At ei gilydd, yr awdl a ddefnyddir ganddo ar gyfer mawl, a'r cywydd ar gyfer canu serch. Ond fe ganodd un cywydd mawl, cerdd 8, ac y mae hwnnw'n gyfansoddiad arwyddocaol dros ben gan ei fod yn ganu mawl o fath personol iawn sy'n defnyddio rhai o ddulliau'r canu serch, megis dyfalu'r eira, yn yr un modd ag y gwnaeth Dafydd ap Gwilym yn ei gywyddau i Ifor Hael yn gynharach yn y ganrif. Esiampl arall o ddyfeisgarwch y bardd yw ei ddefnydd o gonfensiwn y serenâd yn ei farwnad i Leucu Llwyd. Yr oedd Llywelyn yn feistr ar grefft draddodiadol y Gogynfeirdd, fel y ceir gweld, ond gellir dweud bod newydd-deb yn amlach na cheidwadaeth yn ei waith.

Y mae unrhyw sylwadau ynglŷn â datblygiad arddull Llywelyn Goch yn gyfyngedig eu gwerth gan fod cyn lleied o'i gerddi wedi goroesi. Ond fel y gellid disgwyl, gwelir yr arddull fwyaf traddodiadol yn yr awdl gynharaf, cerdd 1. Ceir tuedd i bentyrru epithetau ac i gystrawennu'n llac yn null Beirdd y Tywysogion, ac y mae'r gynghanedd yn llai datblygedig, gyda nifer sylweddol o gynganeddion pengoll. Yn yr awdlau diweddarach ceir mwy o frawddegau yn null y cywydd, ac y mae'r cynganeddu'n llawn ac yn llyfn. Ar y llaw arall, ac ystyried cynnwys y cerddi a'r math o ddelfrydau mawl a gyfleir, y mae'r awdl gynnar i Ddafydd ap Cadwaladr yn ddigon blaengar, oherwydd, yn dilyn y clod traddodiadol i'w nerth milwrol, ceir darlun o fywyd ei lys, gyda phwyslais ar y berchentyaeth a ddaeth yn rhan mor hanfodol o foliant Beirdd yr Uchelwyr, fel y gwelir yng nghywydd Llywelyn i'w neiaint.

Mwy traddodiadol yn ei phwyslais ar filwriaeth yw'r awdl i Syr Rhys o Abermarlais, cerdd 3, ond nid yw hynny'n syndod efallai ac ystyried cefndir milwrol y gwrthrych. Diddorol yw nodi'r elfennau o ganu darogan a geir yn yr awdl honno. Gŵr arall a ganmolir am ei wasanaeth milwrol i Goron Lloegr yn y Rhyfel Can Mlynedd yw Goronwy ap Tudur, gwrthrych cerdd 5. Ond y mae'r cyfeiriad at ladd Llywelyn y Llyw Olaf yn niweddglo'r awdl yn dangos agwedd wahanol iawn at y Saeson. At ei gilydd, y mae Llywelyn Goch yn fardd llawer llai gwleidyddol na'i gyfaill Iolo Goch, ond gallai'r ymwybyddiaeth o ormes frigo i'r wyneb yn annisgwyl, ac y mae'n arwyddocaol, efallai, mai mewn cerdd i aelod o deulu Penmynydd y digwyddodd hynny.

Cyfeirir at Rydderch a Llywelyn yng ngherdd 4 fel *heirdd ddau filwr* (ll. 4), ond mewn gwirionedd y mae tipyn mwy o bwyslais yn yr awdl honno ar eu dysg a'u diwylliant nag ar eu milwriaeth, ac y mae naws ysmala i'w chanfod ynddi o'r llinell gyntaf, sy'n awgrymu perthynas glòs rhwng y bardd a'i noddwyr, perthynas debyg i'r un rhyngddo a'i neiaint yng ngherdd 8. Parch yn hytrach na chyfeillgarwch personol a deimlir yn yr awdl i Hopcyn ap Tomas, cerdd 6, ond gwelir yr un pwyslais ar warineb yr uchelwr yn gwrthbwysu'i gryfder milwrol. Yn y cerddi hyn gwelir yr hen ddelfryd

arwrol yn cael ei addasu ar gyfer yr uchelwriaeth newydd, ac yr oedd y newid hwnnw yn eu cynnwys yn cyd-fynd â newid yn arddull yr awdl.

Dengys y pedwar cywydd serch holl nodweddion gwaith y beirdd a fu'n gyfoeswyr neu'n ddilynwyr i Ddafydd ap Gwilym, ac eto y maent hefyd yn dwyn stamp unigolyddol Llywelyn Goch. Perthyn dau ohonynt i *genres* adnabyddus, cerdd 9 yn gywydd llatai, a cherdd 10 yn debyg i gywydd gan Iolo Goch i'w farf, yn ogystal â rhai diweddarach,<sup>18</sup> ac yn ymwneud â thema rhwystrau serch. Y mae cerdd 11 yn fynegiant cryw o gymeriad eofn y bardd, a diau ei bod yn rhan o'r adwaith yn y cyfnod hwnnw yn erbyn serch cwrtais. Ymroddiad y gwir garwr a welir yn y farwnad enwog, cerdd 12, ar y llaw arall, ac y mae beiddgarwch y bardd i'w ganfod yn hytrach yn null y gerdd gyda'i defnydd o gonfensiwn y serenâd. Nid cydymffurfio ag unrhyw *genre* a wnaeth Llywelyn Goch yn y gerdd honno, hyd y gwyddys, ond creu un newydd, sef *genre* y farwnad i ferch a geir gan amryw o feirdd y bymthegfed ganrif megis Dafydd Nanmor a Thudur Aled.

Nid yw'r cymhelliad crefyddol yn ymddangos yn gryf iawn yng ngwaith Llywelyn Goch, ar yr olwg gyntaf o leiaf. Nid oes sôn am Dduw o gwbl mewn tair o'i awdlau mawl, cerddi 1, 3 a 6, ac y mae'r sylw i enaid Goronwy yng ngerdd 5 yn cyfleu sicrwydd llwyr yn hytrach nag ymwybyddiaeth o'r angen am faddeuant. Y mae cerdd 2 yn weddi o ddiolch am arbed bywyd yr abad, ond gellid meddwl mai safle grefyddol y gwrthrych sy'n gyfrifol am ddefosiwn y bardd yn y fan honno. Eto i gyd, y mae elfen o weddi yng ngerdd 4 hefyd, sef dymuno bendith Duw ar daith Rhydderch a Llywelyn i Loegr.<sup>19</sup> Yr Awdl Gyffes, cerdd 7, yw ei unig gerdd grefyddol fel y cyfryw, a diau y gellid gweld elfen o ddefod yn honno o'i chysylltu â thraddodiad y farwysgafn gan Feirdd y Tywysogion. Y mae ambell un o'r pechodau a gyffesir yn amlwg yn gonfensiynol, megis torri'r dengair deddf, ond yr hyn sy'n drawiadol am y gyffes hon yw ei bod mor unigolyddol, a bod rhai o'r pechodau a enwir yn deillio o'i waith barddol yn benodol, sef 'llateiaeth' (cf. cerdd 9), ac yn enwedig y cyfeiriad enwog at y cabledd sy'n ymhlyg yn ei ganu serch.<sup>20</sup> Ac yn fwy na dim, y mae'r awdl hon yn cyfleu argraff o ymdeimlad crefyddol diffuant trwy gyferbynnu yn gyson ddaioni Duw a drygioni dyn.

Wrth ystyried gwrthrychau'r canu mawl, y peth mwyaf nodedig yw lleoliad eang daearyddol noddwyr y bardd. Hyd yn oed ar sail tystiolaeth yr ychydig gerddi mawl sydd wedi goroesi, gellir gweld bod ganddo noddwyr ar hyd gorllewin y wlad, o Fôn i Gwm Tawe, gan gynnwys ei gynefin ei hun yn sir Feirionnydd, Ceredigion a sir Gaerfyrddin. A dengys cerdd 1 iddo

<sup>18</sup> Gw. y cyfeiriadau yn y nodiadau ar y gerdd. Gw. hefyd, Dylan Foster Evans, 'Y Bardd a'i Farf: y Traddodiad Barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

<sup>19</sup> Cf. GIG 93–7 (cerdd XVII).

<sup>20</sup> Gw. isod 7.19 a 23–4. Cf. marwnad Iolo Goch i Lywelyn, GIG 93–7 (cerdd XXII), sy'n cyfleu pryder ynglŷn ag anfoesoldeb y canu serch.

hefyd ymweld ag ardal y gororau, a hynny yn gynnar yn ei yrfa. Peth trawiadol arall am noddwyr y bardd yw safon eu diwylliant. Y mae o leiaf dri ohonynt ymhlith noddwyr llên amlycaf Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Goronwy ap Tudur, a Hopcyn ap Tomas. O gofio'r darlun o 'swydd' y bardd gyda'i neiaint yng ngherdd 8, y mae'n dra thebygol mai eu diddordeb cyffredin mewn llenyddiaeth a oedd yn gyfrifol am y berthynas glòs rhyngddo a sawl un arall o'i noddwyr.

### *Mydryddiaeth*

Ym mhump o'r saith awdl ceir cyfuniad o englynion (proest ac unodl union am yn ail fel arfer) ac un o fesurau eraill yr awdl, dull a ddaeth yn gyffredin yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>21</sup> Y mae'n ddiddorol nodi mai yn y ddwy awdl grefyddol, cerddi 2 a 7, y glynir wrth yr hen ddull o ddefnyddio un mesur yn unig. Tybed a deimlai'r bardd fod y dull traddodiadol yn gweddu'n well mewn cerddi o'r fath? Heblaw'r englyn, y mesurau a ddefnyddir ganddo yw gwawdodyn, cyhydedd naw ban, a thoddaid.

Ceir cyrch-gymeriad cyson rhwng yr englynion a'i gilydd a hefyd wrth newid mesur. Ym mhump o'r awdlau y mae'r gair olaf yn cyrchu'r dechrau hefyd. O'r tair lle nad yw hynny'n digwydd y mae dwy'n awdlau un mesur, cerddi 2 a 7, ac yn y drydedd, cerdd 1, fe ymddengys fod gair olaf y chweched englyn yn cyrchu'r dechrau (sy'n esbonio'r diffyg cyrch-gymeriad rhwng hwnnw a'r seithfed englyn), a bod gair olaf y darn o wawdodyn yn cyrchu gair cyntaf yr englyn sy'n ei ragflaenu.

Fel arfer ceir cymeriad llythrennol o fewn yr englynion unigol, a cheir darnau helaeth dan yr un cymeriad ym mesurau eraill yr awdlau hefyd, yn gymeriad cynganeddol yn aml. Yr enghraifft fwyaf trawiadol o gymeriad dechreuol yw ail ganiad cerdd 1, lle y cynhelir cymeriad ar y llythyren *ll*-dros 31 o linellau, llawer o'r llinellau o dan y cymeriad geiriol *lle*. Y mae'r cywyddau'n glynu wrth yr arfer o gymeriad llythrennol o fewn y cwpled (oni fydd cymeriad synhwyrol yn ei wneud yn ddiangen), a cheir cryn dipyn o gymeriad cynganeddol yno hefyd, ond ni welir yr un cymeriad yn ymestyn dros nifer o linellau, fel yn achos yr awdlau neu yn rhai o gywyddau Dafydd ap Gwilym a Iolo Goch.

Heblaw cerdd 1, sy'n cynnwys nifer mawr o gynganeddion pengoll (ac sy'n debyg o fod yn waith cynnar), y mae cynganeddu Llywelyn Goch yn gyflawn ac yn safonol. Fel y gellid disgwyl, y gynghanedd sain sydd fwyaf cyffredin yn ei waith. Y mae hynny'n arbennig o wir am yr awdlau, lle y ceir y sain yn y mwyafrif helaeth o'r llinellau. Nid oes yr un awdl lle y mae canran y sain yn llai na 50%, ac yn achos tair (cerddi 1, 3 a 7) y mae dros ddwy ran o dair o'r llinellau yn cynnwys cynghanedd sain. Y gerdd â'r ganran uchaf oll o gynghanedd sain yw cerdd 1 (81%), a dengys hynny eto fod cynganeddiad y gerdd honno'n llai datblygedig na'r lleill, gan mai'r sain

<sup>21</sup> Cf. GSRh cerddi 2, 6, 7, 9, 10, a 12.

oedd hoff gynghanedd Beirdd y Tywysogion. Y mae'r sain ychydig yn llai cyffredin yn y cywyddau, ond y mae'r canrannau'n dal i fod yn uchel iawn ac yn nodweddiadol o waith y Cywyddwyr cynnar. Ym mhedwar o'r cywyddau y mae canran y gynghanedd sain ychydig yn is na 50%. Yr eithriad, ac y mae'n eithriad trawiadol iawn, yw cerdd 11, lle na cheir ond 14% o'r sain. Y mae'r ganran hon mor wahanol i bob cerdd arall fel y gellid tybio nad yw'r gerdd yn waith dilys Llywelyn Goch, ond y mae tystiolaeth llawysgrif Pen 57 yn pwysu'n drwm o'i phlaid, a'r tebyg yw fod y gerdd yn rhy fyr i roi darlun ystadegol gywir.<sup>22</sup> Y mae cerdd 11 hefyd yn cynnwys yr unig esiampl o gynghanedd gwbl afreolaidd yng ngwaith Llywelyn (heblaw'r cynganeddion pengoll a geir yn helaeth yng ngerdd 1 ac mewn ambell linell arall megis 12.91), sef: *Nac anfonheddig ynyfyd* (11.26). A bwrw bod cynghanedd wedi ei bwriadu yn y llinell, ymddengys fod dwy sillaf gyntaf y gair *anfonheddig* i'w hystyried yn air ar wahân o ran y gynghanedd.<sup>23</sup> Ond eithriad llwyr yw hyn, ac at ei gilydd rhaid cytuno â'r ganmoliaeth a roes Iolo Goch i grefft ei gyfaill:

Ni cheir ungair, chwerw angerdd,  
Ar gam yn lle ar y gerdd.<sup>24</sup>

### *Llawysgrifau*

Y mae traddodiad llawysgrifol y chwe awdl a geir yn Llyfr Coch Hergest yn hollol syml, gan fod pob copi arall yn tarddu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Llyfr Coch. Digwydd y chwe awdl mewn dau floc, gyda dwy gerdd o waith Dafydd y Coed yn sefyll rhyngddynt. Ceir cerddi 7 a 3 yng ngholofnau 1301–3, a cherddi 5, 6, 4, a 2 yng ngholofnau 1306–10, y cwbl yn llaw Hywel Fychan.<sup>25</sup> O gofio cysylltiadau Llywelyn Goch â theuluoedd Penmynydd a Pharcrydderch, cysylltiadau sy'n amlwg iawn yng nghanu'r Llyfr Coch, yn ogystal â'i gyswllt â Hopcyn ap Tomas, comisiynydd y llyfr yn ôl pob tebyg, y mae'n werth nodi awgrym Eurys Rowlands fod a wnelo Llywelyn rywbeth â threfnu ei gynnwys.<sup>26</sup>

Yr unig awdl na cheir copi ohoni yn y Llyfr Coch yw cerdd 1, sy'n digwydd mewn pymtheg o lawysgrifau, heb fod yn gynharach na'r ail ganrif ar bymtheg. Ymddengys fod pob copi'n tarddu o un ffynhonnell ysgrifenedig.

<sup>22</sup> Cf. GDG<sup>3</sup> 286 (cerdd 107), sydd hefyd yn cynnwys 14% o gynghanedd sain ond sydd eto'n gywydd byr iawn.

<sup>23</sup> Gw. 11.26n am linellau cyffelyb gan Lewys Glyn Cothi.

<sup>24</sup> GIG 93 (XXII.33–4).

<sup>25</sup> Gw. Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 255.

<sup>26</sup> 'Y Traddodiad Moliant a'r Cywydd', *LICy* vii (1962–3), 221. Gw. hefyd fy awgrym innau i Lywelyn Goch fynd â chynsail Llawysgrif Hendregadredd o Abaty Ystrad-fflur at Hopcyn ap Tomas, *ib.* xvii (1992–3), 308–9. Afraid dweud mai damcaniaethu pur yw'r ddau awgrym, heb unrhyw sail gadarn.

Y mae traddodiad llawysgrifol y cywyddau'n amrywio'n fawr. Y sylmaf yw cerdd 10, a geir mewn pedwar copi yn llaw Llywelyn Siôn, bardd o Forgannwg tua dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ac mewn dau gopi arall sy'n tarddu'n uniongyrchol o'i lawysgrifau ef. Priodolir cerdd 11 i Lywelyn Goch mewn dwy lawysgrif, un yn dyddio o ail hanner y bymthegfed ganrif, Pen 57, a'r llall yn llaw John Jones, Gellilyfdy. Y mae saith llawysgrif arall, gan gynnwys Pen 49, casgliad John Davies, Mallwyd, yn ei phriodoli i Ddafydd ap Gwilym. I Ddafydd ap Gwilym y priodolir cerdd 9 gan bob un o'r pedwar copi ar bymtheg. Yr unig awdurdod llawysgrifol dros awduraeth Llywelyn yw'r nodyn ar ddiwedd y copi yn CM 129 (llawysgrif o'r ddeunawfed ganrif): *rhai a daerant mai Llywelyn goch ab meurig hen ai cant.*

Y ddwy gerdd fwyaf poblogaidd o waith Llywelyn Goch, a barnu wrth nifer y copïau sydd wedi goroesi, yw cerddi 8 a 12. Ceir 40 copi o gerdd 8, a 58 copi o gerdd 12. Fel y gellid disgwyl gyda cherddi mor boblogaidd â hynny, y mae olion trosglwyddiad llafar sylweddol yn yr amrywiadau rhwng y copïau. Y prawf digamsyniol o drosglwyddiad llafar yw'r amrywiaeth yn nhrefn y llinellau, sy'n arbennig o aml yn achos cerdd 12.

### *Cerddi annilyd*

Cambriodolir y cerddi canlynol i Lywelyn Goch ap Meurig Hen:

#### *Blin yw'r byd enbyd unben*

Cywydd brud a briodolir iddo mewn chwe llawysgrif. Wy 1, yn llaw Thomas Wiliems, yw'r gynharaf. Y mae'r arddull yn nodweddiadol o gywyddau brud y bymthegfed ganrif, ac nid yw'n debyg i waith Llywelyn Goch o gwbl. Darogener dyfodiad Harri, sef Harri Tudur, y mae'n debyg.

#### *Deugant a mil myn Digain*

Englyn yn cofnodi dyddiad marwolaeth Llywelyn y Llyw Olaf. Fe'i priodolir i Lywelyn Goch ap Meurig Hen yn BL Add 14873, 55<sup>r</sup> a Llst 145, 70, ac fe'i ceir yn ddienw yn BL Add 14880, 68<sup>r</sup>. Gan fod cyfeiriad ynddo at Owain Glyndŵr, prin y gellir ei dderbyn fel gwaith Llywelyn Goch. Efallai iddo gael ei gambriodoli iddo oherwydd y cyfeiriad at ladd Llywelyn yn ei awdl farwnad i Oronwy ap Tudur (5.92).

Dyma'r englyn fel y'i ceir yn Llst 145:

Deucant a mil myn digain oed Duw  
dwy a phedwar ugain  
Pan las Llywelyn paun lain  
ym Muellt cyn term Owain.

*Einion ac Aron oedd ore*

Englyn i'r Barnwr Lewis ab Owen o Ddolgellau a laddwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy yn 1555. Y mae'n ddiennw yn Mos 131, 456, ac anodd yw deall paham y'i priodolir i Lywelyn Goch yn Mos 144, 119 (gw. RWM i, 134), oni bai fod yno atgof am ei achos llys yntau, mewn perthynas â marwolaeth gŵr o Lanuwchllyn (yr ochr draw i Fwlch y Groes, lle y lladdwyd y Barnwr).

*Gwassyt einglgwisgat anglaer*

Pen 57, 68. Cywydd yn gofyn pâr o beunod gan Wilym ap Tomas ap Gwilym ar ran Dafydd ap Hopcyn. Cyfeirir at wrthryfel Glyndŵr, ac y mae'n amlwg mai cywydd o'r bymthegfed ganrif yw hwn sy'n dilyn patrwm cerddi gofyn y cyfnod hwnnw. Uchelwyr o Forgannwg oedd y ddau a enwir, Gwilym o Rydri (gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 56) a Dafydd o Ynystawe (gw. *ib.* 'Gruffydd Gethin' 1). Priodolir y gerdd i 'Ll goch' yn y llawysgrif. Y tebyg yw mai Llywelyn Goch y Dant, bardd o Forgannwg, a feddylir.

*Nos da i'r ynys dywell*

BL Add 10314, 91. Gwaith Lewys Glyn Cothi yw hwn, gw. GLGC 489–90 a 628.

*Pan ddangoso rhyw dro rhydd*

Pen 93, 96. Gwaith Iolo Goch yw hwn, gw. GIG XXVIII.

*Tyfodd yn rhyd tan ofwy*

Pen 93, 106. Cywydd gofyn milgi gan Ddafydd ap Rhys ap Gruffudd o'r Rhydgaled ar Wy. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Llywelyn Goch yn DGG LXXXVI, ond y mae deunaw llawysgrif yn ei briodoli i Huw Pennal, a diau fod Thomas Parry yn llygad ei le wrth awgrymu mai ei waith ef ydyw (GDG lxxxix).

*Y benglog ddiwair heb unglod*

Cywydd moeswers ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a phenglog. Fe'i cyhoeddwyd fel gwaith Llywelyn Goch yn DGG LXXXVII, ac y mae deg llawysgrif yn ei briodoli iddo. Ond fe'i priodolir i Siôn Cent mewn pedair ar bymtheg, i Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain mewn saith, ac i Wilym ap Sefnyn mewn tair. Y mae'n amlwg fod cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch awduraeth y cywydd, a'r tebyg yw ei fod yn waith y lleiaf adnabyddus o'r pedwar bardd, sef Ieuan Ddu ap Dafydd ab Owain, bardd o Frycheiniog a ganodd nifer o gerddi moeswersol.



*Y gŵr a roes y gwryd*

Bangor 704, 86, Brog (y gyfres gyntaf) 2, 484<sup>v</sup>, J 17, 646. Priodolir y cywydd fel arfer i Huw Cae Llwyd, ac fe'i cyhoeddir felly yn HCLI XLIV; ond gw. M.P. Bryant-Quinn, "'Enaid y Gwir Oleuni": y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 51–93.



I

*Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref*

- 4                   Cyrchais ar frys winllys wiw,  
Lle rhydd glod eilewydd glyw,  
Cadrfab coeth, glaif ddurnoeth glew,  
Cadwaladr, ced o'i wiwlaw!
- 8                   Ced wiwlaw aelaw, ail Idwal—difai,  
Dafydd, lywiawdr ardal;  
Llwyr gostio, Llŷr ogystal,  
Llawir doeth, llawer a dâl.
- 12                  Taladwy radd, Loegradd lyw,  
Telaist Dafydd wawdrydd wiw,  
Tarw tarfgad, Eliwlad law,  
Tiriondeg walch tariandew.
- 16                  Llew plymlwyd, ysgwyd asgen, rhaeadr—dwfr,  
Dafydd linon baladr,  
Eurfab clotsal Cadwaladr,  
Tëyrn hil cedyrn hael cadr.
- 20                  Cadr Ddafydd aflonydd lid,  
Câr cymen, clau beren clod,  
Llew gwrol llaw agored,  
Lliw gŵraidd, brenhinaidd bryd.
- 24                  Pryd angel, ddigel ddogni, difai—barchair,  
Berchen Gwasgwyn rhuddlai,  
Braisg ddewrlid, cadernid Cai,  
Bryd gorchest, brwydr a gorchai.
- 28                  Clau Ddafydd ddifefl falchair,  
Cerddfawl, da wrawl dioer,  
Cadr ddewredd, terwyn gledd taer,  
Ced rwydd, câr cludlwydd clodlwyr.

- Llwyf folais, cyrchais cyrch goddeau,  
 Lle mae llawenydd bob dydd diau,  
 32 Llaur Machelltref fawr, furiau—adeilflin,  
 Lle cynefin gwin a gwirodau.
- Llys Dafydd glodrydd, gledren cadau,  
 Llew llidiog doniog, deunerth Llachau,  
 36 Lle diandlawd, nawd neidiau—meirch gwelwon,  
 Lle cyson beirddion ynghylch byrddau,
- Lle meddwaint ceraint, carant canuau,  
 Lle meddwon dynion, doniog foesau,  
 40 Lle cyfrwydd hylwydd heiliau—diambell,  
 Lle ceir gwin diell o dunellau,
- Lle rhoddir, gwelir yno'r gwyliau,  
 Lle rhoddes Duw Dad beth o'i radau,  
 44 Lle gwir a gerir, gorau—hyd Brydyn,  
 Lle nad rhaid gofyn llyn lletyau,
- Lle cyflawn o ddawn ac o ddoniau,  
 Lle cyfrwydd hylwydd helwyr parcau,  
 48 Lle hygyrch hwyl gŵyl, golau—pyst fflamgwyr,  
 Lle llwyr o synnwyr, myn y seiniau!
- Lle gwir y telir talm dros gerddau,  
 Lle teilwng llef telyn a phibau,  
 52 Lle hynod hoywglod, hyglau—wasanaeth,  
 Lle rhydd ffraeth digaeth, dogn hybarchau,
- Lle blin i gegin ac i gogau,  
 Llafur disegur yn dwyn seigiau,  
 56 Lle 'merodraidd llysaidd, llesau—ciwdod,  
 Lle parod gwirod a gwaryau,
- Lle dyry Dafydd beunydd bynnau,  
 Llurugog farchog ar farch gwinau,  
 60 Lle addwyn coeth glew, gleddau—bomelgadr,  
 Llwyddfab Cadwaladr, clod baladr clau.

*Ffynonellau*

A—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 485 B—LIGC 3056D [= Mos 160], 288 C—Llst 118, 217 D—J 101 [= RWM 17], 648 E—Bodley Welsh e 3, 28<sup>v</sup> F—Pen 251, 216<sup>v</sup> G—Llst 133, 662 H—Pen 108, 55 I—LIGC 16B, 217 J—CM 454, 298 K—Card 4.9, 148 L<sup>1</sup>—BL Add 15027, 34<sup>r</sup> L<sup>2</sup>—BL Add 15027, 36<sup>v</sup> M—Bangor 704, 89 N—CM 12, 486

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *BC* wenllys. 13 *A–N* blymlwyd. 18 *BC* cynen. 22 *BCFH–K* rhuddai, *ADL<sup>1</sup>L<sup>2</sup>MN* rhyddai, *E* rudd dai, *G* medd-dai. 30 *BD* pob. 52 *B* hylarchau, *ADJL<sup>1</sup>L<sup>2</sup>MN* hyrbarchau, *K* rybarchau. 59 *AC–HJL<sup>1</sup>L<sup>2</sup>MN* addwyn beth, *I* addwyn woth, *K* addwyn byth.

*Moliant Dafydd ap Cadwaladr o Fachelltref*

Euthum ar frys i lys gwin da,  
 Lle y mae'n rhoi clod fintai o feirdd arglwydd  
 [Sef] mab cadarn coeth [a] dewr Cadwallon, dur a noeth ei  
 gleddyf,

4 Anrheg o'i law ardderchog!

Cyfoeth llaw ardderchog haelionus megis [llaw] Idwal di-fai,  
 Dafydd, rheolwr ardal;

8 Dwyn traul yn gyflawn, cystal â Llŷr,  
 Haelionus a doeth, y mae'n werth llawer.

Urddas gwerthfawr, arweinydd sy'n lladd pobl Lloegr,  
 Telaist Ddafydd da rhugl ei glod,

12 Tarw'n gwasgaru byddin, [un a'i] law [fel] Eliwlad,  
 Arwr teg a thyner trwchus ei darian.

Llew brwydr, tarian friw, rhaeadr dwfr,

Dafydd â'r waywffon o bren onn,  
 Mab gwych Cadwaladr sy'n haeddu clod,  
 16 Arglwydd hael grymus o dras gwŷr cedyrn.

Dafydd grymus tost [ei] lid,

20 Cyfaill pwyllog, peren amlwg y glod,  
 Llew dewr hael [ei] law,  
 Lliw gwrol, golwg brenhinol.

Golwg angel, rhannu amlwg, enw da diddiffyg,

24 Perchennog march cochddu o Wasgwyn,  
 Nerthol [ei] angerdd dewr, [o] gryfder Cai,  
 Meddwl gorchestol, tynnai at frwydr.

Dafydd amlwg â'r enw hardd di-fai,

28 Moliannus mewn cerdd, da ei wroldeb yn sicr,  
 Dewredd grymus, cleddyf tanbaid dyfal,  
 Rhodd barod, cyfaill buddugol llwyr ei glod.

Molais yn llwyr, cyrchais [ar] daith ffrwythlon,

32 Lle y mae llawenydd sicr bob dydd,  
 Llaur Bachelltref fawr, muriau llafurus eu hadeiladu,  
 Lle y mae gwin a gwirodau yn arferol.

36 Llys Dafydd helaeth ei glod, cynheiliad byddinoedd,  
 Llew angerddol galluog, dwywaith yn fwy nerthol na Llachau,  
 Lle llewyrchus, [lle] arferol llamau meirch gwelwon,  
 Lle y mae beirdd wrth fyrddau'n gyson,

40 Lle [yn darparu] meddwdod [ar gyfer] cyfeillion, carwyr  
 caneuon,  
 Lle y mae dynion yn feddw, dawnus [eu] moesau,  
 Lle y mae gwleddoedd parod yn ffyniannus [a] dibrin,  
 Lle y ceir gwin rhagorol o gasgenni,

44 Lle y rhoddir [anrhegion], gwelir yno adeg y gwyliau,  
 Lle y rhoddodd Duw Dad rai o'i fendithion,  
 Lle y cerir y gwir, y gorau hyd yr Alban,  
 Lle nad oes raid gofyn am ddiod gwestyau.

48 Lle llawn o ddawn ac o roddion,  
 Lle hwylus helwyr meysydd llwyddiannus,  
 Lle a llawer o dramwy ato adeg gwledd gŵyl, golau o dysr ar  
 byst,  
 Lle llawn doethineb, myn y seintiau!

52 Lle y mae'n wir y telir cyfran am gerddi,  
 Lle y mae sŵn telyn a phibau'n ganmoladwy,  
 Lle arbennig mawr ei glod, [o] wasanaeth sydyn,  
 Lle parod [y gŵr] ffraeth dilyffethair, anrhydeddau [ei] ddogn,

56 Lle blinedig i gegin ac i gogyddion,  
 Llafur di-baid yn cludo seigiau,  
 Lle ymerodraidd cwrtais, buddiannau llu,  
 Lle parod gwirod a chwaraeon,

60 Lle y rhydd Dafydd feichiau bob dydd,  
 Marchog yn gwisgo llurig ar gefn march browngoch,  
 Llew dewr, cain a grymus, cleddyf cadarn ei garn,  
 Mab ffyniannus Cadwaladr [â'i] waywffon chwim glodforus.

*I ddiolch i Dduw am arbed bywyd Llywelyn Fychan ap Llywelyn, Abad  
Ystrad-fflur*

- Credaf yt, Iesu, fab y croywDad,  
 Creawdr hael, Llywiawdr haul a lleuad,  
 Credadun nef Gun, Naf ac Ynad,  
 4 Crair o ddilys Fair, ddeules fwriad.  
 Canwaith, rhagoriaith pob rhyw gariad,  
 Canorthwyaist fi, Geli, gwyliaid,  
 A'r awr hon eton (Dduw Rên atad  
 8 Rhedwn o'r diwedd i'th wledd a'th wlad)  
 Y nerthaist fyfy megys neirthiad  
 Am arglwyddlyw ym a mur gwleddwlad,  
 Am wŕ erestrefn, am wawr Ystrad  
 12 Fflur a'i pheniadur a'i modur mad,  
 Llywelyn wiwbarch, lluniaidd abad,  
 Fychan, gŵr difan Garwy dyfiad,  
 Llin, llyw cynefin, llew cynifiad,  
 16 Llywelyn arall, dedwyddgall dad.  
 Heiliaist, Ddofydd gwyn, hwyl brŷn a brad,  
 Haint a'i arwyddion, hynt da roddiad.  
 Anobaith fuam am iawn abad,  
 20 A'th nerth a'n diffyrth a'th wyrth wyrthiad.  
 Clywed a wneuthost, dost destuniad,  
 Fy llef hyd y nef, ehud nofiad,  
 Ac estynnu hoedl, heb gas dyniad,  
 24 I'm llariaidd obaith, llawrodd abad.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14964, 43<sup>v</sup> B—BL Add 15001, 230<sup>r</sup> C—Card 4.140, 650 D—  
 J 111 [= RWM 1], 1309 E—LIGC 2021B [= Pant 53], 43 F—LIGC 4973B,  
 330<sup>r</sup> G—Pen 118, 233<sup>v</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r  
 holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.  
 Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 dilis. 15 kyneifyat. 21 dystunyat.



*I ddiolch i Dduw am arbed bywyd Llywelyn Fychan ap Llywelyn, Abad  
Ystrad-fflur*

- Credaf ynot, Iesu, fab y Tad pur,  
 Creawdwr hael, Rheolwr haul a lleuad,  
 Pennaeth cywir y nef, Arglwydd a Barnwr,  
 4 Trysor o Fair bur, fawrles [ei] bwriad.  
 Canwaith [yn] iaith wych pob rhyw hoffter,  
 Fe'm cynorthwyaist i, Dduw, goruchwyliwr,  
 A'r awr hon eto (Arglwydd Dduw atat  
 8 Y rhedwn yn y diwedd i'th wledd a'th wlad)  
 Fe roddaist nerth i mi fel cynhaliwr  
 Am arglwydd [sy'n] arweinydd i mi ac [yn] amddiffynnydd  
 gwlad y gwleddoedd,  
 Am ŵr rhyfeddol ei ddull, am arglwydd Ystrad  
 12 Fflur a'i phennaeth a'i llywodraethwr da,  
 Llywelyn Fychan uchel ei barch, abad hardd,  
 Gŵr mawr o faintioli Garwy,  
 Llywodraethwr bro, llew brwydr,  
 16 [O] linach Llywelyn arall, tad ffodus a doeth.  
 Iacheaist, Arglwydd sanctaidd, gyflwr [o ddioddef] llid a brad,  
 Haint a'i arwyddion, [yn] null rhoddwr da.  
 Buom heb obaith am abad da,  
 20 A'th nerth a'th wyrth ryfeddol a'n gwaredodd.  
 Clywaist, gŵyn druenus,  
 Fy llef hyd y nef, nofiad cyflym,  
 Ac estyn oes, un nad yw'n ennyn casineb,  
 24 I'm gobaith rhadlon, abad hael.

*Moliant Rhys ap Rhys ap Gruffudd o Abermarlais*

- Henpych well, haelwych, yn hwylwawd—prydydd,  
 Hardd dy feddfardd fydd, wiwrydd wirawd.  
 Huawdl grair purair parawd—wrhydri,  
 4 Hoywdwr daioni hyder Dunawd,  
 Hael hoywRys diwael, dywawd—pair awen  
 Y rhwy fyddud ben, nid rhyfeddawd.  
 Hil goeth Rys durnoeth roes dyrnawd—yng nghrai,  
 8 Hil Ruffudd erfai, windai wyndawd,  
 Hyder browysgler, briw asglawd—belydr,  
 Ael gwyar rëydr, ail gwiw Ryawd;  
 Hyrddiaw tre Bergaw, bargawd—peithynfain,  
 12 A wnaeth dy gigwain, cynrain canrhawd.  
 Gwyn ei fyd i gyd dy giwdawd—telaid,  
 Gwynion Frytaniaid, gweiniaid gwiwnawd;  
 Gwyn ei fyd feirdd byd, bedwawd—a ganant;  
 16 Gwyn ei fyd anant, gwyllt ffyniant ffawd;  
 Gwyn ei fyd uwch rhyd, awch Rhawd,—ni chyrchych,  
 Gwyn ei fyd lle y bych, Owain Frych frawd.  
 Gwyndëyrn erddyrn, gwenwyn orddawd—caith,  
 20 Gwnaf i'th wiwaf waith miliaith molawd.  
 Gwrddior llaw egor, llogawd—ferneiswin,  
 Gwawr trywanfawr trin, Elffin eilffawd.  
 Gwisgaist amdanad gwasgawd—lluructew,  
 24 Gwraidd afael llew, Gweirydd ddefawd,  
 Tëyrn hil cedyrn, ceudawd—gwyrennig,  
 Trum difethedig, safedig sawd.  
 Teflaist i wrthyd taflawd—ymwangais,  
 28 Trafn Abermarlais, trillais trallawd.  
 Tyfir yt foliant, o'm tafawd—y'i cair,  
 Nid o anghywair druthair draethawd.  
 Terwyn fydd dy ryn, fudd drawd—gelyngawdd,  
 32 Yng nghymwy anawdd yng Nghyminawd.  
 Tyrfal tiriondal, Trindawd—i'th adu,  
 Tri ac Un Iesu, tu teilyngdawd.  
 Teg yw dy hynt, lyw, hyn nid tlawd—gynnydd,  
 36 Trugaredd a'th fydd fraisg Ddydd y Frawd.

40 Iawn frawd, Rolant ffawd, ffydd—yw arglwyddRys,  
 Eryr gloywddrem dedwydd,  
 Ergydwayw aer, daer derydd,  
 Iôr du, gwyn, aur ynn a rydd.

44 Rhydd i glêr bedydd, glawr byd,  
 Rhydderch ail, rhwydd arch olud,  
 Rhi, yn ein angen y rhed,  
 Rhys dewr mal y rhoes ei dad.

48 Y Tad o nef, wlad oleudwng—llwyddiant,  
 Lluddied, Rys, dy ostwng;  
 Aruthr yw dy fleiddruthr flwng,  
 Arddelw talm, urddawl teilwng.

52 Teilwng difreudwng dy fryd,  
 Tewbar glas, ti biau'r glod,  
 Taer yn aesgalch, twrn esgud,  
 Tëym diwallgyrn dullgad.

56 Cad oresgyniad a roes gwiwnaf—hael  
 I hely Ffrainc ar eithaf;  
 Carw trin, cwr o lin lanaf  
 Ceinfyged Ednyfed naf.

60 Naf yw Rhys gwinllys a gwyrdd,  
 Nerthog erddyrrn, farchog urdd,  
 Nid dielw lun, neud hael wrdd,  
 Nid taeog hen, neud teg hardd.

64 Hardd barud hoywfardd, bert efell—Geraint,  
 Gurwr Ffrenigig gastell;  
 Huriaist glod o fro Hiriell,  
 Henpych, wych wymp wiwdymp, well.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 224<sup>v</sup> B—J 111 [= RWM 1], 1301 C—Card 4.140, 640  
 D—LIGC 4973B, 322<sup>v</sup> E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 37<sup>r</sup>  
 F—Pen 118, 226<sup>r</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 hoedó. 9 bryw ysgler. 10 ryeaó. 11 Hyrdaó. 12 kynnreit. 23 ymdanat. 41  
Byd ygler. 45 oleudó. 56 cnifget. 58 nethaó. 62 frenghic kastell.

*Moliant Rhys ap Rhys ap Gruffudd o Abermarlais*

Henffych well, [y gŵr] hael bonheddig, ym moliant afieithus  
bardd,

Hardd fydd dy fardd sy'n arfer yfed medd, [ti sy'n] dda a pharod  
dy ddiod.

4 Anwylyd chwim cywir ei air [a] pharod [ei] wrhydri,  
Tŵr gwych daionus [o] hyder Dunawd,  
Rys hardd, bonheddig a da, dywedodd pair ysbrydoliaeth  
farddol

Y byddit uwchlaw mesur yn bennaeth, nid rhyfeddod [mo  
hynny].

8 Hil wych Rhys [â'r] dur noeth a roddodd ergyd mewn cnawd,  
Hil Gruffudd ardderchog, llwyddiant tai gwin,

Hyder beirdd pybyr, [a'i] waywffyn yn ddarnau chwilfriw,  
Talcen [yn] ffrydiau o waed, ail Ryawd da;

12 Ymosod ar dre Bergaw, bondo â theils tenau,  
A wnaeth dy waywffon, milwyr [yn] fintai gylchynol.  
Gwyn eu byd i gyd dy bobl hardd,

Brythoniaid gwynion, gweiniaid o natur dda;

16 Gwyn eu byd feirdd [y] byd, cân fedw a ganant;  
Gwyn eu byd gerddorion, ffyniant ffawd ysgubol;

Gwyn ei fyd [y sawl a fo] uwch rhyd nad ymosodi arno, [un o]  
eiddgarwch Rhawd,

Gwyn ei fyd [y sawl a fo] lle y byddi, frawd Owain Frych.

Arddyrnau arglwydd rhagorol, ergyd ddinistriol â gordd [ar]  
gaethion,

20 Gwnaf i'th gampau hynotaf folawd [mewn] mil o ieithoedd.

Arglwydd nerthol [â] llaw agored, ystorfa gwin Eidalaidd,

Arweinydd mawr ei drywanu [mewn] brwydr, llwyddiant tebyg  
i Elffin.

Gwisgaist amdanat orchudd o bais ddur dew,

24 Gafael rymus llew, arfer Gweirydd,

Arglwydd [o] dras dynion cedyrn, calon wrol,

Copa cadarn, diysgog [ei] ymosodiad.

Teflaist oddi wrthyt ergyd â gwaywffon [a] chais [i'th] wanu,

28 Arglwydd Abermarlais, tri llais [yn cwyno] gorthrymder.

Datblygir moliant i ti, o'm tafod y'i ceir,

Nid o ganiad celwyddog anghelfydd.

Tanbaid fydd dy ymladd, cyrch llesol yn niweidio gelynion,

32 Mewn brwydr galed yng Nghyminod.

Cyffro mawr mwyn ei dalcen, boed i'r Drindod dy arbed,

Iesu [sy'n] Dri ac Un, ochr haeddiant.

36 Teg yw dy gwrs, arweinydd, nid yw hyn yn llwyddiant prin,  
Bydd trugaredd i ti ar Ddydd helaeth y Farn.

40 Brawd ffydd da yw Rhys sydd fel arglwydd, llwyddiant Rolant,  
Eryr dedwydd ag wyneb disglair,  
Gwaywffon i ergydio [mewn] rhyfel, brwydr ffyrnig,  
Arglwydd du, rhagorol, a rydd aur i ni.

44 Fe rydd Rhys dewr i feirdd gwledydd Cred, arwyneb y byd,  
Ail Rydderch, cyfoeth hawdd gofyn amdano,  
Arglwydd, fe red yn ein hangen,  
Fel y rhoddodd ei dad.

48 Boed i'r Tad o'r nefoedd, gwlad ffyniannus eglur ei llw,  
Rwystro dy iselhau, Rys;  
Brawychus yw dy ymosodiad ffyrnig fel blaidd,  
Hawlio cyfran, [gŵr] anrhydeddus teilwng.

52 Teilwng [a] chadarn ei lw yw dy feddwl,  
Gwaywffon dew las, ti biau'r clod,  
Ffyrnig mewn arfau amddiffynnol, camp gyflym,  
Arglwydd byddin wedi'i threfnu i frwydr sy'n llenwi cyrn yfed.

56 Gwnaeth arglwydd da bonheddig oresgyn byddin  
I erlid Ffrancwyr ar eithaf;  
Carw brwydr, uchafbwynt o linach buraf  
Yr arglwydd Ednyfed urddasol.

60 Arglwydd yw Rhys ar lys gwin a [dillad] gwyrdd,  
Arddyrnau grymus, marchog urddol,  
Nid llun di-fudd, y mae'n fonheddig wrol,  
Nid un taeog hen [mohono], y mae'n un teg hardd.

64 Gwnaet fardd llawen yn hardd, gefaill gwych Geraint,  
Dymchwelwr castell Ffrengig;  
Prynaist fawl o fro Hiriell,  
Henffych well yn ardderchog hardd [ac] amserol dda.

*Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron a  
Llywelyn Fychan o Anhuniog*

4                   Henynt o le ni hunir,  
                      Heol y Glyn, hail y glêr,  
                      Hedd hawdd—ddiomedd—amor,  
                      Hirdda fawl heirdd ddau filwr.

8                   Milwriaidd gorff mal Urien,  
                      Mygr Rydderch gaethserch goethson;  
                      Meinlew ail mwyn Lywelyn,  
                      Meddgell ddifachell, Fychan.

12                Bychan yw fy rhan o'r rhad a'r echwyn  
                      A'r uchel ysgarlad  
                      Hyd pan ddyco, cyffro cad,  
                      Duw o Loegr ein dau lygad.

16                Llygad i haelwlad yw hwn,  
                      Llariaidd Rydderch luniaidd lon;  
                      Ail llygad y winwlad wen  
                      Yw fy llewlyw, Llywelyn.

20                Llywelyn uwch y Glyn glwys,  
                      Rhydderch gwrferch hygarfoes,  
                      Deuwr yn arwain dwyaes,  
                      Dau gyfaillt deg a gefais.

24                Cefais, iawn redais, yn wirodau—gwin,  
                      Yn gaened, yn dllysau,  
                      Yn rhuddion feirch, yn rheiddiau,  
                      Yn ra, ran o dda y ddau.

28                Dau o genadau gwynion ydynt  
                      Dir caeth Lloegr a aeth, boed ffraeth ffrwythynt.  
                      Diwasaidd yng ngherdd y'm dewisynt,  
                      Dewiso gwiwddyn dwys y gwyddynt.  
                      Rhieddog farchog a gyferchynt,  
                      Rhuthr milwrieiddfraisg mawrwaisg morwynt

- 32 Rhydderch, wrth hirferch ddigynghorfynt,  
 Rhi deutu Aeron yn rhaid ytynt.  
 Rhwydd rhag Llywelyn fo hyn o hynt,  
 Fychan ddiymgel, Echel uchynt:  
 36 Rhai o drumydd Lloegr, bob rhyw dremynt,  
 Rhoed y ffawd i hwn rydiau a phynt.  
 Gosyml y barnwn o'r a geisynt  
 Rai a'u gomeddai, gemau oeddynt.  
 Gwerin gynefin, gwin a yfynt,  
 40 Gwŷr drythyll eu byd, gwir a draethynt,  
 Braisg eu cyrff a gwaissg gwedy gwisgynt,  
 Brenhinedd y serch, byr iawn hunynt,  
 Breiniau, negesau a ddangosynt,  
 44 A gwin y brenin a obrynynt.  
 Ynifer o glêr a eglurynt,  
 Awen yn llawen iawn y'i llywynt.  
 I dlodion ddynion a eiddunynt  
 48 Gael eu lles gan hael llaes gynhelynt.  
 Deallu barddlyfr da a ellynt,  
 Dillynion cyson, ni'm atcesynt.  
 Dechrau a chanawl hawl a holynt,  
 52 Na diwedd cyfraith nid edewynt.  
 Rhwydd bererinion, rhudd a brynynt,  
 Meirch ar ôl dwysgeirch, wedy dysgynt  
 Arfau o'r gorau, aer a gurynt,  
 56 Gwyrdd a rhuddaur coeth, gwrdd y'u rhoddynt.  
 Pybyr Lywelyn, hyn a honnynt,  
 Pabl Rydderch loywserch, ni'n dilysynt,  
 Pâr, Iesu fab Mair, rhag pur rysynt  
 60 Pob un ohonun i'r lle'r henynt.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 229<sup>v</sup> B—Card 4.140, 648 C—J 111 [= RWM 1], 1308  
 D—LIGC 4973B, 329<sup>r</sup> E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 48<sup>v</sup>  
 F—Pen 118, 233<sup>r</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

12 leogyr. 16 y6 vy llywi6 ly6 welyn. 39 genevin.



*Teitl*

llywelyn goch ae cant.

*Moliant Rhydderch ab Ieuan Llwyd a Llywelyn Fychan o Lyn Aeron*

Y maent yn hanfod o le na chysgir,  
 Buarth y Glyn, gwledd y beirdd,  
 [Lle] hedd ffawd ddiwarafun dda  
 4 [Ynghyd â] moliant hir a da dau filwr hardd.

Corff milwrol fel Urien,  
 Rhydderch mawreddog digyfnewid ei serch [a] chain ei ymgom;  
 [Yr] ail lew main yw Llywelyn Fychan addfwyn,  
 8 Cell fedd agored.

Bychan yw fy rhan o'r [anrhegion] rhad a'r benthg  
 A'r [dillad] ysgarlad gwych  
 Hyd nes i Dduw ddwyn o Loegr  
 12 Ein dau lygad, cynnwrf rhyfel.

Llygad i wlad hael yw hwn,  
 Rhydderch caredig, siapus [a] llawen;  
 Ail lygad gwlad deg y gwin  
 16 Yw fy arglwydd tebyg i lew, Llywelyn.

Llywelyn uwch y Glyn hardd,  
 Rhydderch moesgar [sy'n arfer] erchi cwrw,  
 Dau ŵr yn dwyn dwy darian,  
 20 Dau gyfaill hardd a gefais.

Cefais, treuliais yn iawn, yn ddiodydd gwin,  
 Yn frethyn llwyd, yn dlysau,  
 Yn feirch cochion, yn waywffyn,  
 24 Yn ffwr, gyfran o gyfoeth y ddau.

Dau gennad gwych ydynt  
 A aeth i dir caethiwus Lloegr, boed buan eu hynt lwyddiannus.  
 Heb waseidd-dra y dewisent fi mewn barddoniaeth,  
 28 Gwyddent yn drwyadl [sut i] ddewis dyn da.  
 Cyfarchent farchog pendefigaidd,  
 Ymosodiad rhyfelgar a chadarn, mawr a chyflym [fel] gwynt y  
 môr

Yw Rhydderch, [ond] difalais wrth ferch dal,  
 32 Arglwydd[i] dwy ochr [Afon] Aeron mewn argyfwng ydynt.  
 Boed i'r daith hon fod yn rhwydd o flaen Llywelyn Fychan,  
 Yr un nad yw fyth yn ymguddio, [yn] Achilles [ei] hynt

fawreddog:

- 36 Rhai o fryniau Lloegr, pob rhyw siwrnai,  
 Rhodded y ffawd i hwn [ar] rydiau a phontydd.  
 Ffôl y barnwn y rhai a fyddai'n gwrthod iddynt  
 Yr hyn a geisient, gemau oeddent.
- 40 Cynefin [gan] bobl, gwin a yfent,  
 Gwŷr moethus eu byd, traethent y gwir,  
 Cryf yw eu cyrff a hardd ar ôl iddynt ymwisgo [mewn arfau],  
 Brenhinoedd y serch, byr iawn y byddent yn cysgu,  
 Hawliau [a] cheisiadau a gyflwynent,
- 44 Ac enillent win y brenin.  
 Llu o feirdd a oleuent,  
 Yn llawen iawn y rheolent farddoniaeth.  
 Rhoddent gynhaliaeth yn rhydd i bobl dlawd
- 48 A ddymunai gael eu lles gan [wŷr] hael.  
 Gallent ddeall llyfr barddoniaeth da,  
 Anwyliaid cywir, ni ffeiddient fi.  
 Archwiliant ddechrau a chanol achos,
- 52 Ac nid esgeulusent ddiwedd [y] gyfraith.  
 Pererinion rhwydd, prynent [ddillad] coch,  
 [Fel] meirch ar ôl [bwyta] ceirch trwm, wedi iddynt ddysgu  
 [Trin] arfau o'r gorau, curent fyddin,
- 56 Rhoddent [ddillad] gwyrdd ac aur coch cain yn helaeth.  
 Llywelyn grymus, hyn a honnent,  
 Rhydderch bywiog disglair ei serch, ni fyddent yn ein gwrthod,  
 Pâr [ddwyn], Iesu fab Mair, rhag aflwydd mawr,
- 60 Bob un ohonynt yn ôl i'r lle y maent yn hanfod ohono.

*Marwnad Goronwy ap Tudur o Benmynydd*

- 4 Llary Wynedd, llawer ynod  
Llef uchel, llifo iechyd.  
Llithrodd o'th wyndir llwythrad  
Llew a gwawr llaw egored.
- 8 Egored frys lys, ni laeso—ei hil,  
Hael fonheddfawr Gymro,  
Gronwy, gymhenaith gryno,  
Gwiwrwydd fu, gŵr oedd efô.
- 12 Efô hepgorus ei fudd  
I feirdd ymbiliaid o'i fodd.  
Ei fod yng nghysegrgalch fedd,  
I Fôn anghyflyrius fydd.
- 16 Bydd gwae a cherydd ac och irad—fawr,  
Farw baglur pymthengwlad.  
Bu dewr, nef biau ei dad,  
Byddingarw, baedd eiddungad.
- 20 Cad arynaig, ced Ronwy  
Cefais o'i law draw heb drai.  
Cyhafal brwyn o'i ddwyn ddoe,  
Cyfluddiwyd gwên mên y mae.
- 24 Y mae heb chwarae na chweiriaw—ei wŷr,  
Och wir Dduw amdanaw;  
Gwae ni gan drueni draw  
Gwawr Penmynyddlawr Nuddlaw.
- 28 Llaw Ronwy, llyw ar Wynedd,  
Llaw'n amlaen llu yn ymladd,  
Llaw yn cynnal llin canNudd,  
Llafn awchrym, llaw fynychrodd.

Mynychrodd o'i fodd a feddais—o'i aur,  
     Awr neithwyr ni chysgais;  
 Mal chwedl gofal a gefais,  
 32           Marw fy iôr drud, mawr fu'r drais.

          Treisiwyd ni am ein trysor,  
           Trwsiad traws ei dad, Dudyd.  
 Taer ddysgodd terydd esgar,  
 36           Tëyrn bryd, twrn Beredur.

Peredur gystal, parawdoch—gyngerth  
     Rhag angau a'i foloch;  
 Ym moly tŵr calchgoly cylchgoch,  
 40           Ym mryn aer am Ronwy och.

Och heno, nawoch yn niwedd—berthfyd,  
     Anhyfryd i'm bryd am barodedd;  
 Aeth gwawr a phennaeth gorhoff annedd,—myrdd  
 44           Ym a fwriodd gwyrdd am oferedd,  
 Iôn trychantref Môn, amynedd—ni chawn,  
     Iawn arial Wgawn, Uriel agwedd,  
 Arfaeth ehalaeth hywledd—beniadur,  
 48           Eryrfab Tudur goleuddur gledd.  
 Gwae fyth, gŵr geirsyth, gwŷr gorsedd—ei wlad,  
     Gronwy o'i ddygiad, gwae rianedd,  
 Gwae bybyr aerwyr orwedd—eu chwarae,  
 52           Gwae a bod lle mae eu llyw ym medd.  
 Cymyrth Duw i'w byrth, berthedd—gogoniant,  
     Cymro dirusiant, Cymry drosedd;  
 Tad o'r cymeriad er cymaredd—Iôr  
 56           Ni bydd ynn esgor baedd un osgedd.  
 Achwyn gwn fal brwyn brenhinedd—foloch,  
     Och Loegr wineugoch, wenwyn agwedd,  
 I'th ddifrod arnam â'th ddyfredd—a'th wg  
 60           A'th ddyhuno drwg a'th ddihinedd.  
 Pan y'm cên am lan naw mlynedd—dros of  
     Ynof y daw cof ar deg gyfedd.  
 Yty wyf any o fonedd—a phlaid,  
 64           Hwyl Gronwy f'enaid, hawl gwirionedd.  
 Gŵr oedd hwn wrth dŵr, arth o daeredd—glew,  
     Llew ym mron caer dew cyn cur diwedd,  
 Gŵr gwrdd hydr hoedlwydr, huawdlwedd—Garwy,  
 68           Gronwy loyw saffwy, liaws hoffedd.

- Â phen ei rethren aruthredd—a wnaeth  
 Draw a gelyniaeth drwy galanedd  
 Yng ngheyrydd Ffrengig yng ngharedd—brwydrlywyr,  
 72 Yng nghamau ewybr, yng nghymwedd.  
 Peris ym Mharis amhuredd—riddfan,  
 Gwaedd yn narogan gweddwon wragedd.  
 Pwywr ar adwy mewn parodedd,—dwyn  
 76 Pâr cynyddgar, cwyn gwenwyn gwnedd.  
 Dihengis rhag cis na rhwyf casedd—caith  
 A phob anghyfiaith, gwaith gwythlonedd.  
 Doeth i Fôn wiwddoeth o fynyddedd—Ffrainc  
 80 Dewis ar ieuainc, hoywgainc agwedd.  
 Mynediad, rhifiad nid rhyfedd—hyd Went,  
 Fy ngosymeithrent i Gent gyntedd,  
 84 Bu alar i'w feirdd heb wyledd—a'i wŷr,  
 A llid i'w frodyr a lledfrydedd.  
 Parchuswaith bumwaith heb omedd—a mwy  
 Y'm rhoddes Gronwy, gorddwy gyrddedd,  
 Penadurwawr mawr, maranedd—gynnal,  
 88 Penmynydd ardal, aur mâl a'r medd.  
 Mab, Tad, Ysbryd rhad, anrhydedd—rhag poen  
 Yw ei loyw oroen i laweredd.  
 Mawr wnaeth ynn hiraeth yn nhaerred—gellmyn  
 92 Pan las Llywelyn, ni bu hyn hedd;  
 Gwedy, gwae fyfy am fau fedd—a gwin  
 Ac ymgoelio rhin ac amgeledd,  
 Mau union heiniau anhunedd,—orddwy  
 96 Mwy mwy ddug Ronwy, ddager Wynedd.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 227<sup>v</sup> B—Card 4.140, 643 C—J 111 [= RWM 1], 1306  
 D—LIGC 4973B, 326<sup>f</sup> E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 44<sup>f</sup>  
 F—Pen 118, 230<sup>f</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r  
 holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.  
 Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

### *Darlleniadau'r llawysgrif*

19 kyhafyl. 21 charae. 61 lan. 68 goron6y. 75 P6y 6r ar ad6y my6n. 86  
 goron6y.

### *Teitl*

llywelyn goch uab Meuric hen ae cant.

*Marwnad Goronwy ap Tudur o Benmynydd*

- Wynedd fwyn, [y mae] ynod lawer  
 Gwaedd uchel [oherwydd] torri iechyd.  
 Llithrodd llew ac arglwydd hael  
 4 O'th dir gwyn llwythog ei fendithion.
- Llys â rhuthr agored [tuag ato], na foed i'w dylwyth fynd i lawr,  
 Cymro hael uchel ei dras,  
 Goronwy, iaith gain a chryno,  
 8 Bu'n rhagorol o hael, arwr oedd ef.
- Diymatal ei les oedd ef  
 O'i fodd i feirdd ymbilgar.  
 Bydd y ffaith ei fod mewn bedd maengalch cysegredig  
 12 Yn drallodus i Fôn.
- Bydd gwae a cherydd a galaru a chwyno alaethus mawr  
 [Oherwydd] marw blaendwf pymtheg gwlad.  
 Bu'n ddewr, y nef biau ei dad,  
 16 Carw byddin, baedd awchus i frwydr.
- Dychryn byddin, anrheg Gronwy  
 A gefais o'i law draw heb ball.  
 Cyffelyb yw tristwch o'i ddwyn ddoe,  
 20 Ataliwyd gwên lle y mae.
- Y mae ei wŷr heb chwarae nac arfogi,  
 Och wir Dduw amdano;  
 Gwae ni gan druanuster draw  
 24 [Oherwydd] arglwydd llawr Penmynydd â llaw Nudd.
- Llaw Goronwy, arweinydd ar Wynedd,  
 Llaw ym mlaen llu yn ymladd,  
 Llaw yn cynnal llinach can Nudd,  
 28 Llafn caled ei fin, llaw fynych ei rhodd.
- Rhodd fynych o'i fodd a dderbyniais o'i aur,  
 Ni chysgais awr neithiwr;  
 Cefais bryder [rhyfeddol] fel chwedl  
 32 [Oherwydd] marw fy arglwydd dewr, mawr fu'r trais.

Dygywyd ein trysor oddi wrthym trwy drais,  
 Addurn cadarn ei dad, [sef] Tudur.  
 Dysgodd elyn grymus yn ffyrnig,  
 Gwedd arglwydd, camp Peredur.

36

Gŵr cystal â Pheredur, och gyflym ddwys  
 Oherwydd angau a'i ddinistr;  
 Yng nghanol tŵr brig-galchog coch ei gylch,  
 Ar fryn [y] frwydr [y mae] och am Oronwy.

40

Och heno, naw och ar ddiwedd byd hardd,  
 Anhyfryd i'm meddwl o ran haelioni;  
 Aeth arglwydd a phennaeth trigfan wych,  
 Llwyth o [ddillad] gwyrdd a roddodd i mi am ffoledd,  
 Arglwydd tri chantref Môn, ni chawn dawelwch meddwl,  
 Gwir ffyrnigrwydd Gwgon, ymarweddiad Uriel,  
 Arglwydd helaeth ei fwriad yn darparu gwleddoedd moethus,  
 Mab eryraidd Tudur â'r cleddyf disglair dur.  
 Gwae fyth gwŷr llys ei wlad, [y] gŵr cywir ei air,  
 Gwae rianedd o ddwyn Gronwy,  
 Gwae ryfelwyr cryf [oherwydd] gorwedd eu hyfrydwch [mewn  
 bedd],

52

Gwae fod eu harglwydd lle y mae yn y bedd.  
 Cymerodd Duw i'w byrth, gwychder gogoniant,  
 Gymro di-ofn, trosedd [yn erbyn] Cymry;  
 O ddwyn tad oherwydd llid [yr] Arglwydd  
 Ni bydd i ni gynhyrchu baedd o'r un wedd.

56

Gwn gwyno am ddinistr brenhinoedd fel brwyn,  
 Och Loegr frowngoch, agwedd chwerw,  
 Oherwydd dy ddifrod arnom â'th ddyfroedd a'th wg  
 A'th ddeffro drwg a'th dymestl.

60

Pan fwyf yn poeni am fynwent naw mlynedd o'm hoes [?]  
 Daw cof ynof am wledd deg.

64

Yr wyf yn ostyngedig i ti o ran tras a charfan,  
 Anian Gronwy f'anwylyd, hawl gyfiawn.  
 Dyn gwrol oedd hwn wrth dŵr, arth o ffyrnigrwydd glew,  
 Llew o flaen caer drwchus cyn ergyd marwolaeth,  
 Gŵr cadarn grymus brau ei einioes, dull huawdl Garwy,  
 Gronwy â'r waywffon ddisglair, hyfrydwch llu.

68

Gwnaeth erchylltra â phen ei bicell  
 Draw a gelyniaeth drwy gelanedd  
 Mewn caerau Ffrenig mewn chwant llwybr rhyfel,  
 Â champau cyflym, o ddifyrrwch.

72



- Parodd riddfan ffaidd ym Mharis,  
 Gwaedd mewn proffwydoliaeth [gan] wragedd weddwon.  
 Curwr mewn bwlch dwyn gyda pharodrwydd  
 76 Waywffon fuddugol, [achos] cwyn chwerw [mewn] brwydr.  
 Dihangodd rhag ergyd a rhyseidd casineb taegion  
 A phob estron, gwaith digofaint.  
 Daeth i Fôn dda ddoeth o fynyddoedd Ffrainc  
 80 Yr un dethol o blith gwŷr ifainc, natur cangen ir.  
 Bu mynediad, mwstr hyd Went, nid oes ryfedd,  
 Fy nghynheiliad i gyntedd Cent  
 Yn alar i'w feirdd heb lawenydd, ac i'w wŷr,  
 84 Bu galar i'w frodyr a gofid.  
 Pum gwaith a mwy heb wrthod  
 Y rhoddodd Gronwy waith parchus i mi, gorthrwm ffyrnig,  
 Arglwydd benadur mawr ardal Penmynydd,  
 88 Yn cynnal cyfoeth, aur pur a'r medd.  
 Mab, Tad, Ysbryd graslon, anrhydedd rhag poen  
 Yw ei lewyrch gloyw i laweroedd.  
 Gwnaeth hiraeth mawr i ni trwy ffyrnigrwydd estroniaid  
 92 Pan laddwyd Llywelyn, ni bu hyn yn hedd;  
 Wedyn, gwae fi am fy medd a'm gwin  
 Ac ymddiried mewn rhinwedd a gofal,  
 Eiddof fi yw salwch anhunedd diwyro, gorthrwm  
 96 Mwy byth a ddygodd Ronwy, dager Gwynedd.

*Moliant Hopcyn ap Tomas o Ynysforgan*

- Gogyfarchaf naf i ni—a rodded  
 Yn llaw egored, weisged wisgi,  
 Gwawr Ystrad diwad Tywi—o’i ddechrau,  
 4       Gwrdd foesau Llachau yn ein llochi,  
 Goroffgadr baladr Beli—un osgryn,  
       Gwellyniog Hopcyn, waywryn wiwri,  
 Llin Domas ddifas, llawen ddofi—clêr,  
 8       Llin Einion ener, llew un ynni.  
 Nid rhaid i eirchiaid erchi—i’ m canllaw,  
       Ei law o’r eiddiau a wŷr rod-di  
 Gwyrddlas o’r dinas, daioni—golau,  
 12       Gwin o ffiolau gwyn a phali.  
 Eryr glewddewr, iawn arglwyddi—gydfaeth,  
       Uwch goror hoywdraeth awch gwrhydri,  
 Eofnllwyr y gŵyr egori—yt frawd  
 16       A ddywawd praffwawd y proffwydi.  
 Nid rhyfeddwael cael, Celi—a’i berthwnaeth,  
       O gampau luniaeth gwymyp haelioni,  
 Diodydd yn rhydd i’ m rhi—Rhydderchnaws  
 20       O faril, gyngaws rhydraws Rhodri.  
 Hwylaf, addefaf, o Ddyfi—ardal  
       Trwy ochel Pennal, tryfal trefi,  
 Dieres goethynt dros Gothi,—Dulas  
 24       I Feddyfnych blas heb fodd ofni,  
 Trwy Lychwr at wŷr ni ad torri—ffydd,  
       A thraw i’i geyrydd, ni thry gwyr,  
 Hebog goludog, galedi—wrthryn,  
 28       Hopcyn gorau ynn gŵr ei eni,  
 Lle mae draw iddaw, drwy weddi—ffaglawr,  
       Croestai neuaddawr (Crist i’w nodd!)  
 A lliawstraul medd a llestri—ariant  
 32       A hir ogoniant a hwyr gyni.  
 Gŵyr o gwbl ei gerth o Gaer Gybi—Sant,  
       A hëyd fwyniant, hyd Efenni,  
 Gwawr Gwhyr hoywlawr geyr heli—amrwyf,  
 36       Glywed ei fawrrwyf i’w glodfori,  
 Gael goroff einioes Gilgwri—fwyalch  
       Falch i’ m eryrwalch uwch mawr erwi,

40 A diwedd hywledd, ein holi—a wnair,  
Un gredadun grair, uthr air, a thri.

44 Tri ac un tro ym, gun gael,  
I luniaw cerdd aelaw ŵyl  
Wrth ei rym, wiw Arthur ail,  
I eryr Gwhyr gwiwhael.

48 Haelach no neb o'r hoywlu,  
Heiliodd ym win uwch heli,  
Hwn a orddyfnodd hynny,  
Hopcyn gytyn lygatu.

52 Llygatgall diball debig,  
Lle mae gair o'th nawdd, grair grog,  
Llew durwayw, llyw diorwag,  
Llywy rwydd-dal llarieidd-deg.

56 Teg yw, oreulyw ar alarch—unlliw,  
Wahenlliw palffreifarch,  
A hael megis mael am arch  
Ac ufudd, fy ngogyfarch!

### *Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 228<sup>v</sup> B—Card 4.140, 646 C—J 111 [= RWM 1], 1307  
D—LIGC 4973B, 328<sup>r</sup> E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 47<sup>r</sup>  
F—Pen 118, 232<sup>r</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

### *Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ynni. 16 praffa6t. 22 pennyal. 34 heut. 53 oreuly6 arlarch.

### *Teitl*

llywel' goch ae cant y hopkyn uab thomas.

*Moliant Hopcyn ap Tomas o Ynysforgan*

- Cyfarchaf arglwydd a roddwyd i ni  
 Yn llaw agored, rhodd barod [a] bywiog,  
 Arglwydd Ystrad Tywi ddilys hyd at ei ffiniau,  
 4 Dulliau cadarn Llachau yn ein hamddiffyn,  
 Gwaywffon wych a grymus â'r un hwrdd â Beli,  
 Hopcyn urddasol, brenin da ffyrnig ei waywffon,  
 8 Llinach Tomas feddylgar, llonyddwr llawen beirdd,  
 Llinach yr arglwydd Einion, llew â'r un egni.  
 Nid oes raid i ddeisyfwr ymbil ar fy nghynhaliwr,  
 Y mae ei law yn medru rhoi o'r eiddo  
 [Ddillad] gwyrddlas o'r ddinas, daioni amlwg,  
 12 Gwin o ffiolau gwyn a sidan.  
 Eryr gwrol a dewr, brawd maeth gwir arglwyddi,  
 [Un â'th] danbeidrwydd gwrhydri uwch ffin traeth hardd,  
 Medr egluro'n hyderus a thrylwyr i ti[r] dynged  
 16 A ddywedodd barddoniaeth rymus y daroganwyr.  
 Nid rhyfedd [na] gwael yw cael, Duw a'i gwnaeth yn hardd,  
 O drefniad campau haelioni gwych,  
 Ddiodydd yn rhydd o gasgen i'm harglwydd o natur  
 Rhydderch,  
 20 Cystadleuaeth â Rhodri tra chryf.  
 Teithiaf, cyffesaf, o ardal [Afon] Dyfi  
 Gan osgoi Pennal, triogl o drefi,  
 Hynt wych arferol dros [Afon] Cothi [a hithau Aron] Dulas  
 24 I lys Meddyfnychy heb unrhyw ofn,  
 Trwy [Afon] Llychwr at w'r na fydd yn caniatáu torri addewid,  
 A thraw i'w lysoedd, ni fydd trawsedd yn [ei] droi,  
 Hebog cyfoethog [yn] gwrthsefyll caledi,  
 28 Hopcyn y gŵr gorau i ni a anwyd erioed,  
 Lle y mae ganddo draw, drwy weddi enynnwr,  
 Neuaddau [ar ffurf] adeiladau croes (boed i Grist ei noddi!)  
 A llawer o draul ar fedd a llestri arian  
 32 A gogoniant hir a chyni'n eithriadol.  
 Gŵyr yn llwyr ei hawl o Gaer Gybi Sant  
 Hyd Efenni, a bydd yn lledu mwynhad,  
 Arglwydd Gŵyr hardd ei dir ger cylch y môr,  
 36 [I] glywed ei fawr orchest yn cael ei chlodfori  
 [A] chael einioes wych mwyalchen falch Cilgwri  
 I'm gwalch eryraidd uwch erwau mawr,  
 A diwedd moethus ei wledd, fe'n bernir oll,  
 40 Un trysor credadwy a thri, gair mawreddog.

44 Tri ac un tro i mi, caffaeliad hyfryd,  
 I lunio cerdd barod ufudd  
 Yn ôl ei nerth, ail Arthur teilwng,  
 I eryr da a hael Gŵyr.

48 Haelach na neb o'r llu gwych,  
 Tywalltodd win i mi uwch y môr,  
 Y gŵr hwn a arferodd wneud hynny,  
 Hopcyn cyfeillgar â'r llygad tywyll.

52 Un debyg [iddo'n] dreiddgar ei llygad [a] di-feth,  
 Lle y mae clod am dy groeso, [un werthfawr megis] croes [sy'n]  
 wrthrych addoliad,  
 [Y] llew â gwaywffon ddur, [y] rheolwr doeth,  
 Yw'r wraig deg dyner â thalcen llyfn.

56 Hardd ydyw, rheolwr gorau ar [farch o'r] un lliw ag alarch,  
 Disgleirdeb march ysgafn,  
 A hael fel tywysog am rodd  
 A gostyngedig, fy nghyfarchiad [iti!].

*Awdl gyffes*

Achubaf, Duw Naf diamnofydd,  
 Dy nawdd a'th gyfarch, rybarch Rebydd,  
 Uchel yn awyr Dy fagwrydd,  
 4 Iechyd marw a byw, Llyw llewenydd,  
 Brenin a Dewin pob rhyw dywydd,  
 Creawdr, Amherawdr, crair mawr dedwydd;  
 Ysbryd gloywfyrd Glân, darian derydd,  
 8 Tad dawn anogiad, Mab dinegydd.  
 Pan lithrddel rhyfel, Rhwyf merwerydd,  
 A'r tralliaws bobl, a'r tri lluydd  
 Ar lethr Olifer funer Fynydd,  
 12 Engylion werin Dy fyddin fydd.

Gwneuthum ddadl cynnelw gyda'r celwydd;  
 Gwneuthost fôr, rëydr hoen gwydr a gwÿdd.  
 Gwneuthum ddifflais drais dros Dy gerydd;  
 16 Gwneuthost nef a llawr, dramawr drumydd.  
 Gwneuthum ddifrawd nef a gwÿr crefydd;  
 Gwneuthost gelfyddyd byd a bedydd.  
 Gwneuthum lateiaeth, barn feddwaeth fydd;  
 20 Gwneuthost ddwfr a tân glân a glennydd.  
 Gwneuthum i gywir wir waradwydd;  
 Gwneuthost hagr a theg, ofeg ufydd.  
 Gwneuthum ar draethawd geuwawd gywydd  
 24 Lleucu yn eilFair, lliw caen elfydd.  
 Gwneuthum odineb, nac ednebydd;  
 Gwneuthost Lyn Ebron a'i afonydd.

Cyffesaf wrthyd, byd wyboddyd,  
 28 Camau a wneuthum, cymen ieithydd,  
 Gwrawlgadr Waladr digywilydd  
 Goruchel bylgain ac awr echwydd:  
 Torrais o gredau bynnau beunydd;  
 32 Taeredd a ddysgais, hydrais hoedrydd;  
 Torrais y Dengair, ffurfeiddgrair ffydd,  
 Deddf, Eurwr dileddf Ei erdelydd.  
 Torraist, gwaryaist, hil gwiw Riydd,

36 Trumawgfedd daear, loywar Lywydd,  
Tŵr diorwagiaith perffaith purffyydd,  
Torraist byrth uffern, gwlyb fignwern gwlydd.

Er Dy goron ddrain, er Dy gerydd,  
40 Er Dy gariad, clyw, Lyw, f'eilewydd,  
Er Dy gethrol draed a'u rhuddwaed rhydd,  
Er Dy glwyf ofal â'r glaif efydd,  
Er Dy lwyrwir farw ar D'elorwydd,  
44 A'r tradoeth gyfod y pryd trydydd,  
Erbyn fy marwol ddiweddol ddydd,  
Eurdad digroniad, Dy gerennydd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 224<sup>r</sup> B—CM 12, 532 C—CM 454, 296 D—J 111 [= RWM 1], 1301 E—LIGC 2002C [= Pant 33], 170 F—LIGC 4973B, 321<sup>v</sup> G—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 35<sup>v</sup> H—Llst 133, 403 I<sup>1</sup>—Llst 145, 47 I<sup>2</sup>—Llst 145, 151 J—Pen 118 225<sup>v</sup>

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif D, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

29 digewilyd.

*Awdl gyffes*

Arglwydd Dduw trugarog, gafaelaf  
 Yn Dy nawdd ac yng ngweddi atat, Arglwydd parchedig,  
 Uchel yn yr awyr yw dy furiau,  
 4 Iachawdwriaeth y meirwon a'r rhai byw, Rheolwr llawenydd,  
 Brenin a Dewin pob math o dywydd,  
 Creawdwr, Ymherawdwr, anwylyd mawr ffodus;  
 Ysbryd Glân clir Ei feddwl, tarian gref,  
 8 Tad [sydd â] dawn anogwr, Mab nad yw'n gwrthod.  
 Pan ddêl rhyfel yn sydyn, Rheolwr cynnwrf,  
 A'r bobl niferus iawn, a'r tri llu  
 Ar lethr Mynydd yr arglwydd Olifer,  
 12 Mintai[’r] angylion fydd Dy fyddin.

Gwneuthum ddadl [er] elw gyda'r celwydd;  
 Gwnaethost fôr, raeadrau o liw gwydr a choed.  
 Gwneuthum drais cyson yn ymateb i'th gosb;  
 16 Gwnaethost nef a'r byd, copaon enfawr.  
 Gwneuthum afles nef a chrefyddwyr;  
 Gwnaethost grefftwaith y byd a Christnogaeth.  
 Gwneuthum genhadaeth serch, dedfryd lem ar feddwon fydd;  
 20 Gwnaethost ddŵr a thân glân a glannau.  
 Gwneuthum sarhad gwirioneddol i ddyn gonest;  
 Gwnaethost [bethau] hagr a theg, mewn gostyngedig fryd.  
 Gwneuthum ar ganiad cywydd o fawl celwyddog  
 24 Leucu yn gyffelyb i Fair, lliw haenen [o eira dros y] tir.  
 Gwneuthum odineb, paid â'i adnabod;  
 Gwnaethost Lyn Ebron a'i afonydd.

Cyffesaf wrthyt, adnabyddwr y byd,  
 28 [Y] pechodau a wneuthum, ieithydd huawdl,  
 Arglwydd gwrol, cadarn a di-fai  
 Gwawr aruchel a chanol dydd:  
 Torrais lwythi o lwon bob dydd;  
 32 Dysgais gyndynrwydd, trais mawr diofid;  
 Torrais y Deg Gorchymyn, trysor hardd y ffydd,  
 Gŵr ysblennydd cadarn Ei lywodraeth.  
 Torraist, chwaraeaist, tras Arglwydd teilwng,  
 36 Fedd pentyredig y ddaear, Llywydd disglair a gwâr,  
 Tŵr perffaith ystyrllon iawn Ei iaith a phur Ei ffydd,  
 Torraist byrth uffern, maes corsog meddal a gwlyb.



40 Er mwyn Dy goron ddrain, er mwyn Dy gosb,  
Er mwyn Dy gariad, Arglwydd, clyw fy nghân,  
Er mwyn Dy draed hoeliedig a'u gwaed coch helaeth,  
Er mwyn gofid Dy glwyf â'r waywffon efydd,  
44 Er mwyn Dy farwolaeth wirioneddol ar D'elor,  
A'r atgyfodiad tra ystyrion ar y trydydd dydd,  
Erbyn dydd terfynol fy marwolaeth,  
Tad ysblennydd hael, [rho] Dy gymod.

*Moliant Hywel a Meurig Llwyd o Nannau*

Heiniar adfydig hynwyf,  
 Hyn yw fy nghyngor, hen wyf,  
 Tra fo eiry yn glo ar glawr  
 4 Daear Wynedd, drwy Ionawr,  
 Oerne rhwyf, arnaf y rhed  
 Bryfiau mân, brofi myned,  
 Os gwir y trig ger brig bryn,  
 8 Nis gad eiry, caead ceuwyn.

Mawr boen a ludd hoen yw hon,  
 Mair a'i gwyl, muriau gwelwon;  
 Cuchiog gwaeth na swyddog sir,  
 12 Cochl crwn cylch gwyndwn gweundir;  
 Gwanar ffrwd gwynoer ei ffrw,  
 Gwen gylchedlen galcheidliw;  
 Maith y cylchynodd bob man,  
 16 Mannoedd wybr, mynydd ebran.  
 Oer y caid llonaid pob llwyn,  
 Cnwd mawr megis cnawd morwyn,  
 Er pan dynnwyd, wynllwyd wedd,  
 20 Yr hoel o fol yr heledd  
 I halltu ag eiry hylltaith  
 Lawr daear fawr, larder faith.  
 Pell o'm bodd ym ei oddef,  
 24 Peilliaid blawd hynafiaid nef.  
 Nithod o'r cribod a'r crwybr,  
 Nithlen, ni ad un noethlwybr,  
 Argoel dig, argae brig brwyn,  
 28 Oergrwybr ar greiglwybr gruglwyn.

O daw glaw ar ei dew glwyd,  
 Adwyth daearllwyth dorllwyd,  
 32 Llym o'r wybr, llyma rybudd,  
 Llif Geredigion a'm lludd.  
 Hwyr i mi drwy Ddyfi draw,  
 Hyddod rwystr heddiw drostaw.  
 Nid wyf anghywir ddiriaid,  
 36 Nid af hyd yr haf, nid rhaid,

O le paradwys ail oedd,  
 O Wnion, lwysion lysoedd,  
 Maith ym bybyriaith barawd,  
 40 Meibion Meirig, iôn mur gwawd.  
 O dŷ Hywel, uchel ach,  
 Dai Feirig, nid oferach.

Fy swydd gyda'm harglwyddi,  
 44 Hyn fydd, a'u câr hen wyf i:  
 Darllain cyfraith, rugliaith raid,  
 Sifil, i'm cyfneseifiaid;  
 Gwisgaw o beflaw bob un,  
 48 Gwrdd roddion, gwyrdd o'r eiddun;  
 Clau ddychanu llu lletffrom,  
 Clywir ei dwrf, clêr y dom;  
 Rhugl o beth y'm hanrhegwyd,  
 52 Rhydebygu Lleucu Llwyd  
 I hardd flodeuros gardd gain,  
 I hael Fair, neu i haul firain.  
 Digrif gan gleiriach achul,  
 56 Awr dda y sydd ar dduw Sul,  
 Clybod yn ôl Nadolig  
 Dyrnodau cogau mewn cig,  
 Cynnwrf milgwn, gwn nad gau,  
 60 Cedenog o'u cadwynau,  
 Cytgerdd crwth chwimwth a chod,  
 Cydgerddau pennau peunod,  
 A chlych aberth a chwerthin,  
 64 A galw y gwŷr i gael gwin.

Fy ngweddi, f'arglwyddi glân,  
 F'eneidiau, fi ni adan',  
 68 Eu hen ewythr, hoyw neiaint,  
 Ei hun i ymdrech â haint,  
 I wrthladd budd, hirludd hun,  
 I werthu cerdd oddi wrthun'.  
 Adeilad, yno y daliaf,  
 72 Rhwng tai fy nau nai a wnaif,  
 Ynghanawl lle mae'r mawl mau,  
 Cogor gwin Cae Gwrgenau;  
 Diddan gyfedd a wneddwynt,  
 76 Deuddyn na bwyf hŷn na hwynt.

*Ffynonellau*

A—Pen 110, 295 B(a)—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 563 (b)—LIGC 3050D [= Mos 147], 130 C(a)—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 544<sup>v</sup> (b)—LIGC 3056D [= Mos 160], 286 D—J 101 [= RWM 17], 733 E—Llst 173, 279 F—Bangor 704, 93 G—LIGC 16129D, 155 H—LIGC 3061D [= Mos 165], 10 I—LIGC 3051D [= Mos 148], 272 J(a)—BL Add 14976, 221<sup>v</sup> (b)—BL Add 14969, 443 (c)—BL Add 14964, 42<sup>v</sup> (d)—Card 4.10 [= RWM 84], 427 K—BL Add 14873, 64<sup>r</sup> L(a)—Gwyn 15, 89 (b)—LIGC 18B, 344 M(a)—BL Add 14978, 58<sup>v</sup> (b)—LIGC 1024D, 59 N—CM 40, 7 O(a)—CM 243, 30 (b)—BL Add 12230, 7 P—LIGC 1553A, 284 Q(a)—BL Add 14966, 234<sup>v</sup> (b)—Bangor (Mos) 11, 120 R—CM 10, 279 S(a)—BL Add 14866, 206<sup>r</sup> (b)—Gwyn 3, 124<sup>v</sup> (c)—LIGC 8330B, 279 (d)—BL Add 31062, 174<sup>v</sup> (e)—Card 2.40 [= RWM 26], 135 T—CM 27, 211 U—Pen 78, 102 V—Pen 97, 37 W—Card 2.68 [= RWM 19], 328 X—Bodley Welsh e 4, 48<sup>r</sup> Y—Llst 133, 660 Z(a)—J 140 [= RWM 15], 447 (b)—Bangor 5946, 205

Y mae nifer o linellau yn llawysgrif V yn anghyflawn oherwydd traul ar y dalennau. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *A* heniar afydig hynywy, *B* aredic, *MNZ* a diddig, *O–Y* nodedig, *P–TV–Y*, hoywnwyf, *U* huwnwyf. 5 *A–DFG* evner, *E* oer ner, *HNO–Z* oernwyf, *I* ornav, *JKL* oerni rhwydd, *M* ornwy, *PSXY* rhyw. 6 *C–IKM–T–XZ* briviau. 7 *PSUXY* uwch brig, *H* is brig, *A–FILMNOQRTVW* gar brig, *GJZ* gaer brig. 8 *PSV* nim gad, *GILO–TXYZ* cawad, *AEFU* kafad, *CD* kafod, *C–F* keufwyn, *MN* dafad dewfwyn, *V* kauad eiry kyd ir frwyn. 11 *A–FH–L* kylchog, *Z* kalchiog, *MN* klog. 12 *EHO–Y* grwn. 13–14 [*ST*]. 13 *H* gwana'n ffrwd, *EMNZ* gwnaer ffrwd, *QRVW* gwanwyn ffrwyth a gwenwyn ffrw, *G* gwenwynwr ffrw, *H* gwenwyn i ffrw, *IJ* gwenwyne'r ffrw, *K* gwenwyna'r ffrw, *L* gwenwynai'r ffrw, *MNPZ* gwenwynoer ffrw, *U* gwawn ffrwd a gwenwyn unffriw, *Y* Gwanwyn ffrwd a gwen unffriw, *X* gwanwnffrwd a gwen vu'r ffrw. 14 *ABCEO* gwyn, *DF* gwyl, *MN* gwawn, *V* llen gylchedlenn ga[ ], *AB* kylchodlyn kalcheidliw, *CDF* kledlyn kalchllyn kylchliw, *O* klydlyn kalchlynn kylchliw, *E* kylchaidlen kalcheidliw, *H–LP* galcheidlen, *XY* galchaidlen gylchaidliw, *MNZ* kylchodlawn kalcheidliw, *U* galaid len gylchaid liw, *H* gylch hydliw, *I* gylch hoydliw. 15 *GMPS–Z* ergydiawdd, *N* yscytiodd, *QR* ymguddiodd. 16 *C–FOTZ* abran, *MNQRW* abram. 19 *A–G* Pan ollyngwyd. 23 *A–GIOPSW* ai oddef, *M* oi oddef, *U* ai haddef, *R* yw ei oddef, *JKLX* i ddiodef. 25 *A–OQRS(bc)T–WZ* Nythod, *XY* nithiodd oer gribodd ar grwybr, *A* y cribod, *B–KOQRTVW* ir cribod. 27 *GJKLNY* ar gae, *EOQRTVWX* ar gau. 31 *I–N* oer wybr, *OQRTVW* llem ywr wybr. 32 *AC–FHOTZ* i gredigion, *BPS* i geredigion, *V* keredigion, *U*

fynghyrydigion, *Y* yngheredigion. 33 *A-FI-L* hawdd. 34 *A-FOU* hynod rwystr heno. 38 *BEFGJKL* wynion, *H* i wynnion, *OTU* oi gwnion, *RQW* ai gwnion, *MNZ* o lwysion wnion, *PS* o lwysion yw ei, *Y* o lwysion yn ei. 39 *C-FILNOQRT-WZ* bybyrwaith. 40 *PS* Meibion ym Meirion ymrawd. 41–2 [*GI-NZ*]. 42 *B-F* i dai, *HOPR-UXY* i dy, *QW* o dy, *V* [ ]eyryg. 44 *AB* hyn yw fynghyngor hen wyf i, *C-F* hyn yw fy nghyngor hen i, *MPSXZ* hyn a fydd a hen wyf i. 45 *PRSY* darllen. 46 *ABEM* syfyl, *CDFHNOQRTUWX* syfl, *GP* sifyl, *JKL* syful, *Z* suful, *Y* sifl, *V* [ ]kyneseifiad, *S* a bryt hen y Brytaniaid. 47 *PSTXY* gwisgaw bybyriaw, *QRVWZ* bybyrlaw. 49 *H-N* ddyfalu. 51 *JKL* rhugyl o waith, *G* rhuthr o dwyll im anrheithiwyd, *OT* eithr o beth ym anrheithiwyd, *PS* rhuthr fal ym anrheithiwyd, *QRW* uthr o beth ym anrheithiwyd, *UXY* rhuthr o beth ym anrheithiwyd, *Z* rhy uthr fal ym anrheithiwyd, *V* [ ]o beth. 52 *BC(a)EGIPSUXYZ* rhugl debygu, *JKLQRVW* rhugl gyfflybu, *OT* eithr gyfflybu, *MN* rhugl ddyfalu. 54 *ABFGI-LNOQRWZ* neu haul, *HPUX* I hael Fair i haul. 57 *C-OQRT-Z* klywed. 58 *A-GIMNPXZ* uwch cig. 60 *H-LV* mewn. 62 *QRVW* cydsyniau, *T* kydsoniav. 64 *A-GI-KMO-Z* a galw gwyr, *R* y gwin. 66 *A* mi a dan, *BI-N* ym ni adan. 67 *B* yr hen ewythr ir, *P* Hen ewythr ei hoyw, *S* Hen ewythr i. 68 *A-D* fy hun, *AC-F* rrac ymdrech, *G* rhag gorthrech. 69–70 [*H-LP-Y*]. 69 *C(a)* *hv* fydd hyn, *F* hy fydd hyn, *C(b)DEO* hir fydd hyn, *M* nid or wlad hoewlad hyn, *N* Nid af or wlad hoywlad hyn, *Z* nid af or wledd hoywledd hyn. 71–2 [*G*]. 75 *B(a)* wynelwy, *B(b)* wnelwy, *C(a)DF* wneddwyf, *C(b)O* feddwy, *GJ(bc)KM* weddwynt, *HIUZ* weddynt, *LPS(ce)T* wneddynt, *N* feddwynt, *QRVW* gwn gweddwynt. 76 *BC(b)O* hwy, *C(a)DF* hwyf.

### *Trefn y llinellau*

*A-F* 1–18, 23–4, 19–22, 25–40, 43–54, 65–6, 68, 67, 69–70, 55–64, +2, 71–4, 41–2, 75–6.

*G* 1–12, 15–16, 13–14, 19–40, 43–54, 65–6, 68, 67, 69–70, 55–64, +2, 73–6.

*H* 1–38, 65–8, 39–64, +2, 71–6.

*I-L* 1–38, 65–8, 39–40, 43–60, 63–4, 61–2, +2, 71–7.

*MN* 1–16, 27–8, 25–6, 19–22, 17–18, 23–4, 29–38, 65–8, 39–40, 43–60, 63–4, 61–2, +2, 71–2, 69–70, 73–6.

*O* 1–18, 23–4, 19–22, 25–76.

*PQR* 1–16, 27–8, 25–6, 19–22, 17–18, 23–4, 29–68, 71–6.

*ST* 1–12, 15–16, 27–8, 25–6, 19–22, 17–18, 23–4, 29–68, 71–6.

*U-Y* 1–12, 15–16, 13–14, 27–8, 25–6, 19–22, 17–18, 23–4, 29–68, 71–6.

*Z* 1–16, 27–8, 25–6, 19–22, 17–18, 23–4, 29–40, 43–76.

Ar ôl 64 yn A–H, ac ar ôl 62 yn I–N:

Lle da yw tai fy neiaint  
I hen i ymdrech â haint.

*Moliant Hywel a Meurig Llwyd o Nannau*

Cnwd truenus aflonydd,  
 Hyn yw fy mwriad, hen wyf,  
 Tra bo eira'n glo ar wyneb  
 4 Daear Gwynedd, drwy fis Ionawr,  
 Gwedd rhy oer, y mae llythyron dyfyn mân  
 Yn llifo arnaf, [yr wyf am] geisio teithio,  
 [Ond] os yw'n wir ei fod yn aros ger copa bryn,  
 8 Ni fydd eira'n ei ganiatáu, clawr cau a gwyn.

Poen fawr sy'n atal llawenydd yw hon,  
 Y mae Mair yn ei gweld, muriau gwelwon;  
 Yn gwgu'n waeth na swyddog sir,  
 12 Mantell gron o amgylch tir agored y rhos;  
 Ffrwd chwyrn â golwg gwyn ac oer,  
 Cwrlid gwyn o liw'r calch;  
 Cylchynodd bob man yn helaeth,  
 16 Plorynnod yr awyr, ceirch y mynydd.  
 Ceid llond pob llwyn yn oer,  
 Cnwd mawr fel cnawd morwyn,  
 Er pan dynnwyd, golwg gwynllwyd,  
 20 Yr hoelen o fol y berwedydd halen  
 I halltu ag eira hyll ei daith  
 Lawr y ddaear fawr, larder helaeth.  
 Yr wyf yn amharod iawn i'w ddiodef,  
 24 Briwsion blawd arglwyddi'r nefoedd.  
 Mân fflochennau o eira'r grib a'r gogr,  
 Llen nithio, nid yw'n gadael yr un llwybr yn noeth,  
 Arwydd blin, gwrthglawdd brigau[r] brwyn,  
 28 Gwaddod oer ar lwybr creigiog [trwy'r] llwyn grug.

Os daw glaw ar ei orchudd trwchus,  
 Aflwydd llwyth daear gwelw ei fol,  
 Llym o'r awyr, dyma rybudd,  
 32 Bydd llif yn fy atal [rhag mynd i] Geredigion.  
 Anodd i mi [fynd] drwy [Afon] Dyfi draw,  
 Rhwystr hawdd ei osod [sydd] drosti heddiw.  
 Nid wyf yn gnaf twyllodrus,  
 36 Nid af tan yr haf, nid oes raid,  
 O le a oedd yn ail baradwys,  
 O [Afon] Wnion, llysoedd hardd  
 Meibion Meurig, arglwydd sy'n gwarchod cerdd,

40 Helaeth yw'r iaith gadarn rugl sydd gennyf.  
 O dŷ Hywel, aruchel [ei] linach,  
 I dai Meurig, ni [ddaeth] cyff diddim.

Fy swyddogaeth gyda'm harglwyddi  
 44 Fydd hyn, a'u hen berthynas wyf i:  
 Darllen cyfraith sifil i'm ceraint,  
 Rhaid wrth iaith rugl [ar gyfer hyn];  
 Gwisgo [dillad] gwyrdd o'r eiddynt  
 48 O law ddisglair pob un, anrhegion gwych;  
 Hyglyw ddychanu criw gwyllt,  
 Clywir ei dwrw, clêr y dom;  
 Parod iawn y cefais anrhegion,  
 52 Arfer cyffelybu Lleucu Llwyd  
 I rosyn blodeuog hardd [mewn] gardd wych,  
 I Fair hael, neu i haul disglair.  
 Hyfryd gan hen wŷr main,  
 56 Awr ffodus sydd ar ddydd Sul,  
 Yw clywed ar ôl Nadolig  
 Ergydion cogyddion mewn cig,  
 Cyffro milgwn hirtlewog, gwn ei fod yn wir,  
 60 O'u cadwyni,  
 Cyseinnedd crwth sionc a bacbib,  
 Pennau peunod yn cydglochdar,  
 A chlychau offeren a chwerthin,  
 64 A galw y gwŷr i gael gwin.

Fy ngweddi, f'arglwyddi rhinweddol,  
 F'anwyliaid, yw na'm gadawant,  
 Eu hen ewythr, neiaint bywiog,  
 68 Ar ei ben ei hun i ymladd ag afiechyd,  
 I wrthweithio lles, hir atal cwsg,  
 I werthu cerdd [ymhell i ffwrdd] oddi wrthynt.  
 Adeilad a wnafrhwng tai fy nau nai,  
 72 [Ac] yno yr arhosaf,  
 Yn y canol lle y mae fy mawl,  
 Twrw gwin Cae Gwrgenau;  
 Maent wedi cynnal gwledd ddifyr,  
 76 Deuddyn na fydded i mi fyw yn hwy na hwynt.



*Y penlöyn*

- Cyrch, yr edn diaflednais,  
 Cychwyn, benlöyn ban lais—  
 Dihagr yw'r ferch a'm dihun—  
 4 O'r deau at y fau fun.  
 Medr wlad Feiriawn, dawn difai,  
 Mydr dy sain mewn irddrain Mai.  
 Buan dy hynt uwch pynt perth,  
 8 Marchog bedw cangog cyngerth.  
 Adain flin, lleddf ylfyn llwyd,  
 Edn o bedwarlliw ydwyd:  
 Gwyrdd a glas, eurwas arail,  
 12 Gwyn a du yn gwnïo dail.  
 Cyfaill dynionau ieuainc,  
 Cyny bych mawr, cerddawr cainc,  
 Ysgwl trin a chyfrinach,  
 16 Esgud wyd, edn bochlwyd bach.
- Dwg ruthr mal gwynt, helynt hwyl,  
 Feirionnydd at f'aur annwyl.  
 Ar wiwddrem dyarwedda,  
 20 Dwg i wraig Ddafydd dydd da.  
 Fy mun oedd, er fy mwyn i,  
 Aur ei chuddugl, arch iddi,  
 Orne gwendon Meirionnydd,  
 24 Nad êl, na lliw nos na dydd,  
 F'ail enaid, fraisg euraid frig,  
 Wyl oedd, ar wely Eiddig.  
 Hefyd, ysgwier hoywfalch,  
 28 Awdur gwŷdd a edy'r gwalch,  
 Didrwch berchennog deudroed  
 Feinion, cydymddeithion coed,  
 Llafuria, feistr lleferydd,  
 32 Dy esgyll uwch gwyll y gwŷdd.  
 Taer fyddud, nid hwyr f'eddyl,  
 Bydd daer ar fy chwaer un chwyl.

- Dywed, edn diwyd awdur,  
 36 Dewin coed mewn dywan cur,  
 Fy mod â mydr anerchwawd  
 Ym mro Ddeheubarth, fy mrawd,  
 A saith gofal i'm calon  
 40 A saeth o hiraeth am hon.  
 Am na welais, edn lleisgroyw,  
 Mygr o lun ger magwyr loyw—  
 Eiriol fy mawl a oryw—  
 44 Er ys mis, eres fy myw.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14997, 73<sup>v</sup> B—Pen 49, 124<sup>v</sup> C—LIGC 3049D [= Mos 146],  
 359 D—LIGC 3067B [=Mos 212], 12 E—LIGC 3021F [= Mos 1], 201  
 F—CM 129, 358 G—BL Add 10314, 26 H—Bangor 6, 58 I—BL Add  
 14870 [= RWM 53], 177<sup>v</sup> J—BL Add 14932, 22<sup>r</sup> K—BL Add 14933, 16<sup>v</sup>  
 L—Card 5.11 [= RWM 33], 39 M—Card 4.330 [= Haf 26], 349 N—  
 Bodley Welsh e 1, 133<sup>v</sup> O—Llst 14, 140 P—Llst 133, 1064 Q—LIGC  
 560B, 39 R—LIGC 1260B, 52 S—LIGC 5475A [= Aberdâr 2], 273

Priodolir y gerdd i Ddafydd ap Gwilym ym mhob un o'r llawysgrifau hyn,  
 ond yn llawysgrif F nodir hefyd: *rhai a daerant mai Llywelyn goch ap  
 meurig hen ai cant*. Yn llawysgrifau NPS ceir y nodyn hwn wrth l. 22: *dd  
 ddu o gemeirch kariad lln goch ab mevrig hen*. Ymhellach ar y llawysgrifau,  
 gw. isod tt. 111–17.

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *A* kychwyrn edn. 2 *BD–GIL–P* wan benloyn lais, *CHJKQRS* wan benloyn  
 bais. 3 *A* diagr vur neb am deuun, *BD–GS* difai yw'r ferch am dyfyn, *CH–P*  
 difai ywr ferch am dyfun, *QR* difai ir berth am dyfyn. 5 *AC* mydr. 6 *A* migr i  
 sain, *B–S* eurddrain. 7 *A* mwys vy hynt gair pvnt. 9 *A* edyn blin, *BDEH–*  
*KM–P* lais ylfyn lwyd, *CFGQRS* lais elfin lwyd, *L* lais elfon lwyd. 10 *A*  
 adain. 11 *M–P* gwyn a glas, *A* vrthas irddail. 12 *AF* gweini. 13 *B–LQR*  
 ifaingc. 14 *M–S* cyd na, *B–L* er na. 15 *A* kofl o rin. 17 *A* dwg ruthyr gwynt  
 val hynt hwyl. 18 *BH–K* I Feirionnydd, *ACFNOPS* i veirionnydd wawr  
 annwyl, *M* i Veirionnydd wawr v'annwyl, *DE* I Veirionnydd at wawr vanwyl,  
*GQR* I Feirionnydd fro annwyl, *L* I Feirionnydd at fro annwyl. 19 *A* dan  
 wiwddrem dyn a weddra, *CH–KM–P* dy arwedda. 20 *B* dy dafydd. 21 *A* Fy  
 mun yw. 22 *A* yn orchuddiog. 24 *A* tra vo nos a. 25 *A* enaid a luddiais ynof.  
 26 *A* vnawr i cherddawr oi chof. 27 *A* a hefyd benloyn. 29 *A* didrych. 30 *B–*  
*P* meinion, *B* cydymeithion, *S* cydymdeithion, *CR* kymdeithion, *DEG–L*  
 cymydeithion, *M–PQ* cymedeithion, *F* cyd gymdeithion. 31–2 [*B–S*]. 33 *A*  
 di ryvedda dy air veddyl. 34 *A* yn daer wrth fy chwaer fy chwyl. 35 *A*

dowyd, *BCGI* Dywaid, *L* dywad. 36 *A* odwyt owan cur. 39 *B-S* sain. 40 *A* mal saeth ym. 41 *B-S* Wrth weled lwysgred leisgroyw. 42 *BDEG-R* i lun, *CS* mygr lun. 43 *B-EG-S* hiraeth am dvg am denyw, *F* hiraeth am dug am henyw.

*Y penlöyn*

- Dos, yr aderyn mwyn,  
 Cychwyn, benlöyn â'r llais uchel—  
 4 Hardd yw'r ferch sy'n fy nghadw ar ddihun—  
 O'r deau at fy nghariad i.  
 Anela at Feirionnydd, gallu gwych,  
 Mydryddiaeth yw dy sŵn yn llwyni drain ffres Mai.  
 8 Buan yw dy daith uwch pontydd llwyn,  
 Marchog coed bedw canghennog plethedig.  
 Adain flinedig, pig lwyd gam,  
 Aderyn o bedwar lliw ydwyd:  
 12 Gwyrdd a glas, gwas gwarchodol gwych,  
 Gwyn a du yn gwnïo dail.  
 Cyfaill pobl ifainc,  
 Er nad wyt yn fawr, cerddor cangen,  
 Pennaeth brwydr a chyfrinach,  
 16 Yr wyt yn gyflym, aderyn bach [â'r] bochau llwyd.
- Rhuthra fel y gwynt, cwrs taith,  
 I Feirionnydd at fy nhrysor annwyl.  
 20 Cluda at yr un hardd ei hwyneb,  
 Dos â chyfarchiad at wraig Dafydd.  
 Fy nghariad oedd, ysblennydd ei hystafell,  
 Er fy mwyn i gofyn iddi,  
 24 Disgleirdeb ton wen Meirionnydd,  
 Beidio â mynd, nac yn y nos nac yn y dydd,  
 Yr un sydd megis enaid [â'r] talcen llydan addurnedig,  
 Yr oedd yn addfwyn, ar wely'r Gŵr Eiddig.  
 Hefyd, ysgwier bywiog a hardd,  
 28 Bardd coed sy'n gadael y gwalch ar ôl,  
 Perchennog hapus dwy droed  
 Fain, cyd-deithwyr coed,  
 32 Meistr araith, gweithia  
 Dy adenydd uwch düwch y goedwig;  
 Byddit yn daer, nid yw fy nghynllun yn ddi-frys,  
 Bydd yn daer yn yr un modd wrth fy nghariad.
- 36 Dywed, y bardd o aderyn diwyd,  
 Dewin y goedwig mewn ing poen,  
 Fy mod â cherdd annerch  
 Yn ardal Deheubarth, fy mrawd,  
 A saith poen yn fy nghalon

- 40 A saeth o hiraeth am y ferch hon.  
Oherwydd na welais, aderyn croyw ei lais,  
[Yr un] ddisglair ei golwg ger mur gloyw—  
Deisyfodd fy mawl—
- 44 Ers mis, y mae'n syndod fy mod yn fyw.

10  
*Y farf*

Mawr afael am oreuferch  
Oedd hyn yn eisyddyn serch,  
Oedd gael ymorafael mwyn  
4 O'm dwylaw am adolwyn;  
Ni wnaeth yng nghwmpas glasgoed  
Yr un ohonom erioed,  
I un deg o fewn y dydd,  
8 Fraw nac wylaw i'w gilydd;  
Ond ychydig, ddig ddogni,  
A gafas hon, gwae f'ais i,  
O hirddig pan gyhyrddawdd  
12 Â grudd hon, mab gerydd hawdd,  
Blaen y farf, blin oferedd,  
Blew gwyn yw heb liw na gwedd.  
Syganai, ddifai ddefod,  
16 Y ddyn glaer, wedd ewyn glod,  
'Ai penfar rhag dy garu  
A rodded, f'eniwed fu,  
Tros d'enu, ddyn trwstanaidd,  
20 Trist flew, coel hyddew coly haidd?  
Gwae fi mor serth fu'r perthlwyn  
A droed o amgylch dy drwyn.  
Mae llawer o fieri  
24 A'u pigau ynghylch d'enu di;  
Eithin llwyn anaddwyn wedd,  
Ac ysgall drwg eu gosgedd,  
Caled flaen ysgwthr celyn,  
28 Cilia di oddiyna, ddyn;  
Pwy a roes dros dy ddwyen  
Pais draenog, coed pigog hen?  
Twyllodrus fal to llwydrew,  
32 Tyn o'r gwraidd fileinaidd flew,  
Diriaid wŕ, a dyro di  
D'wyneb i bair dadeni;  
Dabre'n oed i'r glyngoed glân  
36 Dau nawmlwydd, arwydd eirian.  
Dy farf a'th wnaeth gaeth gythrudd  
A'th drawswch rawn morwch rhudd;

- 40 Ysywaeth deg famaeth dau  
A'i tyngodd cyn oed d'angau.'  
'Mae crair, oreurair arab,  
I gâr i mi, gorau mab,  
A'r crair, ellyngrair llongryf,  
44 A'i tyr yn gynt nag y tyf.  
Bei delud, gwedd ehud gyrch,  
I'r eiloed, liw plu'r elyrch,  
Ni lygrwn, em oleugrair,  
48 Dy rudd mwy, myn deurudd Mair.'

*Ffynonellau*

A—Llst 47, 551 B—Llst 134, 419 C—LIGC 970E [= Merthyr Tudful],  
480 D—Card 5.44, 253<sup>r</sup> E—Card 2.40 [= RWM 26], 456 F—LIGC  
21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 421

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

3 *BDE* ym oravael. 5 *A–F* ynghwmwasg. 8 *ADF* i gilydd. 18 *ACF* vy niwed,  
*E* aniwed. 22 *ACDF* yn amgylch. 27 *CF* ysgwth, *D* ysgwydd, *A* o vlaen  
ysgwthr clyn, *BE* kaledflaen draen ysgwthrlyn. 28 *A–F* o ddyna. 32 *AF* oi  
wraidd, *D* oi gwraidd. 33 *A–F* diraid. 37 *B–E* goethrudd. 40 *A–F* oet angau.  
42 *B–F* o gâr.

*Y farf*

- Mawr afael am ferch wych  
 Oedd hyn ym mhreswylfod serch,  
 Oedd cael ymafael tyn a mwyn  
 4     Â'm dwylo am ymbil;  
 Ni wnaeth yng nghylch coed glas  
 Yr un ohonom erioed,  
 I ferch hardd yn ystod y dydd,  
 8     Fraw na [pheri] wylo i'w gilydd;  
 Ond fe gafodd hon, dosrannu chwerw,  
 Dipyn o ofid hir, gwae fy mron,  
 Pan gyffyrddodd blaen y farf  
 12     Â grudd [y ferch] hon, ffoledd cas,  
 Cerydd parod [i] ddyn ifanc,  
 Blew gwyn yw heb liw na ffurf.  
 Murmurodd y ferch loyw,  
 16     Golwg glodforus fel ewyn, arfer ddi-fai,  
 'Ai mwsel a roddwyd dros dy geg  
 I rwystro caru â thi, bu'n niweidiol i mi,  
 Y dyn trwsgl,  
 20     Blew trist, naws dreiddgar pigyn haidd?  
 Gwae fi mor filain fu'r berth  
 A ddodwyd o amgylch dy drwyn.  
 Mae llawer o fieri  
 24     A'u pigau o gwmpas dy geg di;  
 Llwyn eithin garw ei olwg,  
 Ac ysgall drwg eu ffurf,  
 Blaen caled pig celyn,  
 28     Cilia di oddi yna, ddyn;  
 Pwy a roddodd, hen goed pigog,  
 Cot draenog, dros dy enau?  
 Twyllodrus fel haenen o lwydrew,  
 32     Tyn y blew mileinig o'r gwraidd,  
 W'r melltigatedig, a rho di  
 Dy wyneb mewn pair dadeni;  
 Tyrd i goed hardd y glyn  
 36     Yn ddeunaw mlwydd oed, arwydd teg.  
 Gwnaeth dy farf boen dost i ti,  
 A'th fwstás o rawn morlo brown;  
 Gwaetha'r modd dy famaeth deg  
 40     A'i tyngodd i ti cyn amser marw'.  
 'Mae trysor, gair coeth hyfryd,



Gan gyfaill imi, y mab gorau,  
A bydd y trysor, y trysor o rasel llym a chryf,  
44 Yn ei dorri'n gyflymach nag y tyf.  
Petaet yn dod, [ar] ddull siwrnai gyflym,  
I'r oed arall, [y ferch o] liw plu'r elyrch,  
48 Ni fyddwn yn difetha, gem gwerthfawr disglair,  
Dy foch eto, myn dwyfoch Mair.'

11  
*Dewiniaeth*

- 4 Y ferch lygad ruddell fain,  
Eiliw'r eiry, wyl arwyrain,  
Hud y gwŷr, hoyw wyd a gwen,  
Hil Addaf hael o Lawdden,  
Dewiniaw'dd wyf, nid â'n ddig,  
Dewindabaeth dawn debig.  
8 Deigr afael, deugur Ofydd,  
Dy gael, ferch, diogel fydd.
- 12 Pedeirhawl, fuddugawl fyd,  
A gynnwys ym fod gennyd:  
Un o rodd, mae ynof rus,  
Dy genedl, rai digonus;  
Yr ail, gwedi'r fasnach rwydd,  
Ar gelu oriog eilwydd;  
16 Hoywliw geirw, hael a gerais,  
Haul ei gwedd, trydedd yw trais;  
Nigmars dy fardd ysgarsyw,  
Poed awr dda, pedwaredd yw.  
20 Ni ddiengy, hundy hud,  
Dengoch fi pe diangud!
- 24 Nid rhyfedd yn y trafael  
Am dy gerdd ymy dy gael.  
Nid wyf wladaidd nac eiddil,  
Na gŵr mân yn y gŵyr mil,  
Nac anferth o brifnerth bryd,  
Nac anfonheddig ynfyd,  
28 Na chas, anodd ei cheisiaw,  
Na thlawd, hwde bunt i'th law!

*Ffynonellau*

A—Pen 57, 10 B—Pen 312, iv, 53 C—Pen 49, 18<sup>r</sup> D—Llst 47, 504 E—  
Card 5.44, 291<sup>v</sup> F(a)—Llst 134, 532 (b)—Bangor 6, 471 (c)—BL Add  
14870 [= RWM 53], 356<sup>v</sup> (d)—Card 5.11 [= RWM 33], 330

Priodolir y gerdd i Lywelyn Goch ap Meurig Hen yn llawysgrifau AB, ac i Ddafydd ap Gwilym yn llawysgrifau C–F. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *C* a gar ruddell, *DE* hygar ruddellem, *F* hygar ryddellen. 2 *C–F* eiliw eiry, *A* Seyl arwyrein, *D* eiry r wyl arwy rem, *E* eiry r wyl arwl wenn, *F* ar wyl arwyl wen. 6 *A* Dewindabeth, *BDEF* dewindabath. 8 *C* veur. 13 *A* vasgnach. 17 *AB* nicmars dy vardd ys garsyw. 18 *A–F* pedwerydd. 20 *C* pan, *DE* bai diengyd, *F* vai by diengy. 21 *A* yny orafael. 24 *C* hynny gwyr, *EF* hyn ai gwyr, *D* ef ai gwyr. 25 *DEF* brydferth. 28 *AE* hwdev.

*Dewiniaeth*

Y ferch fain â'r llygad brown,  
 Un lliw â'r eira, moliant [yr un] wylaidd,  
 4 Cyfaredd y dynion, yr wyt yn gain a hardd,  
 Llinach Addaf bonheddig o Lawdden,  
 Yr wyf yn darogan, ni fydd yn troi'n chwerw,  
 Gallu tebyg i swyngyfaredd.  
 8 Achos dagrau, dwbl gur Ofydd,  
 [Yr wyf] yn sicr o'th gael, ferch.

Y mae pedair hawl yn caniatáu  
 I mi gael cyfathrach rywiol â thi, cyflwr buddgol:  
 Un o rodd dy deulu,  
 12 Rhai gwrol, y mae cyffro ynof;  
 Yr ail, ar ôl y cyfnewid hawdd,  
 Ar sail cuddio oed anwadal;  
 Lliw hardd ewyn, cerais un fonheddig  
 16 A'i hwyneb fel yr haul, trais yw'r drydedd;  
 Dewiniaeth dy fardd doeth ei ddidoli  
 Yw'r bedwaredd, boed iddi fod ar awr ffafriol.  
 Ni wnei ddianc, ystafell wely hudol,  
 20 Deg gwae fi pe baet yn dianc!

Ni [fyddai'n] rhyfedd i mi dy gael  
 O ystyried y llafur yn y gerdd i ti;  
 Nid wyf yn ansoffistigedig nac yn eiddil,  
 24 Nac yn w'r mân yn y lle y gŵyr mil amdanaf,  
 Nac yn hyll o ran golwg nerthol,  
 Nac yn daeogaidd wyllt,  
 Nac yn gas, y ferch anodd ei hennill,  
 28 Nac yn dlawd, dyma iti bunt yn dy law!

*Marwnad Lleucu Llwyd*

Llyma haf llwm i hoywfardd,  
 A llyma fyd llwm i fardd.  
 4 E'm hysbeiliawdd, gawdd gyfoed,  
 Am fy newis mis ermoed.  
 Nid oes yng Ngwynedd heddiw  
 Na lloer, na llewych, na lliw,  
 Er pan rodded, trwydded trwch,  
 8 Dan lawr dygn dyn loer degwch.

Y ferch wen o'r dderw brenol,  
 Arfaeth ddig yw'r fau i'th ôl.  
 Cain ei llun, kannwyll Wynedd,  
 12 Cyd bych o fewn caead bedd,  
 F'enaïd, cyfod i fyny,  
 Agor y ddaearddor ddu,  
 Gwrthod wely tywod hir,  
 16 A gwrtheb f'wyneb, feinir.  
 Mae yman, hoedran hydraul,  
 Uwch dy fedd, huanwedd haul,  
 Ŵr llwm ei wyneb hebod,  
 20 Llywelyn Goch, gloch dy glod.  
 Udfardd yn rhodio adfyd  
 Ydwyf, gweinidog nwyf gwyd.  
 Myfi, fun, mwyfwy fonedd,  
 24 Echdoe a fûm uwch dy fedd  
 Yn gollwng deigr lletbeigraff  
 Ar hyd fy wyneb yn rhaff.  
 Tithau, harddlun y fun fud,  
 28 O'r tewbwll ni'm atebud.

Tawedog, ddwysog ddiserch,  
 Ti addawsud, y fud ferch,  
 Fwyn dy sud, fando sidan,  
 32 F'aros, y ddyn loywdlos lân,  
 Oni ddelwn, gwn y gwir,  
 Ardwy hydr, o'r deheudir.  
 Ni chiglef, sythlef saethlud,  
 36 Air ond y gwir, feinir fud,

Iawndwf rhianedd Indeg,  
 Onid hyn, o'th enau teg.  
 Trais mawr, ni'm diddawr o dŷ,  
 40 Torraist amod, trist ymy.  
 Tydi sydd, mau gywydd gau,  
 Ar y gwir, rywiog eiriau,  
 Minnau sydd, ieithrydd athrist,  
 44 Ar gelwydd tragywydd trist.  
 Celwyddog wyf, cul weddi,  
 Celwyddlais a soniais i.

Mi af o Wynedd heddiw,  
 48 Ni'm dawr pa fan, loywgan liw.  
 Fy nyn wyrennig ddigawn,  
 Duw'n fach, petud iach nid awn.  
 Pa le caf, ni'm doraf, dioer,  
 52 Dy weled, wendw' wiwloer,  
 Ar Fynydd, sathr Ofydd serch,  
 Olifer, yr oleuferch?  
 Llwy'r y dihiriaist fy lle,  
 56 Lleucu, deg waneg wiwne.

Riain loywgain oleugaen,  
 Rhy gysgadur ger mur maen,  
 Cyfod i orffen cyfedd  
 60 I edrych a fynnych fedd,  
 At dy fardd, ni chwardd ychwaith  
 Erod dalm, euraid dalaith.  
 Dyred, ffion ei deurudd,  
 64 I fyny o'r pridd-dŷ prudd.  
 Anial yw ôl camoleg,  
 Nid rhaid twyll, fy neutroed teg,  
 Yn bwhwman rhag annwyd  
 68 Ynghylch dy dŷ, Lleucu Llwyd.

A genais, lugorn Gwynedd,  
 O eiriau gwawd, eiry ei gwedd,  
 Llef drioch, llaw fodrwyaur,  
 72 Lleucu, moliant fu yt, f'aur;  
 Â'r genau hwn, gwn ganmawl,  
 A ganwyf, tra fwyf, o fawl,  
 F'enaïd, hoen geirw afonydd,  
 76 Fy nghariad, dy farwnad fydd.

- Cymhennaidd groyw loyw Leucu,  
 Cymyn f'anwylddyn fun fu:  
 Ei henaid, grair gwlad Feiriawn,  
 80 I Dduw Dad, addewid iawn;  
 A'i meingorff, eiliw mangant,  
 Meinir i gysegrdir sant;  
 Dyn pellgwyn, doniau peillgalch,  
 84 A da'r byd i'r gŵr du balch;  
 A'r hiraeth, cywyddiaeth cawdd,  
 I minnau a gymynnawdd.
- Lleddf ddeddf ddeuddawn ogyfuwch,  
 88 Lleucu dlos, lliw cawod luwch,  
 Pridd a main, glain galarchwerw,  
 A gudd ei deurudd, a derw.  
 Gwae fi drymed y gweryd  
 92 A'r pridd ar feistres y pryd!  
 Gwae fi fod arch i'th warchae,  
 A thŷ main rhof a thi mae,  
 A chôr eglwys a chreiglen  
 96 A phwys o bridd a phais bren.  
 Gwae fi'r ferch wen o Bennal,  
 Breuddwyd oer, briddo dy dâl!  
 Clo durdderw, galarchwerw gael,  
 100 A daear, deg ei dwyael,  
 A thromgadr ddôr, a thrymgae,  
 A llawr maes rhof a'r lliw mae,  
 A chlyd fur, a chlo dur du,  
 104 A chlicied; yn iach, Leucu!

### *Ffynonellau*

A(a)—BL Add 14866, 158<sup>r</sup> (b)—Gwyn 3, 159<sup>r</sup> (c)—BL Add 31062, 170<sup>r</sup> (d)—Card 2.40 [= RWM 26], 30 B—Llst 163, 31 C—BL Add 14971 [= RWM 21], 17<sup>v</sup> D—LIGC 5283B, 261 E(a)—Card 5.167 [= Thelwall], 214<sup>v</sup> (b)—LIGC 5265B, 62<sup>v</sup> F(a)—LIGC 1553A, 280 (b)—Card 2.616, 276 G—LIGC 3061D [= Mos 165], 12 H(a)—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 545<sup>v</sup> (b)—J 101 [= RWM 17], 734 (c)—Bangor 704, 80 I—Llst 133, 545 J—LIGC 9857C, 3 K(a)—CM 454, 291 (b)—CM 12, 506 L—CM 129, 31 M(a)—Gwyn 2, 178<sup>v</sup> (b)—Gwyn 13, 27 (c)—BL Add 14874, 278<sup>r</sup> N—Llst 118, 660 O—Llst 6, 13 P(a)—Card 5.44, 274<sup>v</sup> (b)—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 521 (c)—Llst 134, 563 Q—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 52 R—Pen 240, 28 S(a)—LIGC 552B, 23 (b)—LIGC 644B, 128 (c)—Pen 198, 289 T—BL Add 14882 [= RWM 31], 102<sup>r</sup> U(a)—LIGC

2633C, 58 (b)—LIGC 5283B, 31 V—BL Add 14966, 318<sup>v</sup> W(a)—Card 2.114 [= RWM 7], 95 (b)—BL Add 31059, 115<sup>r</sup> X—LIGC 16964A, 16<sup>v</sup> Y—LIGC 3051D [= Mos 148], 98 Z—CM 23, ii, 24 a—Bangor (Penrhos) 1573, 112 b—LIGC 3049D [= Mos 146], 54 c—CM 27, 425 d(a)—CM 5, 434 (b)—Gwyn 5, 54 e(a)—Card 2.68 [= RWM 19], 562 (b)—CM 10, 442 f—LIGC 3038B [= Mos 130], 233 g(a)—Card 4.156 [= RWM 64], 466 (b)—BL Add 14996, 66<sup>r</sup> h—Pen 97, 11 i—Bodewryd 1, 497 j<sup>1</sup>—Bodley Welsh f 2, 76<sup>r</sup> j<sup>2</sup>—Bodley Welsh f 2, 30<sup>v</sup> k—JGE 1B, 8<sup>r</sup> l—LIGC 6471B, 151

Y mae'r gerdd yn anghyflawn yn llawysgrifau *P(c)i-k*, ac yn ddienw yn llawysgrifau *P(c)ff*<sup>i</sup>. Y mae pob llinell yn *h* yn anghyflawn oherwydd traul ar y tudalennau, ac ni nodir darlleniadau'r llawysgrif honno isod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

#### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–4 [*X*]. 2 *O* lle bym gynt hirynt hardd, *P(ab)* lle byom gynt hirynt hardd, *Q* lle bvam gynt helynt hardd, *P(c)RS(ab)dk* lle buom gynt helynt hardd, *S(c)* lle bum i gynt helynt hardd, *WV* lle bvm gynt am helynt hardd. 3–4 [*A-Mbcefgjh*]<sup>1</sup>. 3 *Nd* nim, *OQR* ym, *PSk* am, *T* e am sbeiliawdd, *VW* im, *Sk* diwynawdd. 4 *N* ond vn dewis, *O* om oed, *P* ym oed. 5–6 [*W*]. 6 *DEFHJLMNVcfigj*<sup>1</sup> llewyrch, *OTY-be* na lloer na lleuad, *QRS* na lloer mewn wybr, *U* na lloer goleuad, *d* na lloer na heulwen. 9 *A* derw *OP* brenfol. 10 *ABD-JMNRSV-Yabcej*<sup>1</sup> araith, *Q* araeth, *AFG* oer yw ith ol, *JLce* i wr fae ith ol, *P* vaith ddig i wr fyth yth ol, *T* wyr fai, *Ya* wyrfav, *k* Ar iaith ddig i wr a fai ith ol. 15 *AHe* tyfod tir, *JLOc* o dywod ir. 16 *OQRde* Gwrtheb wrth, *P* Gwrtheb am. 17 *B* anian hoywdran, *CGHINj*<sup>1</sup> yma'n, *E* yna'n, *U* mae weithian, *d* mae ar y lann, *CDEHINcj*<sup>1</sup> hoywdran, *J* yma yn hoiwdrwm, *KVWXe* yma hoywdra, *L* yma ym hoywdrym, *M* yma yn hoewdra yn, *Q* yma ynهدrem hoiwdraul, *S* yna ym hydrym hoiwdraul, *TYZab* i mae ym hoywdrym, *f* yma hwyra, *g* Tyrd yma hydra hoewdrael, *i* yma hyra hoywdraul, *DFGLTYZaefg* hydrael. 18 *B-EGUVb* huanedd, *HIKNj*<sup>1</sup> hoyw annedd, *Jc* hoyw heulwedd, *L* wawr hoywedd, *M(ab)* heuanedd, *M(c)* hen anedd, *Q* hvan arwedd, *Sfi* hoiw olwedd, *TYZa* rhianedd, *W* hevlwedd, *X* hoyw fonedd, *e* hualedd, *g* y bedd yr hoewedd, *DFGLTYZaefg* hael. 19–20 [*fgi*]. 19 *A-DFHIMNOPRSdj*<sup>1</sup> Llwm yw fy, *Ee* Trwm yw fy, *TYZa* wr prudd. 21 *OP* ryw ydfardd. 22 *BFIJLMVWXZabefgj*<sup>1</sup> ydwy, *A(a)* gwenidognwyf, *A(bcd)* gweinidowgnwyf, *BVW* gwinydowgnwy, *CDR* gwenidowgnwyf, *E* o gydowgnwyf, *FTZa* gwenidowgnwy, *O* gwenidawg wyf, *P* genidawgnwyf, *Q* ynwyf, *S* gwen i dowglwy y gyd, *U* gwinedowg, *b* gweinidow gynwy, *e* gwannidowgnwy, *X* ydwy a reol docnwydyd, *G* cyd bwyf yn y byd, *L* cyd bwy yn y byd, *cfkyd* i bwy/n/ y byd, *IJMdij*<sup>1</sup> hyd y bwy'n y byd, *g* tra bwy yn y byd, *HK* O Duw gwyn hyd hynn o hyd. 23 *O* fwyfwy. 24 *JQS-bdefij*<sup>2</sup> fu. 25–8 [*g*]. 25 *VWY-bj*<sup>2</sup> wylo, *f*



yn wyllo am wawr arail, *g* oer wylaw am wawr arail, *QR* lledpeigygraff, *b* llet beigr Raff, *Aza* llideigrbraff, *Y* llidegrbraff, *BF-İK-NTcj*<sup>1</sup> lledideigrbraff, *CDJi* lledideigrgraff, *e* lled-ddeigrgraff, *Ej*<sup>2</sup> lledideigrgraff, *X* lledigygraff, *d* lledig graff, *O* llygaid baigr graff, *P* bvn aigrbraff, *S(ab)* lledgrbraff, *S(c)* lledideigraph, *U* llideigrgraff, *VW* llathreigrgraff. 26 *ABFGJQRcei* yr wyneb, *E* y ddevrvdd, *X* fy nevrdd, *fg* Gwae fi or loes nis oes d'ail. 29–34 [*fg*]. 29 *OPd* dday serch. 31 *TYZa* fwyndo sud feindw. 32 *BDLMNQ* F'aros ddyn, *CDPRSTVWY-be* Fy aros ddyn, *EU* F'aros ddyn oleudlos, *i* F'aros dyn oleudlos, *O* varos vyn olaydlos, *F* hoywdlos. 34 *O* ar dwy, *EG* ar dy hydr, *BCDFHIJLMNSU-Xcdij*<sup>1</sup> ar dy hyder, *K* er dy hud, *PQRTYZab* ar dy hoedl, *e* da hyder. 35–8 [*O*]. 35 *BCDF-KNSTVWY-bj*<sup>1</sup> ni chigle, *L* ni chele, *P* nyhydle, *fgi* ni thraethe, *G-NSTX-acj*<sup>1</sup> sythle, *BCDFPUBde(b)g* seithle, *e(a)f* saethle, *E* sathlef, *AFGLRSXfgi* seithlud, *BCDPUBde* sythlud, *M* sathrlud, *V* wythle eithlvd, *W* wythle ieithlvd. 36 *HIKMNUdij*<sup>1</sup> air na bai wir, *JLRSefg* air ni bai wir, *Q* air nibon wir, *P* ar na bai wir yny byd, *VW* ar na bai wir. 37–40 [*fg*]. 37 *QRS* wendw, *P* vaindwf riain addfwyndeg, *Xd* feindw rhianedd fwyndeg, *S* feindeg. 39–46 [*e*]. 39 *ACER* ac nim dawr am, *P* ac nim dawr o, *BDFGMj*<sup>1</sup> nim dawr am, *TYZai* nim dawr o, *Q* nim dyawr o, *HIKN* nim tawr itti, *S* nim tawr om, *UVWX* nim diddawr am, *b* om diddawr dy. 41–6 [*e*]. 41 *fg* Chychwi, *i* chwi, *IRTYab* y sydd, *OP* a sydd, *A(ad)BCEGLNUVWci* gywydd gan, *Xfg* ar gywydd gan, *H* mewn gwydd gwan, *I* mau gwydd gwan, *K* yn y gwydd gwan, *P-T* gelfydd gan, *O* gelfydd glan, *Za* kelfydd kan, *Y* celfydd cau, *d* gelfydd gav. 42 *A(ad)CEFGRU* eirian, *BVW* indec eirian, *J* vn deg eiriau, *HIKMNTXj*<sup>1</sup> ddyn deg eirian, *LS(c)c* ewig eirian, *S(ab)* enwir eirian, *OPQZa* enwog eirian, *Y* enwog eiriau, *b* mav wg eiriau, *d* evrog eiriau, *fi* eurawg anian, *g* eurawg eirian. 43–4 [*A-JXfgij*<sup>1</sup>]. 43 *KSc* uthrydd, *L* minnau'n uthrydd mae'n athrist, *MNOPRd* ieithydd, *T* eithydd, *YZa* eithrydd. 45 *B-FH-NT-acj*<sup>1</sup> celwyddog iawn, *G* celwyddog mewn, *S* celwyddog ywr, *fgi* celwyddog om. 46 *E* kowyddlais am siomais i. 47 *O* y wynedd. 48 *B-EHJL-PR-UX-acej*<sup>1</sup> le loywle, *Q* le loiwlef, *b* lef loywlef, *i* i ble loiwle, *K* ba faenawr i fyw, *fg* pan waeth i ble loiwle. 49 *F(b)HIKLOP(b)UWgj*<sup>1</sup> fy nyn, *MN* y ddyn, *AFGW(a)i* gwyrennig, *f* gowreinig, *g* gowraindeg degiawn, *T* gyredig, *X* am vn wyreig *EHIKj*<sup>1</sup> fonheddig, *L* wriog ddiogawn. 50 *AFd* pe baid fyw myn Duw nid awn, *LRC* ddyn fach, *OPVW(b)b* yn iach bai baid iach, *Q* yn fach petud (*cyw.* duw yn fach), *W(a)* y mach, *T* duw bach, *Ya* rro duw fach, *CDEG-JMNUej*<sup>1</sup> nad awn. 51–4 [*d*]. 51–62 [*e*]. 51 *CD* ple kaf o toraf ty oer, *OU* dayraf, *QS* ym dayraf, *T* nid ym dayra, *P* duw ble kaf, *fg* ple cae i wen olai wiwloer. 52 *A* wendwf, *E* hardddw, *OPU* ayr dwf, *QR* evrdw, *T* awr dv, *N* diav wiwloer, *X* wiwdw loiwloer, *YZa* wenn dowaid loer, *fg* yr oleiloer. 53 *B-EUVX-bfg* ai ar, *CU* sathr fydd, *Ya* sathrvdd, *f* sarth rofydd ferch, *g* ai ar fynydd y fwynferch. 55 *ACGHINVCj*<sup>1</sup> diheuraist, *DFKMW* deheuraist, *b* dyheuraist, *JL* heurest, *VW*<sup>2</sup> hehiriaist, *EOP* difwynaist, *QRS* diwynaist, *T* Rowyr y

dirwyast, *U* dyhiriaist, *fg* dihirodd, *B* digeraist, *d* diffeithiest, *BEH-NQSV-Ycdj*<sup>1</sup> llef. 56 *ADGP(a)RTg* wine, *BEH-NQV-Ycdj*<sup>1</sup> wiwnef, *S* winef. 57–8 [fg]. 57–66 [*d*]. 57 *AR* Rhan loiw-gu rhin oleu-gain, *B* loywgai o lygain, *C* lygaid oleugain, *U* loywgain *DST* loywgain olygain, *E* ac wrthyf fi fy riain, *FG* loywgu, *L* liwgalch, *H* liw calch oleugain, *INcj*<sup>1</sup> liwgalch oleugain, *J* liwgalch olygain, *K* Liwgalch riain oleugain, *MVYZa* loywgar olygain, *O* wiwgain, *Q* olygain, *W* Riaid loywgaid o lygain, *X* loiwlon olygeu loiwgain, *b* olygon loywgain. 58 *AFGP(b)RU* mewn mur, *OP(ac)* ny myr, *B-EJLMXc* drwyr mur, *HIKNVj*<sup>1</sup> or mur, *S* dan y mur, *T* gwavr mvr, *QWb* gaer mur, *YZa* gar mur, *A-EH-KMNO-TV-cj*<sup>1</sup> main. 60 *TUVW* kyd bych o vewn kayad bedd. 63–72 [fg]. 63 *LYZ* dirion ei, *IMNSTj*<sup>1</sup> sidan ei, *Oa* wnion ei, *e* feinion ei. 65–8 [*e*]. 65 *B-EIJM-PSTVWYacj*<sup>1</sup> aml, *F(a)* amyl, *F(b)L* amal, *U* anaml, *G* mae'n aml, *OPS* fydd, *QR* amlwg fydd, *E* ydyw, *H-Lcj*<sup>1</sup> fol, *PTVZ* yn ol, *B-CDJWW* cynoleg, *c* kanoleg, *E* kanoldeg, *HIKNj*<sup>1</sup> canmoleg, *L* canmoldeg, *OUZb* kynolig, *Q-S(ab)TYa* canolig, *P* kynfolig, *X* am y lyw oel kamileg. 66 *JKLRTY-c* nid er twyll, *OP* arnad twyll, *Q* er nad twyll, *ACDF-IMNQRTUVX-bj*<sup>1</sup> neudroed, *P* nwydroed, *JKLc* ith ddeudroed, *OQUYZa* tig, *PRb* dig, *S(ab)* mab medrod dic, *S(c)* fel nedrod. 71 *E* llef dreiaw *UV* llef deiriaith, *W* llef diriaith, *IOPTj*<sup>1</sup> vodrwyair. 72 *OP* vair, *HIJ* yn moliannu mair, *T* molianv fv mair, *JKLc* yn llawenu lliw aur, *VW* llywenv llv avr, *YZ* foliant tyfiant aur. 75–6 [*b*]. 75 *O* geirw vynydd. 77–8 [*QRSfg*]. 77 *OPUD* kymheniaith, *T* kynheiniaith, *e* kwmniaeth, *Za* kymen hedd, *b* kymen dir. 78 *BCDHIJNcj*<sup>1</sup> i chymyn fanwylddyn fu, *E* i gymyn fanwylddyn fu, *K* ei chymyn anwyl fun fu, *L* ai chymyn fanwyl fun fu, *M* ith orchymyn fanwylddyn fu, *U* cymyn yt fanwylddyn fu, *e* genyd fanwyld ym fu, *TV-Z* fanwyl grair forwyn fair fu, *ab* anwyl grair forwyn fair fu. 79 *LMOQRSVYZbcd* ai henaidd, *U* aed denaidd. 81 *AFG* mwyngorff, *AFGL* meingant, *OQRS* mayngant, *VWYZa* mwyngant, *b* enw mwyngaint. 83–90 [fg]. 83 *INj*<sup>1</sup> dyn bwyllgain doniau beillgalch, *LM* dyn peillgwyn, *QR* dyn peysgwyn donioc peysgalch, *S* dynpwyllgamp doniog pellgalch, *TUbl* dan y peillgalch, *X* dan y pwyllgalch, *VW* dyn pellgof dan y pyllgalch, *YZ* dyn peillgwyn dan y pillgalch, *a* dyn peillgwyn dan y peillgalch, *d* dyn pwyllgamp, *e(a)* dyn pwyllgv dan y peillgalch, *e(b)* dyn pwyllgo dan y peillgalch. 84 *EUD* da byd. 85 *A* a'i hiraeth, *UW* a hiraeth, *EIQRS* Sc gywyddiaeth gawdd, *HMN* gawdduwaeth gawdd, *T* kymeiniaeth, *Y* gwyddoliaeth gawdd, *Z* gwddoliaeth gawdd, *a* gowddoliaeth gawdd, *b* gyhowddoliaeth gawdd, *U* a hiraeth drwy alaeth drud. 86 *El* ddamwyniaudd. 87–94 [*ef*]. 87 *ACF-KMNSTUc* ddeuddaint, *E* ddeuddant, *B* ddeukant, *D* ddevrvdd, *L* ddeuddar, *VW* ddiddawn, *Ya* lletty diddv diddawn, *Z* lletty ddyddy ddiddan, *b* ddiddan, *OP* gyfywch. 89–90 [*OP*]. 89 *JLQRS* a phridd, *BCDWj*<sup>2</sup> gain galarchwerw, *Q-T* glaerchwerw, *E* glaerchwerw, *YZa* goleuchwerw. 91–2 [*W*]. 91 *CDEKPU* drymder, *B* yw gweryd, *DHIVXY* ywr gweryd, *O* vyr gweryd. 93–6 [fg]. 93 *OP* mewn gwarchae. 94 *BDEWV* a tho

main, *CI* a tho maen, *FG* a thof main, *HNC* maen, *OPYZab* a llawr maen rof ar lle mae, *Q* ar llawr maen rof ar lle y mae, *Tj*<sup>2</sup> a llawr maes rhof ar lle mae. 95–6 [*A-KMT-befgj*<sup>2</sup>]. 97–8 [*ESde*]. 98 *A* breuddwyd dig, *BCDLNTVX* breuddwyd oedd, *M* breuddwyd oedd ym, *HK(b)g* breuddwyd yw, *YZacf* breuddwyd ym, *FG* brudded wyf, *I* brudded oedd, *Jb* brudded ym, *K(a)* brudded yw, *U* Gwedd didolk guddio dy dal. 99–104 [*fg*]. 99 *A* durderw, *T* ddurderw *NR* dur derw, *EKc* du derw, *c* a chlo du derw, *HJLUVWj*<sup>2</sup> dudderw, *CDM* clo derw, *b* a chlo derw, *G* clo chwerw, *I* clo du chwerw, *O* ochae derw achwerw chwael, *P* a chae derw yn chwerw ywch ael, *QS* a chav derw chwerw chwael, *X* klof daiar falch galch ar gydd, *d* rhwymwyd mwynderw gloyw gerw gael, *e* Klymu derw garw chwerw chwael, *b* chwael. 100 *EMTVWj*<sup>2</sup> rhof ai dwyael, *YZa* ar i dwyael, *X* a derw rrof ai dwy rydd. 101–2 [*Gde*]. 101 *A-F-K(a)LMNTUVYbc* thromgad, *Zaj*<sup>2</sup> thrymgad, *K(b)* thromgoed, *O* thromgain, *l* thromgain ddu, *P* thrymgain *Q* thrymgaer, *S* thrymgaer, *X* thromgod dderw, *AR* thrymgai. 102 *AR* a lliw'r Mai, *L* a lliw'r mae, *BEFH-Kc* ai lliw, *Y* a llawr maen rhof a'r lle i mae, *M-QSXI* a thy maen rhof a thi mae, *TUbj*<sup>2</sup> a tho main rrof a thi mae, *VWZa* a tho maen rof a thi mae. 104 *AOP* cliced.

### *Trefn y llinellau*

*A* 1–2, 5–42, 45–94, 97–104. (Ysgrifennwyd 73–6 ar ôl 56 yn wreiddiol yn *A(a)*, a'u dileu wedyn gyda'r nodyn *fe roisid allan oi lle yn y copi*.)  
*BCD* 1–2, 5–42, 45–56, 73–6, 57–72, 77–94, 97–104.  
*E* 1–2, 5–42, 45–56, 73–6, 57–72, 77–94, 99–104.  
*F* 1–2, 5–26, +4, 27–42, 45–88, +2, 89–94, 97–104.  
*G* 1–2, 5–26, +4, 27–42, 45–88, +2, 89–94, 97–100, 103–4.  
*HIJ* 1–2, 5–20, +2, 21–42, 45–54, +2, 56, 55, 73–6, 57–72, 77–94, 97–104.  
 (70 yn eisiau yn I.)  
*K* 1–2, 5–20, +2, 21–54, +2, 56, 55, 69–70, 73–6, 57–8, +2, 59–72, 77–94, 97–104.  
*L* 1–2, 5–20, +2, 21–54, +2, 56, 55, 69–70, 73–6, 57–8, +2, 59–60, 63–4, 61–2, 65–8, 71–2, 77–88, 97–8, 91–6, 99–100, 89–90, 101–4.  
*M* 1–2, 5–20, +2, 21–6, +4, 27–42, 45–6, 43–4, 47–54, +2, 56, 55, 73–6, 57–72, 77–94, 97–104.  
*N* 1–20, +2, 21–6, +4, 27–42, 45–6, 43–4, 47–54, +2, 58, 57, 73–6, 57–72, 77–94, 97–100, 95–6, 101–4.  
*O* 1–4, 71–2, 9–22, 29–34, 39–54, 77–88, 55–6, 69–70, 73–6, 57–60, 63–4, 61–2, 65–8, 23–6, +2, 27–8, 5–8, 97–100, 91–6, 101–4.  
*P* 1–4, 71–2, 9–22, 35–8, 29–34, 39–54, 77–88, 55–6, 69–70, 73–6, 57–60, 63–4, 61–2, 65–8, 23–6, +2, 27–8, 5–8, 97–100, 91–6, 101–4. (Llinellau ar ôl 68 ar goll yn *P(c)*.)  
*QR* 1–4, 71–2, 9–22, 35–8, 29–34, 39–54, 83–6, 79–82 (79–80 wrth yr ymyl yn Q), 97–8, 55–6, 69–70, 73–6, 57–8, +2 (wrth yr ymyl yn Q), 59–

- 60, 63-4, 61-2, 65-8, 23-8, 5-8, 97-8, 91-6, 101-2, 99-100, 89-90, 103-4.
- S* 1-4, 71-2, 9-22, 35-8, 29-34, 39-54, 83-6, 79-82, 97-8, 55-6, 69-70, 73-6, 57-8, +2, 59-60, 63-4, 61-2, 65-8, 23-8, 5-8, 97-8, 91-6, 99-100, 89-90, 103-4. (62 yn eisiau, a 1-4, 71-2, 9-10 ar goll yn *S(b)*.)
- T* 1-20, 35-8, 29-34, 39-50, 21-2, 51-6, 73-6, 57-8, +2, 59-72, 77-88, 23-8, 89-94, 97-104.
- U* 1-14, 63-4, 15-20, 35-8, 29-34, 39-50, 21-2, 51-4, 56, 55, 73-6, 57-8, +2, 59-62, 65-72, 77-88, 23-8, 89-94, 97-104.
- V* 1-6, +2, 56, 55 7-8, 11-12, 9-10, 13-20, +2, 35-8, 29-34, 39-48, +2, 49-50, +4, 21-2, 51-6, 73-6, 57-8, +2, 59-72, 77-88, 23-6, +4, 27-8, 89-92, +2, 93-4, 97-104.
- W* 1-4, +2, 56, 55, 7-8, 11-12, 9-10, 13-20, +2, 35-8, 29-34, 39-50, +4, 21-2, 51-2 (53-4 wrth yr ymyl mewn llaw ddiweddarach), 55-6, 73-6, 57-8, +2, 59-72, 77-88, 23-6, +4, 27-8, 89-90, +2, 93-4, 97-104 (53-4 a 55-6 heb fod yn *W(b)*).
- X* 5-20, +2, 35-8, 29-34, 39-42, 45-50, +4, 51-4, 56, 55, 97-8, 73-6, 57-72, 77-82, (47-8 wedi'u dileu), 83-8, 23-6, +4, 27-8, 89-94, 99-100, +2, 101-4.
- YZab* 1-20 (3-4 yn eisiau yn *b*), 35-8, 29-34, 39-48, +2, 49-50, 21-2, 51-4, 93-4, 97-8, 55-6, 73-6, 57-8, +2, 60-72, 77-88, 23-6, +4, 27-8, +2, 89-92, 99-104.
- c* 1-2, 5-20, +2, 21-54, +2, 56, 55, 69-70, 73-6, 57-8, +2, 59-60, 63-4, 61-2, 65-8, 71-2, 77-88, 97-8, 91-6, 99-100, 89-90, 101-4.
- d* 1-4, 56, 55, 5-22, 67-8, 47-50, 23-6, +4, 27-34, 39-46, 35-8, 99-100, 95-6, 103-4, +2, 77-8, 81-2, 79-80, 85-6, 83-4, 69-76.
- eh* 1-2, 5-10, 13-14, 63-4, 15-16, 11-12, 17-22, 47-50, 23-38, 69-70, 73-6, 71-2, 77-86, 99-100, 103-4.
- f* 1-2, 5-18, 21-8, 35-6, 41-2, 45-50, (51-4, +2, 56, 55, 73-6 wrth yr ymyl), 59-62, 79-82, 91-2, 97-8.
- g* 1-2, 5-18, 21-4, +2, 27-8, 35-6, 41-2, 45-50, (51-4, +2, 56, 55, 73-6 wrth yr ymyl), 59-62, 79-82, 91-2, 97-8.
- i* 1-18, 20-42, 45-50, gweddill ar goll.
- j*<sup>1</sup> 1-2, 5-20, +2, 21-42, 45-54, +2, 56, 55, 73-6, 57-72, 77-84, gweddill ar goll
- j*<sup>2</sup> 85-8, 23-6, +4, 27-8, 89-94, 98, 97, 99-100, +2, 101-4.
- k* 1-4, 71-2, 9-10, gweddill ar goll.
- l* 101-2, +4, 77-86, 69-76.

Ar ôl 26 yn *FGMNV-bd* (ceir yr ail gwpled cyn 77 yn *l*):

Crychnaint llon o'r ffynhonnaedd  
 O'r pen mau er poen ym oedd.  
 Ni sych y grudd digrudd dawn  
 Gan naws deigr gwniais digawn.

(1  $Vj^2$  krychnaid,  $W$  krychnaidd,  $X$  krychav yn llon,  $FGNd$  fal ffynhonoedd,  $MX$  o ffynhonoedd. 3  $F$  digrudd iawn,  $G$  ddigrydd iawn,  $N$  maen oerddig iawn,  $VW$  ni sych grvdd dv mewn greddf dawn,  $X$  ni sych grydd dyn mewn gradd daw,  $bj^2$  ni sych grvdd dv mewn gradd dawn,  $l$  ni thrig grudd dig mewn gr[ ],  $d$  ni sych grydd wg arddig iawn. 4  $MN$  gen ias deigr,  $VWj^2$  gwanas deigr,  $l$  gwanais deigr,  $X$  may naws deigr ym nes digiaw,  $d$  gwn ias deigr,  $YZa$  gwnn nas digiawn,  $bj^2l$  gwn nas digawn.)

Ar ôl 20 yn  $H-NVWXcj^1$ :

Yn cynnal hyd tra canwyf  
Cariad amddifad ydd wyf.

(1  $H$  nid ymkanwyf,  $IVWj^1$  nid da'i canwy,  $MN$  kwynwyf,  $X$  ni at kanwy. 2  $J-Ncj^1$  ymddifad,  $HIVWX$  ymddiddad.)

Ar ôl 28 yn  $YZab$ , ar ôl 50 yn  $VWX$ , ac ar ôl 88 yn  $FG$ :

Lloer wyneb dihareb dioer,  
Pell ydwyd mewn pwll lledoer.

Ar ôl 48 yn  $VYZab$ :

Ai i ben mynydd celfydd cain,  
Olifer dan wylofain.

(1  $V$  af ir mynydd cevydd,  $b$  i ben mynydd koelfydd kain.)

Ar ôl 54 yn  $H-Ncfcj^1$ , ar ôl 58 yn  $K^2 L^2 Q-WY-c^2$ :

Riain fain, rhy anfynych  
Y'th wela', ddyn wiwdda wych.  
(Cf. GDG<sup>3</sup> 119 (44.7-8))

(1  $H-Ncj^1$  f'enaid yno'r a'n fynych,  $fg$  fenaid yno i do i'n fynych. 2  $HIK-Ncj^1$  o'th wela,  $J$  ath wela,  $f$  Ith weled waith olau wych g I weled wenn leuad wych.)

Ar ôl 4 yn  $VW$ :

Mau gof er nad mi a'i gofyn  
Och ba holai y fai fun.

(1  $V$  nid may gofyn,  $W$  gyfyn.)

Cyn 21 yn *VW*:

Ni ddorwn, gwn gyni,  
Y byd oll oni bai di.

Ar ôl 90 yn *VWXj*<sup>2</sup>:

A gwrymdir ac oer amdo  
A phrudd grys a phridd a gro.

(1 *VWX* gwyrandir.)

Ar ôl 104 yn *d*, ac ar ôl 102 yn *l*:

Damweiniodd Duw ym anun,  
Diwedd amynedd am un.

(1 *d* damunodd. 2 *l* fy munedd.)

Ar ôl 24 yn *g*:

Oer wylaw am wawr arail,  
Gwae fi o'r loes nid oes d'ail.

*Marwnad Lleucu Llwyd*

Dyma haf diffaith i fardd llon,  
 A dyma fyd diffaith i fardd.  
 Amddifadodd mis fi o'm hanwylyd  
 4 Am weddill fy oes, cydymaith dicter.  
 Nid oes yng Ngwynedd heddiw  
 Na lleuad, na llewyrch, na lliw,  
 Er pan roddwyd merch mor hardd â'r lleuad  
 8 Dan lawr caled, lletygarwch trist.

Y ferch wen o'r gist dderw,  
 Tynged chwerw yw'r eiddof ar dy ôl.  
 [Yr un] hardd ei golwg, kannwyll Gwynedd,  
 12 Er dy fod mewn bedd caeedig,  
 F'anwylyd, cyfod i fyny,  
 Agor ddôr ddu y ddaear,  
 Ymwrthod â gwely hir o dywod,  
 16 Ac ateb f'wyneb, lances hardd.  
 Y mae yma, gofid difaol,  
 Uwch dy fedd, gwedd ddisglair yr haul,  
 W'r trist ei wyneb hebot,  
 20 Llywelyn Goch, cloch dy foliant.  
 Bardd cwynfanus yn rhodio byd diffaith  
 Ydwyf, gwas chwant pechadurus.  
 Myfi, ferch, bonedd ar gynnydd,  
 24 A fûm uwch dy fedd echdoe  
 Yn gollwng dagrau pendrwm dyfal  
 Ar hyd fy wyneb fel rhaff.  
 Tithau, ffurf hardd y ferch fud,  
 28 Ni'm atebit o'r bedd praff.

Tawedog, difrifddwys anhawddgar,  
 Y ferch fud, yr oeddit wedi addo,  
 32 Mwyn dy ddull, gwisg sidan fân,  
 Aros amdanaf, y ferch dlos ddisglair a hardd,  
 Nes i mi ddod, gwn y gwir,  
 Nawdd cadarn, o'r deheudir.  
 Ni chlywais, llef syth sy'n glynu fel saeth,  
 36 Air ond y gwir, y ferch hardd fud,  
 Ffurf dda merched Indeg,  
 Heblaw hwn, o'th enau teg.  
 Gorthrwm mawr, ni waeth gennyf am dŷ,  
 40 Torraist amod, [peth] trist imi.

Tydi sydd, ffals yw fy nghywydd,  
 Yn dweud y gwir, geiriau cywir,  
 Minnau sydd, un huawdl truenus,  
 44 Yn dweud celwydd tragwyddol trist.  
 Celwyddog wyf, gweddi gyfyng,  
 Lleferais â llais celwyddog.

Mi af o Wynedd heddiw,  
 48 Ni waeth gennyf i b'le, lliw gwyn disglair.  
 Fy nghariad ddigon nwyfus,  
 Myn Duw, petaet yn iach nid awn.  
 Pa le y caf, ni waeth gennyf, yn wir,  
 52 Dy weld, lloer wych deg ei ffurf,  
 Ar Fynydd yr Olewydd,  
 Dinistr serch godinebus, y ferch ddisglair?  
 Llygraist fy lle yn llwyr,  
 56 Lleucu, lliw gwych ton hardd.

Y ferch ddisglair [a] chain â'r croen golau,  
 Rhy gysglyd ger y mur carreg,  
 Cyfod i orffen cyfeddach  
 60 I weld a wyt ti am gael medd,  
 At dy fardd, ni chwardd ef ychwaith  
 O gwbl o'th achos di, garlant euraid.  
 Tyrd, y ferch â'r gruddiau o liw'r ffion,  
 64 I fyny o'r tŷ pridd blin.  
 Diffaith yw ôl camau  
 Fy nhraed teg, nid rhaid twyllo [bellach],  
 Yn mynd a dod oherwydd oerfel  
 68 O gwmpas dy dŷ, Lleucu Llwyd.

[Pob dim] a genais, llusern Gwynedd,  
 O eiriau cerdd, y ferch â golwg fel eira,  
 Gwaedd o dair ochenaid, llaw â modrwy aur,  
 72 Lleucu, moliant fu i ti, fy nhrysor;  
 Â'r geg hon, medraf ganmol,  
 [Pob dim] a ganaf o fawl, tra byddaf fyw,  
 F'anwylyd, lliw berw afonydd,  
 76 Fy nghariad, dy farwnad fydd.

Lleucu goeth bur [a] disglair,  
 Ewyllys fy nghariadferch annwyl fu:  
 Ei henaid, trysor gwlad Feirion,



- 80 I Dduw Dad, addewid dda;  
 A'i chorff main, lliw tebyg i'r blawd gwyn mân,  
 Main a hir i dir cysegredig sanctaidd;  
 Merch a galar hir [amdani], nodweddion [yr un mor] galchwyn  
 [â'r] paill,
- 84 A da'r byd i'r gŵr du balch;  
 A'r hiraeth, [deunydd] prydyddiaeth poen,  
 A adawodd i minnau.
- 88 Arfer dyner gystal â dwy fendith,  
 Lleucu dlos, lliw cawod eira,  
 Pridd a meini, [un fel] trysor y mae galar chwerw amdani,  
 Sy'n gorchuddio ei gruddiau, a derw.  
 Gwae fi drymed y tywarch
- 92 A'r pridd ar arglwyddes yr harddwch!  
 Gwae fi fod arch yn dy amgylchynu,  
 A bod tŷ cerrig rhyngof a thi,  
 A changell eglwys a llen o graig
- 96 A phwys o bridd a gwisg bren.  
 Gwae fi'r ferch wen o Bennal,  
 Gweledigaeth drist, roi pridd ar dy dalcen!  
 Clo derw caled, caffaeliad chwerw ei alar,
- 100 A daear, teg ei haeliau,  
 A drws trwm [a] chadarn, a rhwymyn trwm,  
 A llawr y ddaear sydd rhyngof a'r lliw,  
 A mur cysgodol, a chlo dur du,
- 104 A chlicied; ffarwel, Leucu!

## *Atodiad*

### *I Hywel Sele ap Meurig Llwyd o Nannau*

- 4           Ai gwir y chwedl ni'm gweryd?  
          Os gwir o beth ys gwae'r byd.  
          Braisi mawr lle y brwysga medd,  
          Briwo enaid bro Wynedd,  
          Hoywal y glod, hoywlyw glân,  
          Hywel deg hael diogan,  
8           Mab, diaschwaen wrth faendwr,  
          Meurig Llwyd, mawr wiwgall wr,  
          Wyr erfai, cryr arfoll,  
          Yn yr ddoeth a'n urddodd oll.
- 12           Gwrdd oedd dros hwn, gwn ganmawl,  
          Gwynedd oll gan y ddeddf fawl,  
          Wyneb y wledd, ni bu wlad  
          Gystal â hon pe gwastad.  
16           Dodais ar ffyrdd Ardudwy,  
          Ennyd fawr, eniwed fwy,  
          Eu dryced wrth gerdded gwrdd,  
          Gwaeth marchogaeth march agwrdd.  
20           Pan ddansangawdd, cawdd fu'r cwyn,  
          Gorwyddfarch y gwr addfwyn,  
          Gwrdd grair a roes gwyrdd a gra,  
          Gwiw funer, gwae fi yna  
24           Na bai Ffordd, wyneb y ffawd,  
          Elen dan gwbl o'i aelawd.
- 28           Gwŷr yr Israel a'i gwerin,  
          Gwareddog weilch garddau gwin,  
          Er hoffter i'r mawrNer mau  
          A fwriodd gynt yn forau  
          Gweau porffor gwiw perffaith  
          O flaen Duw ar ei flin daith,  
          A'r tlodion ffyddlon eu ffydd  
32           Nawaith yn bwrw o newydd  
          Welltau erber wyllt eurbaen,  
          Sarnau o flodau o'i flaen.

- 36 Gwn wawd, o'm tafawd y tyf,  
Gwn mai rhyfeddach gennyf  
Yno na wnâi glêr Wynedd  
I Hywel, fab hael o'i fedd,  
Ar gyfair ei loyw esgair lân
- 40 A'i sawdl wen o sidan,  
Da y gweddai cyn dig oddef,  
Sarn aur dan ei siwrnai ef.
- 44 Doeth arnaf, bruddaf fu'r braw,  
Doe o'i ddolur dydd wylaw.  
Mygr Hywel, goruchel gâr,  
Mynnwn, od gwn wawd gynnar,  
Pe arnaf, cas anaf cur,
- 48 Ydd elai ran o'i ddolur.  
Mair Forwyn, er llwyr ddwyn lles,  
Mau ddeigr, a fo meddyges.  
Mawr fo, lle myn iro Mair,  
Myrr a wisg am yr esgair.
- 52 Esgair fy mhaun a'r ysgall  
Pe cawn yn un llun â'r llall,  
Bodlon rhag llaw, ni'm daw dig,  
Fyddwn i waith ei feddig.
- 56 Dyfod Selyf ap Dafydd,  
Dwyoch fi onid iach fydd.  
Dawn a fydd, dianaf fo,  
Duw nef a'i dianaf o.
- 60

*Ffynhonnell*  
Wy 1, 165

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 111–17.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

19 ddangosawdd. 23 wyneb y ff[ ]. 24 aela[ ]. 47 c[ ] anaf cur. 48 [ ] d elai. 53 iscall.

*I Hywel Sele ap Meurig Llwyd o Nannau*

Ai gwir yw'r hanes na fydd o les i mi?  
 Os gwir ydyw, gwae'r byd o'r herwydd.  
 Grymus [a] mawr lle y meddwa medd,  
 4 Clwyfo enaid bro Gwynedd,  
 Llif y clod, arglwydd bywiog pur,  
 Hywel hardd bonheddig digerydd,  
 Gorchest rhyfel o flaen tŵr maen,  
 8 Mab Meurig Llwyd, gŵr mawr da [a] doeth,  
 Wyr gwych Ynyr doeth, pennaeth cynghrair,  
 A'n hurddodd ni i gyd.

Cadarn dros hwn, medraf ganmol,  
 12 Oedd Gwynedd gyfan yn ôl defod moliant,  
 Wyneb y wledd, ni bu gwlad  
 Gystal â hon pe bai'n wastad.  
 Edliwiais i ffyrdd Ardudwy,  
 16 Ennyd fawr, niwed mwy,  
 Mor ddrwg oeddynt wrth gerdded yn gadarn,  
 Gwaeth yw marchogaeth march cryf.  
 Pan sathrodd, poen fu'r gŵyn,  
 20 March y gŵr dewr,  
 Trysor grymus a roddodd [ddillad] gwyrdd a ffwr,  
 Pendefig da, gwae fi yna  
 Na bai Ffordd Elen, wyneb y dynged,  
 24 O dan holl aelodau.

Gwŷr Israel a'i phobl,  
 Gweilch gostyngedig gwinllannau,  
 Er ymffrost i'm Harglwydd mawr  
 28 A fwriodd gynt yn gynnar  
 Ddefnydd porffor teilwng perffaith  
 O flaen Duw ar ei daith flin,  
 A'r tlodion ffyddlon eu ffydd  
 32 Yn bwrw naw gwaith o'r newydd  
 Dail llwyn gwyllt y palmwydd,  
 Palmentydd o flodau o'i flaen.  
 Gwn foliant, o'm tafod y tyf,  
 36 Gwn mai rhyfeddach gennyf  
 Yno na wnâi beirdd Gwynedd  
 Balmant aur i Hywel dan ei daith,  
 Dyn ifanc sy'n rhoi'i fedd yn hael,

- 40 Ar gyfer ei esgair ddisglair hardd  
 A'i sawdl wen o sidan,  
 Buasai'n briodol iawn cyn [iddo] ddioddef yn chwerw.
- 44 Daeth dydd galaru arnaf ddoe  
 Oherwydd ei anaf, trist iawn fu'r dychryn.  
 Hywel gwych, cyfaill dyrchafedig,  
 Carwn, os gwn foliant cynnar,  
 Pe bai rhan o'i boen yn dod arnaf innau,
- 48 Anaf cas poenus.  
 Mair Forwyn a fo'n feddyges  
 Er mwyn peri gwellhad llwyr, yr wyf yn wyllo.  
 Mawr fo'r myrr a wisga am y goes
- 52 Lle y dewisa Mair roi eli.  
 Pe cawn goes fy mhaun a'r ysgall (?)  
 Yn un ffurf â'r llall,  
 Byddwn yn fodlon o hyn ymlaen
- 56 Â gwaith ei feddyg, ni ddaw poen i mi.  
 Dywedodd Solomon fab Dafydd,  
 Gwae fi oni fydd yn iach.  
 Bydd bendith, boed iddo wella'n llwyr,
- 60 Boed i Dduw o'r nef ei wella.



# Nodiadau

## 1

Perthynai Dafydd ap Cadwaladr i deulu o Saeson o'r enw Bowdler.<sup>1</sup> John Bowdler oedd enw ei daid, ond fe ymddengys i'r teulu ollwng y cyfenw erbyn cyfnod Dafydd. Disgynnai o Elystan Glodrydd trwy ei fam, Jane ferch Einion. Ei gartref oedd Bachelltref (neu *Machelltref*) ym mhlwyf yr Ystog yn sir Drefaldwyn, yn agos iawn i Glawdd Offa. Bu'n gwasanaethu ym myddin y Brenin yn yr Alban yn 1322,<sup>2</sup> a chyfeirir ato mewn dogfennau swyddogol tua 1326 ac yn 1338.<sup>3</sup> Yn yr ail fe'i disgrifir yn rhaglaw castell Cawres. Canodd Dafydd Bach ap Madog Wladaidd, *alias* Sypyn Cyfeiliog, awdl iddo, sy'n gynharach na hon, yn ôl pob tebyg.<sup>4</sup> Y mae'n debyg mai hon yw'r gynharaf o gerddi mawl Llywelyn Goch, i'w dyddio tua 1350 efallai.

Y mae caniad cyntaf yr awdl hon yn gadwyn o saith englyn, yn broest ac unodl union am yn ail. Y mae'r ail ganiad ar fesur gwawdodyn. Ar y cyrchgymeriad yn yr awdl, gweler y Rhagymadrodd, uchod td. 7. Ceir cynganeddion pengoll yn llinellau 5, 13, 21, 25, 29, 33, 34, 37, 38, 46, 49, 50, 52 a 58, ac efallai fod y llacrywydd hwn yn ategu'r awgrym mai gwaith cynnar y bardd yw'r awdl hon.

- 5 **Idwal** Sef Idwal Foel ab Anarawd, brenin Gwynedd yn y 10g., gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 337.
- 7 **Llŷr** Cyfeiriad at yr arwr Llŷr Llediaith, y mae'n debyg, gw. GSRh 36 a TYP<sup>2</sup> 427–9.
- 10 **Dafydd wawdrydd** Dilynir awgrym R. Iestyn Daniel, *art.cit.* yn *Dwned*, i (1995), 60, fod hwn yn gyfeiriad at y bardd Dafydd Bach ap Madog Wladaidd, *alias* Sypyn Cyfeiliog (gw. uchod). Ond er bod *gwawdrydd* yn epithet a ddefnyddid i ddisgrifio beirdd fel Aneirin, fe all hefyd ddisgrifio gwrthrych clod, e.e. GDG<sup>3</sup> 115 (42.57) (am Forfudd), ac felly y mae'n bosibl mai cyfarch Dafydd ap Cadwaladr ei hun a

<sup>1</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bowdler'.

<sup>2</sup> Gw. N.M. Fryde, 'Welsh Troops in the Scottish Campaign of 1322', B xxvi (1974), 87. Yr wyf yn ddiolchgar i Dr R. Iestyn Daniel am dynnu fy sylw at hyn.

<sup>3</sup> Gw. R. Iestyn Daniel, 'Rhaflith i Gerdd gan Sypyn Cyfeiliog: Dogfen Hanesyddol?', *Dwned*, i (1995), 62.

<sup>4</sup> Ceir testun yn Bl B XIV 136–7; gw. hefyd R. Iestyn Daniel, *art.cit.* 55–66 ac *id.*, *Gwaith Sypyn Cyfeiliog a Llywelyn ab y Moel* (i'w gyhoeddi).

wneir yma, a bod *telaist* yn ferf gyflawn.

- 11 **Eliwlad** Eliwlod ap Madog ab Uthr, un o bedwar marchog ar hugain llys Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 345.
- 22 **rhuddlai** Ni cheir synnwyr o gwbl o ddarlleniadau'r llsgrau., *rhuddai* neu *rhyddai*, felly diwygiwyd i roi gair cyfansawdd yn disgrifio lliw'r march. Cf. *llwydlai*, a gw. I. Williams, 'llai, lleian', B xiii (1948–50), 196–7, lle y trafodir yr elfen *llai*, 'llwyd, brown', a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio meirch, a hefyd GPC 2090. Sylwer yn enwedig ar y diffiniad a geir yng Ngeirfa Wiliam Llŷn, 'lliw tywyll rûdd'.
- 23 **Cai** Un arall o bedwar marchog ar hugain llys Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 303–7.
- 26 **dioer** Talfyriad o 'Duw a wŷr!'; y mae'n rhaid ei acenu ar y sillaf olaf er mwyn y gynghanedd.
- 34 **Llachau** Mab Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 416–8.
- 37 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 43 **Prydyn** Yr Alban, gw. Arm P<sup>2</sup> 21–2.
- 52 **hybarchau** Gw. GPC 1946 am yr ystyr 'parch mawr' (ond 1677 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf). Y mae'r ffurf luosog yn brin, ond cf. *parchau* gan Siôn Cent, IGE<sup>2</sup> 271.9.
- 59 **pomelgadr** Y mae'r elfen gyntaf yn fenthyciad o'r *S. pommel*, y bwlyn ar garn cleddyf.

## 2

Bu Llywelyn Fychan ap Llywelyn yn Abad Ystrad-fflur rhwng 1344 a 1380.<sup>1</sup> Yr oedd y cyfnod hwnnw'n un heddychlon a llewyrchus yn hanes yr Abaty, ac ymddengys fod Llywelyn yn gymeradwy iawn gan y Goron.<sup>2</sup> Ni ellir dyddio'r awdl hon yn fanwl, ond gwelir bod yr abad wedi bod yn ddi-frifol wael, a bod gwellhad wedi dod i'w ran, trwy law Duw, yn ôl y bardd. Derbyniodd Iolo Goch nawdd gan yr abad hwn hefyd.<sup>3</sup>

Cenir yr awdl fer hon ar un mesur yn unig, sef cyhydedd naw ban.

- 14 **difan** 'Mawr', gan dderbyn awgrym petrus G 336 mai *mân* yw ail elfen y gair. Ni roddir yr ystyr hon i *difan* yn GPC 977, a rhoddir iddo'n hytrach yr ystyron 'difrycheulyd ... di-nam, di-fai, perffaith'.

**Garwy** Sef Garwy Hir, cymeriad chwedlonol a oedd yn enwog am ei

<sup>1</sup> Gw. David H. Williams, *The Welsh Cistercians* (Caldey Island, 1984), 57–8, 64.

<sup>2</sup> *Ib.* 67–8.

<sup>3</sup> GIG 66 (XIV.81–2).



daldra a hefyd fel carwr, gw. TYP<sup>2</sup> 354–5; cf. isod 5.67.

- 17 **heiliaist** Ceir berf *heilio* yn golygu ‘tywallt, gwasanaethu’, ac o dan y f. honno y nodir yr enghraifft hon yn G 774 (gydag awgrym mai *heiliaist* ... *gwyn hwyl* yw’r gystrawen). Ond o ystyried y cyd-destun, y mae’n debycach mai benthyciad yw hwn o’r S.C. *heilen* ‘iacháu’.
- 20 **diffyrth** Ffurf 3 un.grff.myn. i f. *diffryd*.
- 24 Ceir *m* wreiddgoll ar ddechrau’r ll. hon.

## 3

Ganed Rhys tua 1337, yn fab i’r milwr enwog Syr Rhys ap Gruffudd a Joan de Somerville.<sup>1</sup> Disgynnai o Ednyfed Fychan trwy ei dad.<sup>2</sup> Yn ôl Ralph A. Griffiths, ‘Although not such a towering figure as his father, he served the Black Prince loyally’.<sup>3</sup> Bu gyda’r Tywysog Du yn Ffrainc yn 1355–6, gan ymladd ym mrwydr Poitiers. Cafodd ei urddo’n farchog am ei wasanaeth, a châi ei adnabod fel ‘Syr Rhys Ieuanc’. Yn ogystal â’i ystadau etifeddol yn Llansadwrn ac Abermarlais yn sir Gaerfyrddin, yr oedd ganddo diroedd helaeth yn Lloegr trwy ei fam a thrwy ei wraig Margaret ferch Nicolas Zouch. Bu farw 25 Mai 1381, a cheir marwnad iddo gan Ruffudd Llwyd ap Llywelyn Gaplan.<sup>4</sup> Y mae elfen o broffwydoliaeth yn yr awdl hon (gw. llau. 5–6 a 31–2), ond nid yw hynny’n gymorth i’w dyddio’n fanwl.

Y mae caniad cyntaf yr awdl ar fesur toddaid, a’r ail yn gadwyn o englynion unodl union a phroest am yn ail.

- 4 **Dunawd** Dunod fab Pabo Post Prydain ac un o frenhinoedd yr Hen Ogledd yn y 6g., gw. G 396 a TYP<sup>2</sup> 334–5.
- 10 **Rhyawd** Llsg. *ryeaðt*. Cymerir mai Rhyawd neu Rhahawd ail Morgant sydd yma, arwr a enwir yn y Trioedd ac yn ‘Breuddwyd Rhonabwy’, gw. GSRh 6.27n a TYP<sup>2</sup> 497–8. (Cf. hefyd y ffurf *Rhawd* isod ll. 17.)
- 11 **tre Bergaw** Périgueux yn y Dordogne, tref a fu dan warchae gan fyddin y Tywysog Du yn 1355–6.
- 12 **cynrain** Llsg. *kynnreit*. Derbynnir awgrym G 261 ynglŷn â’r diwygiad er mwyn y gynghanedd.
- canrhawd** Gw. G 107 lle y cynigir yn betrus yr ystyron ‘cylch neu gwrs hardd; mintai neu osgordd gylchynol’ ar gyfer yr enghraifft hon ac

<sup>1</sup> Canodd Iolo Goch farwnad i’w dad, GIG VII.

<sup>2</sup> Gw. llau. 55–6 yma. Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 15.

<sup>3</sup> Gw. R.A. Griffiths: PW i, 262–3 lle y ceir crynodeb o’i yrfa.

<sup>4</sup> Bl B XIV rhif 76.

- yng ngwaith Prydydd y Moch, GLIL1 26.37. Fe ymddengys fod y gair yn cyfeirio yma at y gwarchae ar y dref.
- 15 **bedwawd** Gw. J. Loth, 'L'écriture chez les Celtes', RC xlv (1927), 8–9, lle y cynigir yr ystyr '*un poème de bouleau ... c'est-à-dire ... un poème de bon augure*'; derbynnir yr ystyr hon yn GPC 266, 'cân y bedw, cân o argoel dda'. Ond nodir yn G 53 y gall mai *bet* yn golygu 'ymbil, cri' (o'r H.Saes. *bed*) yw'r elfen gyntaf.
- 17 **Rhawd** Fe'i deellir yn amrywiad ar yr e.prs. *Rhyawd / Rhahawd*, gw. uchod ll. 10n.
- 18 **Owain Frych** Cf. GBF 13.14 *rwysc Ywein Urych* (y Prydydd Bychan am Faredudd ab Owain); awgrymir yn y nodyn, td. 107, mai at dad Maredudd y cyfeirir yno, ond go brin mai ato ef y cyfeirir yma. Cf. hefyd GDL1 132 (59.9–10) *Owain frych â'i wayw'n ei frest*; DE 54.2 *ywain vrych ai wayw yn i vron*; GLM 241 (LXVIII.16) *a'r un friw ar Owain Frych* (gw. hefyd *ib.* 167 (XLVII.5)). Awgryma Eurys Rowlands (GLM 452) mai enw ar Owain Lawgoch oedd Owain Frych, ac fe dderbynnir hynny gan A.D. Carr, *Owen of Wales* (Cardiff, 1991), 94; ond dengys y cyfeiriad gan y Prydydd Bychan fod yr enw'n hŷn na hynny. Yn GLM 167 (XLVII.4–6) cyfeirir at dri Owain enwog, sef Owain Gwynedd, Owain Glyndŵr, ac *Owain Frych hen*. Yr Owain arall amlwg yw Owain ab Urien. Tybed, felly, ai enw arno ef oedd Owain Frych?
- 21 **ferneiswin** Y mae'r elfen gyntaf yn fenthyciad o'r S. *vernage*, math o felyswin gwyn Eidalaidd. Rhoddir y ffurf gysefin fel *berneiswin* yn GPC 274, ond efallai mai *ferneiswin* yw'r ffurf gysefin, gw. GIG 187.
- 22 **Elffin** Elffin ap Gwyddno Garanhir, noddwr Taliesin, gw. G 468, TYP<sup>2</sup> 510.
- 24 **Gweirydd** Gweirydd Adarweinidog, y mae'n debyg, gw. GSRh 6.98n.
- 27 **taflawd** Cymerir mai'r terfyniad *-awd, -od*, yn dynodi ergyd arf, sydd yn y gair hwn.
- 32 **Cyminawd** Brwydr a ddarogenid yn y brudiau, gw. G 235–6 a GDGor 6.64n.
- 33 **tyrfal** Unig enghraifft, yn ôl tystiolaeth slipiau Geiriadur Prifysgol Cymru. Ceir awgrym yno gan J. Lloyd-Jones mai '?*tower, pillar*' yw ei ystyr (yn ffigurol yma). Fodd bynnag, os *twrf* + *gal* yw'r elfennau, gellid hefyd yr ystyr 'cyffro mawr', &c., gw. J. Lloyd-Jones, 'The Compounds of *gal*', *Féilscribhinn Torna*, ed. Séamus Pender (Corcaigh, 1947), 83–9.
- 37 **Rolant** Prif arwr chwedlau Siarlymaen.
- 42 **Rhydderch** Un o 'Dri Hael Ynys Prydain', gw. TYP<sup>2</sup> 5, 504–5.

- 51 **aesgalch** Gair cyfansawdd yn cynnwys yr elfennau *aes* ‘tarian’ a *calch*, sef enamel a ddefnyddid i addurno arfau. Derbynnir yr ystyr a gynigir yn betrus yn G 13.
- 55 **cwr** Cymerir mai defnydd trosiadol o’r ystyr ‘ael’, uchafbwynt, sydd yma, ond sylwer mai *gwr* yw’r darlleniad yn MA<sup>2</sup> 345.
- 56 **Ednyfed** Ednyfed Fychan, distain Llywelyn Fawr, gw. uchod ll. 37n.
- 61 **Geraint** Geraint ab Erbin, un o farchogion Arthur ac arwr rhamant o’r un enw.
- 63 **bro Hiriell** Gwynedd, gw. I. Williams, ‘Hiriell’, B iii (1926–7), 50–2.
- 64 **gwiwdymp** Efallai fod hyn yn gyfeiriad at y syniad o adeg ffodus yn ôl y sêr, a elwid weithiau’n ‘awr dda’ (cf. 11.18 a GIG 2 (I.7)).

## 4

Ganed Rhydderch ab Ieuan Llwyd tua 1325, yn aelod o deulu a oedd yn flaenllaw iawn fel noddwyr llên yng Ngheredigion.<sup>1</sup> Bu’n dal amryw o swyddi mewn llywodraeth leol, ac yr oedd yn awdurdod ar gyfraith Hywel, fel y nodir yn yr awdl hon ac mewn cerddi eraill iddo, a bu’n gwasanaethu fel dosbarthwr yn y cyfnod 1380–92.<sup>2</sup> Y mae’n debyg mai ar ôl Rhydderch yr enwyd cartref y teulu, Parchrhydderch, ar lan ogleddol Afon Aeron ym mhlwyf Llangeitho (ond Llanbadarn Odyn cyn hynny).<sup>3</sup> Ceir awdl i Rydderch gan Ddifydd y Coed, cywydd marwnad gan Ruffudd Llwyd, a ffug-farwnad gan Ddifydd ap Gwilym, lle y cysylltir Rhydderch eto â Llywelyn Fychan.<sup>4</sup> Yr oedd Rhydderch wedi marw erbyn 1398/9.<sup>5</sup>

Yr oedd Llywelyn Fychan ap Llywelyn Goch ap Llywelyn Gaplan yn gyfylder i Rydderch.<sup>6</sup> Yr oedd ei gartref yng nghwmwd Anhuniog, efallai ar y bryn serth uwchlaw Trefilan ym mhlwyf Nancwnlle, ryw dair milltir o Barchrhydderch.<sup>7</sup> Yr oedd yntau hefyd yn flaenllaw mewn llywodraeth leol

<sup>1</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Cydifor ap Gwaithfoed’ 2; D.H.E. Roberts, ‘Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi’, LICy x (1968–70), 83–8; Daniel Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, Cylchg LIGC xxii (1981), 1–26; *id.*, ‘Llyfr Gwyn Rhydderch’, CMCS xxi (Summer 1991), 1–37 (lle yr awgrymir dyddiad geni c. 1325, td. 20) a GLIBH 6–15.

<sup>2</sup> Gw. R.A. Griffiths: PW i, 117 a’r cyfeiriadau yno.

<sup>3</sup> Gw. GLIBH 10–12, lle y dadleuir mai tŷ o’r enw Glyn Aeron i’r de o’r afon oedd cartref y teulu yn amser tad Rhydderch.

<sup>4</sup> R 1305, IGE<sup>2</sup> 113–15 (XXXVII), GDG<sup>3</sup> 48–9 (cerdd 17).

<sup>5</sup> Gw. R.A. Griffiths: PW i, 117.

<sup>6</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Llywelyn Gaplan’ 2, lle y gwelir bod nain Llywelyn yn ferch i hen daid Rhydderch.

<sup>7</sup> Gw. D. Johnston, ‘Awdl Llywelyn Goch i Rydderch a Llywelyn Fychan’, B xxxv (1988), 26–7. Ar y teulu fel noddwyr beirdd yn Anhuniog yn y 15g., gw. D.H.E. Roberts, *art.cit.* 79.

ac yn awdurdod ar y gyfraith.<sup>8</sup> Yr oedd yn dal yn fyw adeg gwrthryfel Glyndŵr, pan fu'n cefnogi'r brenin.

Achlysur yr awdl hon oedd taith Rhydderch a Llywelyn i Loegr, ac awgrymir yn llinell 44 mai yng ngwasanaeth y brenin yr aethant. Tybiodd Ifor Williams mai ar wasanaeth milwrol yr aethant, a chynigiodd y dyddiad 1377,<sup>9</sup> ond fe ymddengys yn debycach mai fel cyfreithwyr y buont yn gwasanaethu'r brenin. Yn union cyn y cyfeiriad at win y brenin sonnir am ddangos breiniau a negesau (ll. 43), ac ychydig yn nes ymlaen sonnir am eu trylwyredd yn trafod achos cyfreithiol (llau. 51–2).

Ni ellir dyddio'r awdl hon yn fanwl. Y mae'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at Rydderch a Llywelyn i'w cael mewn dogfennau swyddogol yn perthyn i'r cyfnod 1380–90, ond awgrymodd Daniel Huws y dylid dyddio'r awdl yn gynharach na hynny oherwydd y pwyslais ar gyfeillgarwch a serch.<sup>10</sup>

Y mae caniad cyntaf yr awdl yn gadwyn o chwe englyn, sy'n ymrannu'n ddwy uned o ddau englyn proest ac un englyn unodl union. Cyhydedd naw ban yw mesur yr ail ganiad.<sup>11</sup>

- 1 **Henynt o le ni hunir** Enghraifft o'r topos fod serchogion yn methu cysgu (cf. ll. 42), gan chwarae ar enw'r cwmwd Anhuniog, lle yr oedd cartref Llywelyn.
- 2 **Heol y Glyn** Gallai y *Glyn* fod yn gyfeiriad at gartref tad Rhydderch, Glyn Aeron (gw. uchod), ond cymerir mai'r ergyd yw fod pawb sy'n mynd trwy Lyn Aeron yn ymweld â chartrefi'r ddau.
- 5 **Urien** Urien Rheged, noddwr Taliesin.
- 16 Diwygiwyd y ll. hon er mwyn adfer synnwyr a chynghanedd.
- 18 **cwrferch** *cwrw* + *erch* (< *erchi*). Am drafodaeth ar ffurf y gair cyfansawdd, gw. D. Johnston, 'Awdl Llywelyn Goch i Rydderch a Llywelyn Fychan', B xxxv (1988), 22.
- 22 **caened** Y mae GPC 383 yn dilyn G 95 wrth roi'r enghraifft hon dan *caened*<sup>1</sup> 'gwisg, gorchudd, tuded' (cf. *caen*); ond o eiriadur Pughe y daw'r unig enghraifft arall. Gwell felly yw cymryd mai *caened*<sup>2</sup> (< S. *kennet*) 'math o frethyn llwyd' sydd yma, gw. GPC *l.c.*
- 34 **Echel** Achilles, gw. TYP<sup>2</sup> 335–6.
- 45 **eglurynt** Berf gyflawn yn ôl G 448 a GPC 1175–6, ond gwell yw ei deall yn ferf anghyflawn, gyda Rhydderch a Llywelyn yn oddrych.
- 49 **barddlyfr** Efallai fod hwn yn gyfeiriad at Lawysgrif Hendregadredd, a oedd, yn ôl pob tebyg, yn llyfr llys yng nghartref Rhydderch. Am y

<sup>8</sup> Gw. R.A. Griffiths: PW i, 125 a'r cyfeiriadau yno.

<sup>9</sup> 'Dafydd ap Gwilym a'r glêr', THSC, 1913–14, 105.

<sup>10</sup> D. Huws, *art.cit.* 21.

<sup>11</sup> Ceir trafodaeth bellach ar gefndir ac arddull yr awdl hon gan D. Johnston, *art.cit.* 20–8.

llawysgrif honno, gw. Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylch G LIGC xxii (1981–2), 1–29.

- 50 **atcesynt** Awgryma G 45 fod y bôn *atkes-* yn golygu 'gwrthod, atal', ond dilynir GPC 227 wrth gymryd mai ffurf ar y f. *atgasu* sydd yma.
- 59 **grysyt** ffurf amrywiol ar *gresyn*, 'poen, gofid, anffawd, aflwydd', gw. GPC 1529.

## 5

Goronwy oedd mab hynaf Tudur Fychan ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd ym Môn.<sup>1</sup> Daliai swydd Fforestydd Eryri, a bu'n ymladd yn Ffrainc, yn ôl pob tebyg yng ngwasanaeth y Tywysog Du. Bu farw trwy foddï yng Nghaint ar 22 Mawrth 1382, dim ond pedwar diwrnod ar ôl iddo gael ei benodi'n gwnstabl castell Biwmares. Ceir awdlau mawl iddo ef a'i wraig Myfanwy gan Sefnyn a Rhisierdyn,<sup>2</sup> cywydd iddo ef a'i frodyr gan Iolo Goch,<sup>3</sup> a chanwyd marwnadau iddo gan Iolo Goch (ynghyd â'i frawd Ednyfed), Gruffudd ap Maredudd, a Gruffudd ap Gweflyn.<sup>4</sup> Tystia Iolo Goch i'w gorff gael ei gludo'n ôl i Fôn i'w gladdu yn Llan-faes, a gwyddys i'w feddrod gael ei symud i eglwys Gredifael, Penmynydd, pan ddiddymwyd y mynachlogydd.

Y mae caniad cyntaf yr awdl hon yn gadwyn o ddeg englyn, yn broest ac yn unodl union am yn ail. Y mae'r ail caniad ar fesur toddaid.

- 14 **baglur** Ffurf amrywiol ar *blagur*.
- 20 **mên** Gw. WG 432 a GPC 2336 d.g. *man*<sup>1</sup>.
- 24 **Nuddlaw** 'Â llaw Nudd'. Am Nudd Hael fab Senyllt, un o'r Tri Hael, gw. TYP<sup>2</sup> 476–7.
- 36–7 **Peredur** Sef Peredur fab Efrog, arwr un o'r Tair Rhamant. Am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. TYP<sup>2</sup> 491.
- 45 **trychantref Môn** Aberffraw, Cemais a Rhosyr.
- 46 **Gwgawn** Sef Gwgawn Gleddyfrudd, arwr â chysylltiad arbennig â Cheredigion, gw. TYP<sup>2</sup> 389–90.
- Uriel agwedd** Yn ôl traddodiad yr oedd yr archangylion yn neilltuol o hardd.
- 57 **brwyn** 'Tristwch, alaeth, galar' yn ôl G 79 (cf. ll. 19 uchod), ond y

<sup>1</sup> P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 13; am ei yrfa, gw. AWH 199–201.

<sup>2</sup> GSRh cerddi 3–5.

<sup>3</sup> GIG 22–7 (cerdd V).

<sup>4</sup> *Ib.* 28–32 (cerdd VI), R 1230–1, 1322–3 ac A. Cynfael Lake, 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', B xxxix (1992), 80–8. Ceir dryll o farwnad gan Risierdyn hefyd, gw. GSRh td. 49.

mae'r ystyr '*reeds*' yn gweddu'n dda yn y cyd-destun.

- 60 **dyhuno** Cymerwyd mai ffurf ar *dihuno* yw hon gan ddilyn G 395 d.g. *duhunaw*; ond fe ddichon mai *dyuno* 'ymgynnull' sydd yma.
- 67 **hoedlwydr** Y mae'r ystyr 'disglair ei einioes' hefyd yn bosibl, ond gan fod Goronwy wedi marw'n annhymig y mae'r syniad o freuder yn gweddu. Cf. GCBM i, 27.8, a GIG 16 (IV.26) *Llithriced hoedl llwyth Ricart* (mewn marwnad i dad Goronwy).
- Garwy** Gw. 2.14n uchod.
- 82 **gosymeithrent** Yn llythrennol, 'tâl cynhaliaeth'.
- 92 **pan las Llywelyn** Am gyfeiriadau eraill at Lywelyn ap Gruffudd mewn marwnadau i Oronwy, a fu farw union gan mlynedd ar ei ôl, gw. D. Johnston, 'Tri chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd', B xxxvi (1989), 100; A. Cynfael Lake, 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', B xxxix (1992), 100.

## 6

Yr oedd Hopcyn ap Tomas ab Einion ymhlith y pwysicaf o noddwyr llên yng Nghymru'r Oesoedd Canol.<sup>1</sup> Ei gartref oedd Ynysforgan ar lan Afon Tawe, nid nepell o Ynystawe. Tybir iddo gael ei eni tua 1330, a'i fod wedi marw erbyn 1408, pan drosglwyddwyd ei diroedd i'w fab Tomas. Yr oedd yn awdurdod ar y brutiau (gw. llau. 15–16), ac ymgynghorodd Owain Glyndŵr ag ef yn 1403. Y mae'n weddol sicr mai Hopcyn a gomisiynodd Lyfr Coch Hergest, llawysgrif sy'n cynnwys awdlau mawl iddo gan bump o feirdd, sef Madog Dwygraig, Dafydd y Coed, Ieuan Llwyd ab y Gargam, Meurig ab Iorwerth a Llywelyn Goch.<sup>2</sup> Ni ellir dyddio'r awdl hon yn fanwl, ond y tebyg yw ei bod yn perthyn i'r cyfnod 1370–90.

Y mae caniad cyntaf yr awdl ar fesur toddaid, a cheir tri englyn proest ac un englyn unodl union i gloi. Sylwer bod odl lawn rhwng y llinell gyntaf a'r bedwaredd yn y cyntaf a'r ail o'r englynion proest.

- 3 **Ystrad ... Tywi** Y mae hyn yn annisgwyl, gan mai Cwm Tawe oedd bro Hopcyn. Tybed a oedd ganddo dir yn y Cantref Bychan, sef y rhan o Ystrad Tywi i'r gogledd o gwmwd Gŵyr? Nid yw'r achau'n nodi enwau ei wraig na'i fam, ac fe ddichon mai trwyddynt hwy y daliai dir yno.

<sup>1</sup> Ceir ei ach yn P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32. Crynhoir yr hyn sy'n hysbys amdano gan Christine James, 'Llwy'r Wyboda'u, Llên a Llyfrau' yn *Cwm Tawe*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1993).

<sup>2</sup> R 1307–8, 1310–11, 1373–4, 1375–7, 1415–6. Ar hanes y llawysgrif, gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, xxii (1978), 42–60.

- 4 **Llachau** Gw. 1.34n.
- 5 **Beli** Sef Beli Mawr fab Manogan, brenin chwedlonol ar Ynys Prydain, gw. TYP<sup>2</sup> 281–3. Sylwer ar amllder y trawiad *baladr* / *Beli* yn yr enghreifftiau o'r farddoniaeth a ddyfynnir yno.
- 6 Y mae un sillaf yn ormod yn y ll. hon (oni ddarllenir 'yniog').
- 15 **yt** Mae'r ffurf ail berson unigol yn annisgwyl yma, ac y mae'n bosibl y dylid darllen *hyd Frawd* 'hyd Ddydd y Farn'.
- 19 **Rhydderchnaws** Cyfeiriad at Rydderch Hael, gw. 3.42n.
- 20 **Rhodri** Sef Rhodri Mawr, brenin Gwynedd yn y 9g., gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 324–6, a cf. GIG 14 (III.67), lle y ceir yr un trawiad cynganeddol.
- 22 **Pennal** Dyma gynefin Lleucu Llwyd, rhwng Machynlleth ac Aberdyfi, gw. y nodyn ar gefndir cerdd 12 isod. Tybed a oes arwyddocâd yn y ffaith fod y bardd am osgoi Pennal?
- 24 **Meddyfnych** Enw ar faenor ar lannau Afon Llchwyr ym mhlwyf Llandybie, gw. I. Williams, 'Meddyfnych', B vii (1933–5), 369–70 ac ymhellach D. Jenkins a M. Owen, 'The Lichfield Gospels', CMCS v (Summer 1983), 54.
- 34 **hëyd** Llsgr. *heut*; diwygiwyd i ffurf 3 un.pres.myn. y f. (gw. GMW 119).  
**Gefenni** Yr afon a rydd ei henw i dref Abergafenni, gw. EANC 143–5.
- 35 **Gwhyr** Yr oedd Ynysforan yng nghwmwd Gŵyr.
- 37 **Cilgwri—fwyalch** Cyfeiriad at un o'r 'Anifeiliaid Hynaf', gw. CO 31.
- 41 **cun** Dosberthir yr enghraifft hon dan yr ystyr 'arglwydd' yn G 186, ond gan gydnabod y gellid a. yma.
- 53 Llsgr. *arlarch*. Derbynnir awgrym G 646 a darllen *ar alarch* yma.
- 54 **gwahenlliw** Gw. G 646 d.g. *gwehyn*, lle yr eglurir yr ystyr fel 'lliw a wasgerir, llewyrch ar daen'.  
**palfrefiarch** Y mae'r elfen gyntaf yn fenthyciad o'r H.Ffr. *palefrei* 'ceffyl marchogaeth cyffredin (yn hytrach na cheffyl rhyfel), march ysgafn', gw. GPC 2674.
- 55 **mael** Y mae'n bosibl mai e.p. ydyw yma, gw. GPC 2305 a GSRh 4.67n.

Diau fod hon yn un o gerddi olaf y bardd. Gweddi ydyw am drugaredd a maddeuant pechodau. Wrth gyffesu ei bechodau y mae'r bardd yn eu cyferbynnu â gweithredoedd mawreddog y Creawdwr. Gellid cymharu'r gerdd â'r cerddi marwysgafn a ganodd Meilyr Brydydd a Chynddelw yn y

ddeuddegfed ganrif. Mesur yr awdl hon yw cyhydedd naw ban.

- 10 **tri lluydd** Sef y tri llu a ddaw gerbron Duw ar Ddydd y Farn, sef y llu drwg, damnedig a â yn syth i uffern, y llu sanctaidd a â ar ei union i'r nefoedd, a'r llu brith neu gymysg a â i'r Purdan, HG Cref 139 a GCBM ii, td. 263.
- 11 **Olifer ... Fynydd** Mynydd yr Olewydd, lle y credid y byddai'r Farn Olaf yn digwydd, cf. 12.53–4 ac ar y ffurf, gw. DGG<sup>2</sup> 245. Awgryma *muner*, 'arglwydd', fod y bardd yn deall *Olifer* yn e.prs.
- 19 **llateiaeth** Cf. cerdd 9, lle yr anfonir y penlōyn yn llatai.
- 24 **Lleucu yn eilFair** Ni chymherir Lleucu â'r Forwyn Fair yng ngherdd 12, ond gw. 8.52–4.
- 26 **Glyn Ebron** Lle y crëwyd ac y claddwyd Adda, yn ôl traddodiad.

## 8

Cywydd moliant yw hwn i neiaint y bardd, Hywel a Meurig Llwyd, meibion ei gefnder Meurig Fychan ab Ynyr Fychan o Nannau.<sup>1</sup> Bu Meurig Llwyd yn rhaglaw cwmwd Tal-y-bont yn 1391/2, a daliodd y ddau frawd swyddi lleol eraill yn ystod nawdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>2</sup> Meurig Llwyd a drigai yn Nannau, y plas a losgwyd gan Owain Glyndŵr yn amser ei fab Hywel Sele yn 1402. Ni wyddys i sicrwydd beth oedd enw cartref ei frawd. Efallai mai'r Cae Gwrgenau y cyfeirir ato yn llinell 74 y gerdd hon ydoedd (gw. y nodyn ar y llinell). Perthyn y gerdd i flynyddoedd olaf y bardd, sef ychydig cyn 1390, yn ôl pob tebyg. Canodd Gruffudd Llwyd gywydd mawl i'r ddau frawd, a chywydd marwnad i Hywel.<sup>3</sup>

Y mae'r cywydd hwn yn nodedig am ei ddefnydd dyfeisgar o un o ddulliau'r canu serch a natur, cwyno am yr eira a'i ddyfalu. Gellir ei gymharu ag 'Yr Eira', cywydd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym ond sy'n perthyn mewn gwirionedd i'r bymthegfed ganrif, ym marn Thomas Parry.<sup>4</sup>

- 6 **bryfiau** Benthyciad o'r S. *breve* 'gorchymyn cyfreithiol, gwrit', cf. GLIBH 4.87n. Cymerodd Ifor Williams fod hyn yn cyfeirio at lythyrau yn gorchymyn i'r bardd ddod i'r De. Ond awgryma'r a. *mân* mai trosiad am y plu eira ydyw, sydd fel darnau o bapur gwyn.

<sup>1</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 50.

<sup>2</sup> Gw. Bryn R. Parry, 'Hugh Nanney Hên (c. 1546–1623), Squire of Nannau', Cylchg CHSFeir v (1967), 185–206, yn enwedig 188–9.

<sup>3</sup> IGE<sup>2</sup> 119–20 (cerdd XL); Dafydd Johnston, 'Cywydd Marwnad Gruffudd Llwyd i Hywel ap Meurig o Nannau', YB xvi (1990), 60–70.

<sup>4</sup> Gw. T. Parry, 'Cywydd yr eira a chywydd y sêr', LICy vi (1960–1), 176–7 ac OBWW rhif 65.



- 18 Cyffelybir yr eira i groen merch, gan wydroi'r gyffelybiaeth gyffredin yng nghanu serch y cyfnod, lle y gwelir croen merch yn debyg i eira.
- 25 **cribod** Awgrymir yn betrus yn GPC 596 mai gair cyfansawdd yw hwn, *crib* + *ôd*, a chynigir yr ystyr 'eira ar yr wyneb'. Ond gan mai *ôd* yw ail elfen *nithod*, y mae braidd yn anfoddfaol fod yr un gair yn digwydd ddwywaith yn y ll. Diddorol yw nodi bod y gair yn digwydd yn ddiweddarach yn yr ystyr 'crwybr, dil mêl' (gw. y dyfyniad o waith Ieuan Brydydd Hir), ystyron a geir i'r gair *crib* hefyd (gw. *ib.* 594).
- 32 **Geredigion** Enghraifft o ddynodi cyrchfan â threigladd meddal yn unig, gw. Treigladau 227–8.
- 34 **hyddod** Naturiol yw tybio mai ll. *hydd* sydd yma a chynigiodd Ifor Williams yr esboniad canlynol: 'Nofia ceirw drwy afonydd, ond y mae'r llif mor gadarn nes eu rhwystro'. Y mae'r dehongliad hwnnw'n berffaith bosibl, ac eto heb fod yn gwbl argyhoeddiadol. Tybed, felly, ai bôn y f. *dodaf* + y rhagddodiad cryfhaol *hy-* sydd yma, ar lun geiriau fel *hyglyw* a *hygyrch*? Ni chofnodir y gair hwnnw yn GPC 1958, ond fe rydd synnwyr da yma, gan fod yr afon yn cael ei chwyddo'n sydyn wrth i'r eira ddadmer.
- 38 **Wnion** Afon i'r de o Nannau.
- 42 **tai** Ar y treigladd meddal yn y testun yn dynodi cyrchfan, gw. ll. 32n uchod. Y mae'r ffurf lusog yn ddigon cyffredin wrth gyfeirio at lys, cf. GIG 47 (X.37–8) a GSRh 13.35–6n. Ar y treigladd anarferol i'r e.p. sy'n dilyn y ffurf *tai*, gw. Treigladau 109–10.
- 45–6 **cyfraith ... / Sifil** Sef y gyfraith secwlar, o'i chyferbynnu â'r gyfraith eglwysig. Fel y gwelir o'r darlenniadau amrywiol, ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn y llsgrau. o blaid y ll. enwog *A Brut hen y Brytaniaid* (ll. 46).
- 50 **clêr y dom** Enw dilornus ar y dosbarth isaf o feirdd, sy'n amlwg yn chwarae ar ddwy ystyr *clêr*.
- 52 **rhydebygu** Er mai ychydig o gopiâu sydd â'r darlenniad hwn, y maent yn rhai da, ac y mae egwyddor y *lectio difficilior* o'i blaid. Cyfleu'r amser perffaith yw swyddogaeth arferol y geiryn *rhy*, ond efallai mai'r ergyd yma yw'r syniad o weithred a ailadroddir (gw. GMW 168).
- 74 **Cae Gwrgenau** Gw. nodyn Melville Richards, 'Llywelyn Goch ap Meurig Hen a Chae Gwrgenau', Cylch LIGC xii (1961–2), 400–1, lle y dyfynnir o ddogfen o 1592 sy'n enwi 'Cay Gwrgenny' dan dreddegwm Cefnyrywen yn hen blwyf Dolgellau. Simon Owen, un o feibion y Barwn Lewis Owen, a drigai yno yn yr 16g., a'i frawd John a drigai yng Nghefnyrywenisaf gerllaw. Awgrymodd Melville Richards mai Cefnyrywenisaf a Chefnrywenuchaf oedd enwau tai Hywel a Meurig, gan gymryd bod Llywelyn yn datgan ei fwriad i drigo rhwng y ddau yng

Nghae Gwrgenau. Ond ymddengys fod Cae Gwrgenau yn cyfeirio at yr ymadrodd *lle mae'r mawl mau* yn y ll. flaenorol, ac mai cartref un o'r ddau frawd ydoedd. Gwyddys bod Meurig Llwyd yn trigo ym mhlas Nannau, felly dichon mai cartref Hywel oedd hwn, lle y datganwyd y cywydd am y tro cyntaf o bosibl.

- 75 **gwneiddwynt** Y mae hon yn ffurf ryfedd braidd, gyda therfyniad y modd dib. ar fôn yr amser prff. (gw. GMW 131), ond fe'i cadarnheir gan odl y gynghanedd lusg a'r brifodl. Cymerir mai'r amser perffaith a olygir.

## 9

Cywydd llatai yw hwn sy'n anfon y penlöyn yn negesydd serch at ferch o Feirionnydd. Trafodir awduraeth y gerdd gan Thomas Parry yn GDG cii–iii. Fe'i priodolir i Ddafydd ap Gwilym ym mhob un o'r llawysgrifau, ond dadleua Parry mai oherwydd y cyfeiriad yn llinell 22 at *wraig Ddafydd* y bu hynny. Pwysa ar y nodyn a geir mewn rhai llawysgrifau sy'n egluro mai gwraig Dafydd Ddu o Gemeirch, cariad Llywelyn Goch, sef Lleucu Llwyd, oedd honno, a hefyd ar y nodyn yn llaw Margaret Davies yn CM 129, *rhai a daerant mai Llywelyn goch ap meurig hen ai cant*, sydd efallai'n tarddu o'r un ffynhonnell. Gwyddys mai merch o Feirionnydd oedd Lleucu, ac y mae tystiolaeth annibynnol mai Dafydd Ddu oedd enw ei gŵr. Yr oedd yn arferiad i fardd anfon llatai at ei gariad yn ardal ei gartref ac yntau ei hun oddi cartref; felly, gan fod y gerdd yn amlwg yn perthyn i gyfnod cynnar y cywydd ar sail arddull, gellir ei derbyn yn weddol hyderus fel gwaith Llywelyn Goch. Cofier ei fod yn sôn am bechod *llateiaeth* yn ei awdl gyffes (7.19).

Aderyn bach bywiog o deulu'r titw yw'r penlöyn (S. *coal-tit*). Nodir yn llinellau 11–12 fod iddo bedwar lliw, gwyrdd, glas, gwyn a du. Y mae du, gwyn a glas i'w gweld yn ddigon amlwg ar yr aderyn hyd heddiw, ond nid y lliw gwyrdd. Y mae amryw fathau o benlöyn ar gael heddiw, ac fe ddichon fod aderyn â'r pedwar lliw hynny yn bodoli yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond ei fod bellach wedi diflannu o'r tir.

Ceir testun golygedig o'r cywydd yn DGG<sup>2</sup> 52–3 (sy'n seiliedig ar gopi Pen 49 yn bennaf), ac un arall yn OBWV 78–80 wrth enw Llywelyn Goch, sy'n dilyn yn amlach ddarlleniadau BL Add 14997. Y mae'r testun a geir yma yn tynnu ar y ddau fersiwn. Ceir cyfieithiadau Saesneg gan Joseph Clancy, *Medieval Welsh Lyrics* (Llundain, 1965), 114–16, a Tony Conran, *Welsh Verse* (Bridgend, 1986), 181–3.

- 18 **Feirionnydd** Dynodir y cyrchfan trwy dreigladd meddal yn unig, cf. 8.32n.

- 19 **dyarwedda** Hon yw'r unig enghraifft o'r ferf *dyarwain* a geir yn GPC 1113. Y mae'r ystyr 'cludo, dwyn' yn ddigon addas yn y cyd-destun, ond gellid dilyn BL Add 14997 a darllen *Dan wiwddrem dyn arweddra*, sef disgrifiad o'r ferch. Y mae *r* heb ei hateb yn y ddau ddarlleniad (ond nid yr un un); a dylid nodi bod yr *r* a gollir yn y ll. fel y saif o dan yr acen.
- 20 **wraig Ddafydd** Gw. y nodyn cefndir uchod.
- 37 Ll. ddigynghanedd.

## 10

Yr oedd y farf arw fel rhwystr rhag caru yn destun poblogaidd gan y Cywyddwyr cynnar, a cheir cywyddau eraill ar y thema gan Iolo Goch, Llywelyn ab y Moel a Rhys Goch Eryri.<sup>1</sup> Ceir nifer o ddelweddu'n gyffredin i'r rhain i gyd, ond y mae cywyddau Llywelyn Goch a Iolo Goch yn arbennig o debyg i'w gilydd, a chan fod y ddau fardd yn gyfeillion y mae'n debyg fod y naill wedi dylanwadu ar y llall.

Nid oes ond chwe chopi o'r cywydd hwn, ac y mae pump o'r rheini yn llaw Llywelyn Siôn, a'r llall yn tarddu'n uniongyrchol o'i lawysgrifau ef. Felly, y mae'n bosibl fod y testun yn ddiffygiol mewn manau.

- 14 Ceir *n* berfeddgoll yn ail hanner y ll. hon.
- 25 **eithin llwyn** Calediad *n + ll* sy'n gyfrifol am y diffyg treigladd.
- 34 **pair dadeni** Gw. hanes y pair dadeni yn ail gainc y Mabinogi, a cf. GDG<sup>3</sup> 78 (27.5–6).

## 11

Priodolir y cywydd hwn i Ddafydd ap Gwilym mewn saith o'r naw llawysgrif, ond y mae tystiolaeth Pen 57 (c. 1450) yn bwysig iawn o blaid awdu-raeth Llywelyn Goch ap Meurig Hen. Ceir golygiad o'r gerdd, wedi ei seilio ar destun Pen 57 yn unig a'i phriodoli i Lywelyn Goch, yn DGA 4–5, 153–4.

Dengys llinell 4 fod gwrthrych y gerdd yn ferch benodol, a honno o dras fonheddig. Ar y posibilrwydd mai'r ferch a ddaeth yn wraig i'r bardd yw hon, gw. y Rhagymadrodd, td. 1.

<sup>1</sup> GIG 105–6 (cerdd XXV); IGE<sup>2</sup> 205–7 (cerdd LXIX), 332–4 (cerdd CX). Cf. hefyd cywydd mawl gan Lewys Glyn Cothi sy'n defnyddio'r un thema, GLGC 206–7 (cerdd 90). Gw. ymhellach, D. Foster Evans, 'Y Bardd a'i Farf: y Traddodiad barfol', *Dwned*, ii (1996), 11–29.

- 7 **Ofydd** Gw. 12.53n.
- 9 **pedeirhawl** Y mae tair o'r pedair yn cyfateb i'r hawliau a ddiffinnir yn y llyfrau cyfraith, sef *gwreic o rod*, *gwreic o lathlut*, a *treis*, a defnyddio termau 'Llyfr Iorwerth', gw. T.M. Charles-Edwards, 'Nau Kynywedi Teithiauc' yn WLW 23–39 (yn enwedig 36).
- 17 **nigmars** Gw. GPC 2583 d.g. *nigromans* (< H.Ffr. *nigromance*), 'dewiniaeth'.
- 18 **awr dda** Gw. 3.64n.
- 26 Y mae aceniad y gynghanedd yn afreolaidd, fel pe bai'n gofyn am orffwysfa yng nghanol y gair *anfonheddig*. Cf. GLGC 279 (124.1) a 479 (221.44).

## 12

Gwelir yn llinell 97 mai un o Bennal, rhwng Machynlleth ac Aberdyfi, oedd Lleucu. Yr oedd yn wraig briod, ond y mae'r dystiolaeth ynghylch ei gŵr yn amwys. Yn ôl nodyn yn llaw David Johns, person Llanfair Dyffryn Clwyd, wrth ei gopi o'r gerdd yn BL Add 14866, a ysgrifennwyd yn 1587, Dafydd Ddu o Gymer oedd ei enw. Ond yn ôl llyfrau achau Edward ap Rosier a Gruffudd Hiraethog, Ieuan Ddu o'r Gydros oedd ei gŵr.<sup>1</sup> Fe'i disgrifir gan Ruffudd Hiraethog fel *Lleucu Llwyd yr hon y gwnaeth Lln Goch ap Meurig Hen i marwnad*, a nodi iddi gael mab o'r enw y *koch*. Ategir y cyfenw *Du* gan linell 84 yma, y *gŵr du balch*. Efallai fod y cyfeiriad at *wraig Ddafydd* yng ngherdd 9 o blaid derbyn mai Dafydd Ddu oedd enw ei gŵr, ac y mae'r ffaith mai i Feirionnydd yr anfonir y llatai yn awgrymog, ond yn anffodus ni ellir bod yn gwbl sicr mai at Leucu y cyfeirir yn y gerdd honno.

Anodd, os nad amhosibl, yw penderfynu a fu perthynas odinebus rhwng Llywelyn a Lleucu ai peidio. Hawdd yw tybio bod yr angerdd digamsyniol a gyfleir gan y gerdd yn brawf bod profiad gwirioneddol y tu ôl iddi, ond eto i gyd y mae'n berffaith bosibl mai ffug-farwnad yw hon, gan fod y math hwnnw o gerdd yn boblogaidd iawn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Cyfeiria Llywelyn yn ei awdl gyffes at yr elfen o gabledd sy'n ymhlyg yn ei ganu i Leucu,<sup>2</sup> a chyffesa odineb yn y llinell ganlynol, ond ni ellir bod yn sicr mai at Leucu y cyfeirir yno. Yn ei farwnad i Lywelyn sonia Iolo Goch am weddiö dros ei enaid, a chyfeiria at Ddafydd Broffwyd fel esiampl o fardd a fu'n anniwair ac a gafodd faddeuant gan Dduw.<sup>3</sup> Y mae Iolo'n hyderus, felly, y bydd Duw'n maddau 'ffolineb' Llywelyn. Unwaith eto, nid yw'n glir ai godineb ynteu canu am odineb oedd ei bechod. Ond yn sicr, tystia

<sup>1</sup> Pen 128, 925<sup>a</sup> a Pen 177, 138.

<sup>2</sup> 7.23–4; cf. hefyd 8.52–4.

<sup>3</sup> GIG 95 (XXII.83–96).

Iolo i boblogrwydd canu Llywelyn i Leucu yn ystod ei oes:

Pan ofynner, arfer oedd  
 Y lleisiau yn y llysoedd,  
 Cyntaf gofynnir, wir waith,  
 I'r purorion, pêr araith,  
 Rhieingerdd y gŵr hengoch,  
 Lliaws a'i clyw fal llais cloch.<sup>4</sup>

Y mae'n bosibl bod mwy nag un ferch o'r enw Lleucu Llwyd wedi bod yn destun canu serch yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn fersiwn Peniarth 20 o Ramadeg y Penceirddiaid ceir yr englyn canlynol yn esiampl o englyn lleddfbroest gadwynog:

Na'r haul yn hwyl awyrnaid,  
 Na'r lloer nid gwell y'u lliwwyd,  
 Yn llathrwiw wedd, yn llathraid,  
 Yn llathru no Lleucu Llwyd.<sup>5</sup>

Tua 1330 y lluniwyd y fersiwn hwnnw o'r Gramadeg, braidd yn gynnar ar gyfer Llywelyn Goch. Haws yw credu mai merch wahanol oedd gwrthrych yr englyn hwnnw. Rhaid ystyried hefyd yr englyn yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd sy'n cynnwys llythrennau'r enw Lleucu Llwyd, ond unwaith eto nid oes sicrwydd mai at gariad Llywelyn y cyfeirir.<sup>6</sup>

Ceir 58 o gopiâu o'r gerdd hon, a dengys yr amrywiadau helaeth iddi fod yn boblogaidd iawn ar lafar am ganrifoedd. Mewn ambell gopi ceir olion chwedl ynghylch amgylchiadau marwolaeth Lleucu. Er enghraifft, yn llawysgrif Card 5.167 [= Thelwall] ceir y nodyn canlynol sy'n adleoli Lleucu yn y gogledd-ddwyrain: *Llyma varwnad Lleuku Llwyd a wnaethai oed dydd a lln goch ap mevrlic hen ac erbyn y dydd y bv farw ac ai kladdwyd yngressffordd y maelor*. Perthyn diddordeb arbennig i'r nodyn a geir yn LIGC 3061D [= Mos 165], gan ei fod yn llaw Siôn Dafydd Las, a oedd yn fardd teulu Nannau yn yr ail ganrif ar bymtheg. Ond fe ymddengys ei fod yn tarddu o ddarlenniad llythrennol o'r gerdd:

Llywelyn goch aethe ir deheudir ag addowse ddyfod adref yr amser ar amser ag erbyn ei ddyfod yr oedd lleuccu llwyd dan y bwrdd a phan ddaeth ef at y drws a gwybod fod ei hwylnos hi ef a syrthiodd mewn llewig ai bwys ar y drws nes ei egoryd ai ollwng ynteu yn farw ir llawr os gwir a ddywedant, a lleuccu oedd wraig gŵr arall.

Chwedl fwy datblygedig yn seiliedig ar y gerdd yw 'Breuddwyd Llywelyn Goch ap Meurig Hen' a geir yn llaw Syr Thomas Wiliems yn

<sup>4</sup> GIG 93 (XXII.21–6).

<sup>5</sup> Gw. GEO 52–3 (GP 48).

<sup>6</sup> Gw. Cylch LIGC xxii (1981), 17–18 a 26 a GLIBH cerdd 15.

LIGC 3029B [Mos 110], 112–14,<sup>7</sup> ond fe ymddengys fod Wiliems wedi ymyrryd â'r chwedl er mwyn ei throi'n foeswers yn dangos y gosb am odineb.

Trafodir y gerdd gan R. Geraint Gruffydd, 'Marwnad Lleucu Llwyd gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen', YB i (1965), 126–37, gan roi sylw arbennig i'r defnydd o fotiff y serenâd, gan Gilbert Ruddock, 'Amwysedd ac Eironi ym Marwnad Lleucu Llwyd', YB ix (1976), 61–79 a chan Damian Walford Davies, 'Bywyd Marwnad: Marwnad Lleucu Llwyd', *Y Traethodydd*, cxlvii (1992), 211–20. Ceir cyfieithiadau Saesneg gan Gwyn Williams, *The Burning Tree* (London, 1956), 100–5, Joseph Clancy, *Medieval Welsh Lyrics* (London, 1965), 116–19, a Dafydd Johnston, *Medieval Welsh Poems: An Anthology* (Binghamton, New York, 1992), 112–14.<sup>8</sup>

- 4 **mis** Y cyfnod o amser y bu Llywelyn i ffwrdd yn y De, y mae'n debyg. Nododd R. Geraint Gruffydd, YB i (1965), 134, y gall fod arwyddocâd yn y ffaith mai mis, fwy neu lai, ar ôl claddu y cenid marwnadau gynt.
- ermoed** Ar y ffurf hon sy'n cynnwys y rh. meddiannol l un., gw. GMW 222.
- 5–8 Dichon fod hyn a'r cyfeiriadau niferus eraill at oleuni yn y gerdd yn chwarae ar enw Lleucu, sy'n ymddangos fel petai'n cynnwys yr elfen *lleu* 'golau' (cf. hefyd yr englyn o'r Gramadeg a ddyfynnir uchod).
- 37 **Indeg** Un o dair 'caredigwraig' Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 157 a 412–13.
- 41–4 Er mwyn egluro'r newid meddwl sydyn yn y fan hon, dyfynna R. Geraint Gruffydd, *art.cit.* 135, o Gyfraith Hywel, *cane pharha amuot namen en oes e den a'e gunel* (LII 43).
- 45 **cul weddi** Awgrymodd Gilbert Ruddock (YB ix (1976), 74) mai'r ystyr yw 'bod y bardd (a Lleucu hithau, ond odid) heb roi yn y gorffennol ddigon o sylw i weddio ar Dduw, gan roi eilun bydol yn Ei le'.
- 53–4 **Mynydd ... Olifer** Mynydd yr Olewydd, gw. 7.11n uchod.
